Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-2020











llyw.cymru

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Caiff Cyfrifon Llywodraeth Cymru eu paratoi yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â hwy.

Gosodir hwy gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

OGL ISBN digidol 978-1-80082-408-9 © Hawlfraint y Goron 2020 WG40222

# Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol



Shan Morgan

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy mhedwerydd cyfrifon cyfunol ar ran Llywodraeth Cymru.

Heb unrhyw amheuaeth mae'r argyfwng COVID-19 byd-eang, o ran ei raddfa a'i effaith, wedi'i bwrw ei gysgod dros y flwyddyn hon. Nid oes yr un rhan o Lywodraeth Cymru sydd heb ei chyffwrdd gan effeithiau'r pandemig, sydd wedi peri inni ailgyfeirio cyfran fawr o'n hadnoddau er mwyn ymateb i'r heriau cymhleth hyn na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae staff ar bob gradd, o bob rhan o'r gweithlu, wedi chwarae eu rhan i helpu ein Gweinidogion i ddiogelu pobl yng Nghymru – yn aml o dan amgylchiadau personol heriol iawn. Rwy'n hynod falch o'r proffesiynoldeb, yr ymrwymiad a'r egni y mae'r sefydliad cyfan wedi'u dangos dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac rwy'n ddiolchgar iawn i'n partneriaid mewn llywodraeth leol, y gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda nhw.

Daeth y pandemig ar ben yr holl waith a pharatoadau roedd angen eu gwneud ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn helpu'r Prif Weinidog a'r Cabinet i ddelio ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Ers dechrau'r cyfnod pontio ym mis Ionawr 2020, rydym wedi cynnal lefel uchel iawn o barodrwydd strategol a gweithredol wrth gynllunio at y dyfodol a rhoi camau gweithredu'r broses ymadael ar waith. Yn ystod y gwanwyn, dechreuodd y negodiadau ynghylch perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol o fewn fframwaith y Datganiad Gwleidyddol y cytunwyd arno. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio chwarae rôl ddynamig yn y negodiadau â Llywodraeth y DU er mwyn diogelu a hyrwyddo ein holl fuddiannau ac mae hefyd wrthi'n ceisio dylanwadu ar negodiadau masnach Llywodraeth y DU â gweddill y byd Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch a fydd modd dod i gytundeb ar berthynas newydd rhwng y DU a'r UE neu pryd

y bydd hynny'n digwydd – ond mewn unrhyw senario byddwn yn wynebu cryn nifer o heriau gweithredol a heriau polisi gan gynnwys cyflawni mewn meysydd cyfrifoldeb newydd, a hynny mewn cyd-destun gweithredu a fydd wedi newid yn sylweddol.

Ar ddechrau'r cyfnod adrodd hwn lansiodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel. Hwn oedd ein cynllun statudol cyntaf i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, ac roedd yn nodi 100 o bolisïau a chynigion i ddatgarboneiddio, gan ein galluogi i gydymffurfio â'n cyllideb garbon gyntaf a chreu'r sylfeini ar gyfer lleihau allyriadau ymhellach. Cydnabyddir bod ein deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd yn esiampl i'r byd ac rydym yn ceisio defnyddio'r ddeddfwriaeth hon i gyflymu newidiadau, er mwyn sbarduno ton o weithredu yn y DU ac yn rhyngwladol. Eleni hefyd fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd fel arwydd pellach o'n hymrwymiad i ymateb i un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol a nodi pum mlynedd ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddod yn gyfraith yng Nghymru. Hon yw'r ddeddf gyntaf o'i bath yn y byd, sydd wedi newid y ffordd rydym yn cynllunio at y dyfodol.

Gwelsom hefyd gynnydd yn nifer y digwyddiadau tywydd eithafol a buom yn delio â chanlyniadau dwy storm ddinistriol. Cafodd Ciara a Dennis effaith ddifrifol ar bobl ac eiddo ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd glawiad a lefelau afonydd eithriadol, gyda llawer o afonydd yn cofnodi'r lefelau llif uchaf erioed. Gwnaed niwed sylweddol i fywoliaethau, cymunedau a sefydliadau, gan gynnwys ein sefydliad ni, am fod nifer o'n swyddfeydd wedi gorfod cau oherwydd llifogydd difrifol. Rhoddwyd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaethau Brys, Awdurdodau Lleol a'r GIG o dan bwysau mawr i ymateb i'r rhai yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt ledled y wlad. Rhoddwyd cynlluniau parhad busnes ar waith yn gyflym fel y gallai gweithgarwch busnes hollbwysig barhau i gefnogi Gweinidogion yn ystod y cyfnod anodd hwn. Creodd staff o bob rhan o Gymru swyddfeydd dros dro er mwyn croesawu a chefnogi cydweithwyr yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt a gwnaeth y penderfyniad i gyflwyno 'Gweithio'n Glyfar' wahaniaeth mawr i'n gallu i gynnal gweithrediadau busnes, am fod llawer o bobl yn gallu gweithio gartref. Daeth yn amlwg yn fuan mai ymarfer cymharol fach oedd hwn ar gyfer y newid mawr mewn diwylliant ac arferion gwaith y bu'n rhaid inni eu gwneud, dros nos bron, er mwyn parhau i weithio tra bod cyfyngiadau symud COVID-19 ar waith.

Er bod argyfwng COVID-19, paratoi ar gyfer ymadael â'r UE a llifogydd wedi rhoi'r sefydliad o dan bwysau sylweddol, rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnal y momentwm i gyflawni'r ymrwymiadau pwysicaf yn y Rhaglen Lywodraethu. Yn anochel, bu gofyn i Weinidogion a'r gwasanaeth sifil flaenoriaethu'n ofalus.

Mewn cyfnod heriol, mae'n bosibl bod rhai pobl yn credu nad oes modd inni roi sylw i ar urddas a pharch, arweinyddiaeth gynhwysol na meithrin ein gallu – rwy'n credu fel arall. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gwneud nifer o newidiadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn drwy fy menter Diogelu'r Dyfodol sydd wedi cael cryn effaith ar y ffordd rydym yn gweithio. Mae buddsoddi mewn cyfarpar TGCh newydd a chyflwyno 'Gweithio'n Glyfar' – sef ein dull o helpu i wella hyblygrwydd, cydnerthedd a chynhyrchiant tra'n canolbwyntio ar fusnes – wedi annog pob un ohonom i ailystyried ein hymagwedd at waith. Ni allaf ddychmygu sut y byddem wedi ymdopi yn ystod y chwe mis diwethaf

pe na byddem eisoes wedi gwneud y buddsoddiad hwn yn ein cyfarpar a'n diwylliant a bydd ein dull 'Gweithio'n Glyfar' yn ein helpu i leihau ein heffaith amgylcheddol a gweithio'n fwy cynhyrchiol ymhell i'r dyfodol. Yn wir, mae arolygon staff diweddar yn dangos bod y lefelau ymgysylltu a chyfathrebu ar draws Llywodraeth Cymru i gyd yn uwch nag erioed.

Rydym yn parhau i feithrin gallu a sgiliau ein gweithlu ac rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar wella ansawdd a hygyrchedd cyfleoedd sydd ar gael i gydweithwyr drwy lansio ein Labordy Dysgu ar-lein. Dyma rywbeth yr hoffwn adeiladu arno yn y flwyddyn sydd i ddod wrth inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o atgyfnerthu ein gallu wrth weithio o bell.

Rwy'n falch iawn bod Strategaeth Gymraeg fewnol Llywodraeth Cymru wedi'i lansio yn ystod 2020. Bydd hon yn gwireddu'r ymrwymiad a wnaethom o dan Cymraeg 2050 i ddangos esiampl o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.

Cynhaliwyd dau borth asesu a datblygu newydd cyn i'r argyfwng COVID-19 ein gorfodi i roi'r gorau i ddyrchafu aelodau o staff yn fewnol am y tro a chyflwynwyd sawl rhaglen ddatblygu hefyd, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer menywod sy'n awyddus i ymgymryd â rolau uwch-arweinwyr a chydweithwyr o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) – a gafodd dderbyniad brwd. At hynny, atgyfnerthais fy ymgyrch 'Dewch i Drafod Parch', sydd wedi'i hanelu at y sefydliad cyfan, er mwyn ymgorffori'r ymddygiadau cadarnhaol rydym yn disgwyl eu gweld gan bob aelod o'n staff, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn lle i weithio lle mae pobl yn teimlo y gallant gyflawni eu llawn botensial, mynegi eu hunain a herio ymddygiad annymunol.

Bellach, mae ffocws cliriach fyth i'r gwaith hwnnw yn sgil digwyddiadau'r misoedd diwethaf pan wnaeth effaith anghymesur COVID-19 ar ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys atseinio ledled y byd. Fel pennaeth gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru rwyf wedi datgan yn glir nad oes lle i hiliaeth yn y sefydliad hwn ac rwyf wedi ailbwysleisio hynny mewn neges o gefnogaeth i gydweithwyr BAME a anfonwyd at bob aelod o staff. Mae'r gwaith paratoi sylweddol a'r canllawiau ar weithio'n ddiogel gartref ac yn y swyddfa a ddatblygwyd gennym ar gyfer staff yn ystod yr argyfwng byd-eang yn cynnwys adnodd asesu risg unigol sydd ar gael i bawb ond sy'n arbennig o bwysig i gydweithwyr BAME o ystyried y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar effeithiau anghymesur y feirws.

Fe'm trawyd bod yr argyfwng COVID-19 wedi helpu i wreiddio ymhellach yn Llywodraeth Cymru y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, cafodd ein rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu a'r cynllun gwarchod eu creu'n llwyddiannus ar y cyd â rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Bydd cryfhau'r dull hwn ar draws Llywodraeth Cymru yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Drwy gydol ein hymateb, rydym wedi troi at y strwythurau partneriaeth cymdeithasol a oedd wedi'u hen sefydlu gennym, i gefnogi'r cydweithio effeithiol sy'n digwydd â chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac ag undebau llafur. Ers tro byd mae'r strwythurau hyn wedi ein galluogi i gydweithredu er mwyn ein buddiannau cyffredin ac rydym wedi gallu eu mireinio ymhellach cyn i'n deddfwriaeth ddrafft gael ei llunio.

Bydd llawer o wersi y gallwn eu dysgu o gyfnod yr argyfwng hwn a fydd yn ein helpu i siapio'r sefydliad ar gyfer y dyfodol, ac rwy'n bwriadu cynnwys y sefydliad cyfan yn y sgwrs honno. Bydd hyn yn cynnwys dysgu o'r profiad o weithio o bell wrth gynnal gweithlu gwasgaredig ledled Cymru a lleihau ein hôl troed carbon o ran trafnidiaeth breifat.

Yn olaf, rwy'n hynod falch o'r modd y mae'r gwasanaeth sifil wedi ymateb i'r pwysau enfawr sydd wedi bod arnom, ond nid wyf yn cymryd gwydnwch a llesiant unigolion a'r sefydliad yn ganiataol. Mae hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol o galed a heriol i'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Mae'r sefyllfa dynn barhaus o ran y gyllideb yn golygu bod gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn parhau i fod dan bwysau a bod blaenoriaethu didrugaredd wedi bod yn hanfodol i reoli'n effeithiol a darparu gwasanaethau o safon o fewn y gyllideb yn ystod yr argyfwng COVID-19. Gyda chefnogaeth y Prif Weinidog a'i gyd-Weinidogion, mae fy uwch-dîm a minnau wedi canolbwyntio'n galed ar gyfeirio ein hadnoddau at y prif flaenoriaethau. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cadw golwg gyson ar hyn.

**Shan Morgan**
Yr Ysgrifennydd Parhaol

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Pwyllgor ARAC Llywodraeth Cymru

Dyma'r tro cyntaf i sylwadau gan gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Llywodraeth Cymru gael eu cyflwyno fel rhan o gyfrifon cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru.

Fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru bûm yn gwasanaethu ar ARAC drwy gydol y flwyddyn ac, ym mis Mawrth 2020, ymgymerais â swydd y Cadeirydd gan olynu Ann Keane. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ffurfiol i Ann am stiwardio ac arwain y pwyllgor yn fedrus iawn.

Mae ARAC Llywodraeth Cymru yn fy nghynnwys i fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol allanol Bwrdd Llywodraeth Cymru a thri chadeirydd annibynnol allanol y Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg ar wahân ar gyfer pob un o grwpiau gweithredol Llywodraeth Cymru, sef yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel ARACau y Grwpiau.

Diben ARAC Llywodraeth Cymru yw rhoi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â materion rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu ac mae'n mabwysiadu'r egwyddorion a'r canllawiau a nodir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EM.

Mae gan ARACau y Grwpiau eu pwyllgorau eu hunain sy'n cynnwys aelodau annibynnol allanol ac maent yn gweithio yn unol â chylch gorchwyl sy'n cyd-fynd â gofynion ARAC Llywodraeth Cymru. Mae ARACau y Grwpiau yn cyfarfod bob tri mis â'u priod gyfarwyddwyr cyffredinol a swyddogion ac yn cyflwyno adroddiad ffurfiol ym mhob cyfarfod o ARAC Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, diweddarodd y pwyllgor ei gylch gorchwyl a chroesawodd aelodau newydd i bob un o ARACau y Grwpiau, a oedd yn cynnwys rhaglen gynefino briodol i aelodau newydd. At hynny, bu'r pwyllgor yn gweithio gyda swyddogion a'r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu ac ymgorffori set newydd o safonau gweithredol i'r pwyllgor ac mae'r rhain yn gweithio'n dda.

Roedd gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yn cynnwys, fel mater o drefn, adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, llunio adroddiadau sicrwydd ac adroddiadau cynghori a chynllunio gwaith archwilio mewnol gan gynnwys adnoddau. Bu ARACau y Grwpiau yn craffu'n rheolaidd ar y cofrestrau risg ar gyfer eu priod grwpiau gweithredol. Mae'n bleser gennyf nodi bod prosesau ymgysylltu swyddogion ag ARAC Llywodraeth Cymru ac ARACau y Grwpiau wedi bod yn dda drwy gydol y flwyddyn.

Mae staff o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd ARAC Llywodraeth Cymru ac, yn unol â hynny, ystyriwyd materion priodol a pherthnasol.

Ataliwyd llif gwaith ARAC Llywodraeth Cymru ac ARACau y Grwpiau am gyfnod byr yn y Gwanwyn oherwydd argyfwng COVID-19. Yn ffodus, ni pharodd y sefyllfa hon yn hir ac ailgydiwyd yn yr holl weithgarwch gan ddefnyddio technolegau a llwyfannau digidol priodol. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys cyfarfod eithriadol ychwanegol o ARAC Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ar 22 Mai 2020 er mwyn ystyried materion perthnasol a oedd yn dod i'r amlwg o dan argyfwng COVID-19.

Fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i'r archwilwyr, yr uwch-swyddogion, y Cyfarwyddwyr a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr am gefnogi gwaith parhaus y pwyllgor.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi barn amodol ar gyfrifon blynyddol 2019-20 ar sail gwahaniaeth barn rhyngddo a swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddehongli'r safon gyfrifyddu IAS37 a'i chymhwyso mewn perthynas â chymorth grant i fusnesau bach a'r sectorau hamdden, lletygarwch a manwerthu a gyhoeddwyd gan Weinidogion ym mis Mawrth 2020. Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, cyfarfu ARAC Llywodraeth Cymru i drafod y mater ar ddau achlysur penodol a chlywodd gan swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru. Darparodd y ddau bapurau manwl, llawn gwybodaeth yn nodi eu safbwyntiau a'r rhesymeg dros eu casgliadau. Ar ôl ystyried IAS 37, yr holl wybodaeth dystiolaethol a ddarparwyd hyd yma a thrwy ddadansoddi realiti'r amgylchiadau eithriadol yn ofalus, daeth y pwyllgor i'r casgliad bod y dull cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn gyson â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar grantiau a'r ffordd y maent yn ymdrin â hwy. Serch hynny, mae barn archwilio amodol yn fater difrifol, a bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y goblygiadau posibl yn ofalus.

**Gareth Lynn**
Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

# Cynnwys


**Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Cipolwg** 2

**Rhan Un:**

Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru: Cipolwg ar Lywodraeth Cymru 4
Y Cabinet 5
Y Gwasanaeth Sifil 6
Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru 8
Prif Adroddiadau Llywodraeth Cymru 12
Llifoedd Arian Llywodraeth Cymru 13
Fframwaith Cyllidol a Pholisi Trethi 13
Benthyca gan Weinidogion Cymru 14
Cyd-destun Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 14
Prif Feysydd Gwario Llywodraeth Cymru 17
Rheoli'r Rhaglen Ddeddfwriaethol 19
Paratoi ar gyfer Ymadael â'r UE 21
Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru 23
Ymateb i'r Llifogydd 24
Ymateb i COVID-19 26
Datgarboneiddio 31
Cyflawni ein hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 32
Yr Agenda Digidol 36
Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch 38
Parchu Hawliau Dynol 41
Gweithio'n Ddwyieithog 42
Gweithio mewn Partneriaeth 43
Gwrthlwgrwobrwyo a Llygredd 44
Ymdrin â Chwynion 45

**Rhan Dau:**

Yr Adroddiad Atebolrwydd 46
Y Datganiad Llywodraethiant 48

**Rhan Tri:**

Y Cyfrifon 105

# Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Cipolwg

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon blynyddol. Mae'r Adroddiad yn rhoi darlun manwl o'r ffordd rydym wedi rheoli ein cyllid a bodloni ein rhwymedigaethau statudol, ond mae hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth gyda chi am y modd y mae'r sefydliad wedi cael ei redeg yn ystod y flwyddyn.

Nid yw'n rhoi disgrifiad o'r cynnydd a wnaed o ran rhaglen gyflawni Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb. Mae hwn ar gael yn www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2019 sydd i'w weld ar ein gwefan.

## Mae tair elfen allweddol i'r Adroddiad a'r Cyfrifon.

Yn unol ag arweiniad gan Drysorlys EM, oherwydd yr argyfwng byd-eang presennol, mae **Rhan Un** o'r adroddiad wedi'i chwtogi eleni er mwyn caniatáu inni ganolbwyntio ein hadnoddau ar yr ymateb i COVID-19. Ymdrinnir â'n blaenoriaethau allweddol o hyd. Mae'r adroddiad yn dechrau drwy roi trosolwg o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano, aelodaeth y Cabinet, uwch-arweinyddiaeth y sefydliad yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu, a'n fframwaith perfformiad.

Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r uchelgeisiau polisi a'r blaenoriaethau cyflawni a gynhwysir yn rhaglen y Llywodraeth, ond yr Ysgrifennydd Parhaol a'r uwch-dîm arwain sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn perfformio'n effeithiol i gyflawni'r rhaglen honno. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun cyffredinol o'r modd y mae'r sefydliad wedi ymateb yn ystod cyfnod o her eithriadol.

Mae hyn yn cynnwys sut yr aethom ati i reoli'r paratoadau cymhleth ar gyfer ymadael â'r UE, ein hymateb i effaith gynnar COVID-19 yng Nghymru, ac i'r llifogydd dinistriol a ddigwyddodd yn gynharach yn y flwyddyn. Yn ariannol, mae'n cynnwys llifau cyllid Llywodraeth Cymru, y fframwaith cyllidol a'r polisi trethi, benthyca gan Weinidogion Cymru, cyd-destun cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru, a'n prif feysydd gwariant.

Fel llawer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n ymrwymedig iddi. Ceir diweddariad ar y modd yr ydym wedi rhoi'r Ddeddf ar waith, a rhagor o wybodaeth am sut y mae'r sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae gennym Gytundeb Gweithio mewn Partneriaeth hirsefydlog â'n Hundebau Llafur ac mae'r ysbryd hwn o bartneriaeth gymdeithasol wedi bod yn hynod werthfawr i'n helpu i ymateb i'r heriau sy'n ein wynebu. Mae Ochr yr Undebau Llafur yn gweithio'n agos gyda'r uwch-dîm reoli ar ein holl brif fentrau gwella sefydliadol ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y modd yr awn ati i fodloni ein hymrwymiad i gyflogaeth deg, iechyd a diogelwch ac amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae rheoli ag uniondeb a phriodoldeb hefyd yn sylfaenol i'n gwerthoedd craidd. Ceir diweddariadau ar ein hymrwymiad i urddas a pharch, cefnogi hawliau dynol, a mynd i'r afael â llygredd, llwgrwobrwyo a thwyll. Ceir hefyd grynodeb o'r cwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru yr ymdriniwyd â hwy gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae **Rhan Dau** yn cynnwys yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion a'r uwch-swyddogion ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn unol â'r gyllideb y pleidleisiwyd arni. Elfen bwysig arall yw Datganiad Llywodraethiant yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn disgrifio'r rheolaethau sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i ymgymryd â'u dyletswyddau a rheoli adnoddau'r sefydliad.

Neilltuir **Rhan Tri** i'r cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon yn ddatganiad cynhwysfawr ar y costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi manylion am ei holl asedau a rhwymedigaethau.

# Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

## Cipolwg ar Lywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gweithio ar draws meysydd allweddol bywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg, yr economi, amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Cafodd ei sefydlu'n ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a oedd yn rhannu swyddogaethau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth).

Ers hynny, mae Deddf Cymru 2014 wedi newid yr enw'n gyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael ei alw'n Senedd Cymru, neu'r Senedd. Mae setliad datganoli Cymru wedi esblygu'n ddramatig ers sefydlu'r Senedd ym 1999 ac mae'n parhau i ehangu wrth i bwerau newydd gael eu datganoli.

Dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau ac mae'n gyfrifol am gyflawni yn y meysydd a ddatganolwyd iddi, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu polisïau; sefydlu a chyfarwyddo cyflawni a llywodraethu; cynnig cyfreithiau Cymru (Biliau'r Senedd); a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau a chanllawiau statudol. Mae hefyd yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

Ar 1 Ebrill 2018, daeth model datganoli newydd i rym yng Nghymru – y model cadw pwerau – gan roi mwy o benderfyniadau yn nwylo Gweinidogion Cymru. Mae'r model newydd yn nodi'n glir beth sydd wedi'i ddatganoli (ac sydd felly'n gyfrifoldeb i Senedd Cymru) a beth sydd wedi'i gadw (ac yn parhau'n gyfrifoldeb i Senedd y Deyrnas Unedig).



# Y Cabinet



**Y Cabinet a'r Gweinidogion yw:**

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford | Y Prif Weinidog |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd |
| Vaughan Gething | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lesley Griffiths | Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig |
| Julie James | Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jeremy Miles | Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd* |
| Eluned Morgan | Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol |
| Ken Skates | Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru** |
| Kirsty Williams | Y Gweinidog Addysg |
| Hannah Blythyn | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jane Hutt | Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| Julie Morgan | Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dafydd Elis-Thomas | Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth |
| Lee Waters | Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |

* O 4 Mawrth 2020, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit hyd at 3 Mawrth, 2020

** O 5 Chwefror 2020, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth hyd at 4 Chwefror, 2020

# Y Gwasanaeth Sifil

Y gwasanaeth sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Prif Weinidog a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae cryfderau craidd y gwasanaeth sifil; niwtralrwydd gwleidyddol; gweinyddiaeth effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn – yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi Llywodraeth Cymru.

## Yr Uwch-dîm Arwain

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad a phrif was sifil Cymru. Mae staff yn gweithio mewn un o bum Grŵp dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol a phedwar Cyfarwyddwr Cyffredinol.



**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

- Trysorlys Cymru
- Cyllid
- Llywodraethiant a Moeseg
- Gwasanaethau Corfforaethol



**Des Clifford Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog**

- Is-adran y Cabinet
- Swyddfa'r Cabinet
- Cyfathrebu
- Y Cyfansoddiad, Cyfiawnder a Phontio Ewropeaidd
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol
- Y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Tribiwnlysoedd Cymru



**Tracey Burke Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Addysg
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Tai ac Adfywio
- Llywodraeth Leol
- Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol *
- Is-adran y Gymraeg

  * Trosglwyddwyd i Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol 1 Ebrill 2020



**Andrew Goodall Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**

- Cafcass Cymru
- Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG
- Nyrsio
- Cynllunio, Cyflawni a Pherfformiad
- Iechyd y Boblogaeth
- Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
- Technoleg, Digidol a Thrawsnewid
- Y Gweithlu a Gwasanaethau Corfforaethol



**Andrew Slade Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR)**

- Busnes a'r Rhanbarthau
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Seilwaith Economaidd
- Newid yn yr Hinsawdd, Ynni a Chynllunio
- Yr Amgylchedd a'r Môr
- Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol – Cyllid a Gweithrediadau
- Tir, Natur a Bwyd
- Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol
- Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
- Gwasanaethau Masnachol Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (dros dro)

# Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

Nod Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yw ysgogi gwelliannau yn effeithiolrwydd y gwasanaeth sifil yng Cymru drwy asesu perfformiad sefydliadol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad.

## Cefndir


Ym mis Mawrth 2019, comisiynodd yr Ysgrifennydd Parhaol adolygiad i edrych ar y ffordd y caiff perfformiad sefydliadol ei fesur yn Llywodraeth Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, mabwysiadwyd Mynegai Effeithiolrwydd y Gwasanaeth Sifil Rhyngwladol (InCiSE) fel sail ar gyfer ein fframwaith perfformiad a chafodd ei addasu i gyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith wedi parhau i gwblhau themâu'r fframwaith, sefydlu trefniadau llywodraethiant a datblygu cysyniadau a dangosyddion priodol i fesur perfformiad y gwasanaeth sifil. Dechreuwyd cyflwyno'r fframwaith drwy gynnal yr adolygiad Bwrdd cyntaf ym mis Medi 2020, gyda gwaith pellach yn dilyn i gwblhau'r fframwaith ac i'w roi ar waith yn raddol ar draws y sefydliad.

## Y fframwaith perfformiad

Mae Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yn cynnwys 18 thema, sy'n golygu ei fod yn eang a chynhwysfawr. Mae'r themâu, y cytunwyd arnynt drwy ymgynghori â'r Bwrdd, uwch-reolwyr eraill ac ymchwilwyr InCiSE, wedi'u rhannu'n ddau grŵp – swyddogaethau ('yr hyn a wnawn') a phriodoleddau (' sut rydym yn ei wneud').

## Fframwaith Perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru



## Cynnydd o ran cwblhau dangosyddion y fframwaith

Ein bwriad yw cyflwyno'r fframwaith i'r sefydliad yn raddol wrth inni ddatblygu a chytuno ar y dangosyddion a fydd yn fwyaf effeithiol o ran ein helpu i ddeall ble mae gwelliant yn digwydd a ble mae angen i ni hoelio sylw. Rydym wedi parhau i weithio i ddynodi perchnogion busnes ar gyfer themâu unigol neu grwpiau o themâu, ac rydym yn gweithio gyda nhw, yn ogystal ag aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol, i nodi a datblygu cysyniadau a dangosyddion priodol.


Y nod yw nodi cysyniadau a dangosyddion sy'n adlewyrchu gweithgareddau craidd, lle mae newid o fewn ein rheolaeth a lle rhagwelir y byddai'n fwyaf buddiol i ganolbwyntio'r camau gweithredu a'r gwelliant. O ystyried natur eang y fframwaith, bydd dau neu dri dangosydd yn cael eu dewis fesul thema. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cwblhau 18 thema'r fframwaith – cytunwyd ar gysyniadau a dangosyddion ar gyfer wyth o'r themâu, ac mae tair thema arall bron wedi'u cwblhau. Mae'r argyfwng presennol yn anorfod yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y fframwaith perfformiad a bydd angen gwneud mwy o waith ar saith thema yn y flwyddyn i ddod.

## Trefniadau llywodraethiant ar gyfer y fframwaith

Yn amlwg, ni all fframwaith perfformio ynddo'i hun wella perfformiad. Mae sicrhau bod themâu a dangosyddion yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu'n ddigonol fel y gellir cymryd camau gweithredu parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliant. Bydd angen i'r broses o gyflwyno adroddiadau ar y fframwaith fod yn bragmataidd a bydd angen iddi ysgogi gwelliannau yn y sefydliad. Bydd y fframwaith perfformiad yn cael ei gynnal ar sail cylch blynyddol a fydd yn adrodd i'r Bwrdd mewn dwy sesiwn; un yn canolbwyntio ar y themâu 'priodoleddau' ym mis Gorffennaf ac ail sesiwn ar themâu 'swyddogaethau' ym mis Ionawr/Chwefror.

Bydd y Bwrdd wedyn yn penderfynu ar y themâu penodol lle maent am gyfeirio rhagor o waith archwilio er mwyn ysgogi perfformiad a newid dros y chwe mis dilynol.

Cafodd y Bwrdd drosolwg perfformiad cyntaf o'r themâu 'priodoleddau' ym mis Gorffennaf eleni. Roedd yr adroddiadau'n cynnwys graddfeydd perfformiad lefel uchel a naratif yn darparu cyd-destun a dehongli ar gyfer yr holl ddangosyddion oedd ar gael o fewn y themâu hyn. Ar y dudalen nesaf ceir diagram sy'n dangos sut y mae'r fframwaith yn gweithredu o fewn cylch blynyddol.




## Datblygu pellach a'r camau nesaf

Bydd gwaith i lenwi bylchau yn y fframwaith yn parhau, gan weithio gyda pherchnogion busnes. Bydd angen datblygu mecanweithiau casglu data ar gyfer dangosyddion lle nad oes data ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal â 'naratif' i gyd-fynd â themâu a dangosyddion i gynorthwyo dealltwriaeth o'r cyd-destun a'r dehongli.

# Prif Adroddiadau Llywodraeth Cymru


Dim ond un o'r prif adroddiadau sy'n ymdrin â darpariaeth a gweithgareddau Llywodraeth Cymru yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

**Prif adroddiadau**

| | Gweinidogion | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Proses y Gyllideb** | **Adroddiad Alldro** | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019** | **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol** | **Adroddiad Llesiant Cymru** | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** |
| **Deddfwriaeth** | Rheol Sefydlog 20.7 | | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddf Llywodraeth Cymru a131-136 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| **Arweinydd** | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd | Y Prif Weinidog | Yr Ysgrifennydd Parhaol | Y Prif Ystadegydd | Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| **Diben** | Amlinellu cynigion y gyllideb gan nodi'r cynlluniau ariannu, a symiau'r adnoddau a'r arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r symiau amodol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall sy'n briodol ym marn y Gweinidog. | Manylion y gyllideb a'r alldro ar gyfer pob un o'r Prif Grwpiau Gwariant ynghyd ag eglurhad o unrhyw amrywiadau. Adroddir ynghylch amrywiadau yn y Terfynau Gwariant Adrannol adnoddau, y Terfynau Gwariant Adrannol cyfalaf, y Gwariant a Reolir yn Flynyddol a'r adnodd nad yw'n arian parod. | Nodi'r cynnydd tuag at 12 nod llesiant y Llywodraeth a'r chwe maes blaenoriaeth sy'n cyfrannu at nodau lluosog. | Manylion am y ffordd y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg gan gynnwys sut y mae'n rheoli ei harian ac yn cyflawni ei rhwymediaethau statudol. | Nodi'r cynnydd, drwy gyfraniad pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn ar y cyd, tuag at y saith nod llesiant gan defnyddio'r 46 dangosydd llesiant cenedlaethol. | Nodi'r tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru. |
| **Amserlen** | Ddim yn benodol ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu i'r pwyllgor busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb. | Ar ôl i'r Cyfrifon gael eu llofnodi a chyn y Gyllideb. | Cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. | Erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn. | Cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol – ond yn ddibynnol ar ddata'r Arolwg Cenedlaethol fis Mehefin. | O fewn 12 mis I etholiad – caiff y sleidiau eu diweddaru'n fwy rheolaidd. |
| **Amserlen Eleni** | Y gyllideb ddrafft amlinellol<br>2 Hydref<br>Y gyllideb ddrafft fanwl<br>23 Hydref<br>Y gyllideb derfynol<br>18 Hydref | Tachwedd | 31 Ionawr 2020 | 30 Hydref | Medi | Cyhoeddi'r adroddiad fis Mawrth 2017<br>Diweddaru'r sleidau Ebrill 2019 |
| **Craffu** | Y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau pwnc | Y Pwyllgor Cyllid | Dadl yn y cyfarfod llawn<br>Y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Amh. | |

# Llifoedd Arian Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithlun isod yn dangos sut y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael eu hariannu yn dilyn datganoli trethi:




## Fframwaith Cyllidol a Pholisi Trethi

Mae Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am ddyraniadau ar lefel ariannu, trethiant a phrif grŵp gwariant y llywodraeth, ac yn nodi cynigion gwariant refeniw a chyfalaf y llywodraeth, gan gynnwys cynlluniau gwario manwl y portffolios.

Gellir dod o hyd i fanylion am gyllidebau Llywodraeth Cymru ar www. llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cefnogir y Gyllideb ddrafft gan adroddiad y Prif Economegydd www.llyw.cymru/cyllideb-cymru-2019-adroddiad-y-prif-economegydd a'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019 ac mae'r ddau adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rhagolwg Trethi Cymreig www.obr.uk/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2019/ yn cael ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ac mae'n darparu'r asesiad o'r fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb ynddo. Mae hwn ar gael ar wefan yr OBR.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygu Polisi Trethi Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2019 ac mae ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig www.llyw.cymru/trethi-cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.


# Benthyca gan Weinidogion Cymru

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau Cymru 2014 a 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru o fis Ebrill 2018. Rhaid i unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hyn.

Yn 2018-19, talwyd £65m i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol. Ni chafodd unrhyw bwerau benthyca eu harfer yn 2019-20. Ar 31 Mawrth 2020, y balans sy'n weddill yw £64m.

# Cyd-destun Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru

Disgrifir gweithgarwch cyllidol Cymru mewn cyfres o wybodaeth statudol am gyfrifon:



## Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau drwy bleidlais yn Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliadau Cyfraddau Cymreig y Dreth Incwm, a derbyniadau Trethi Datganoledig. Caiff benthyciadau gan Weinidogion Cymru eu talu i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan gynnig ar gyfer Cyllideb Cymru, neu fel Taliadau Uniongyrchol.

## Datganiad Trethi Awdurdod Cyllid Cymru

Mae hwn yn rhoi adroddiadau ynghylch derbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/welsh-revenue-authority-annual-accounts-2019-2020.pdf

## Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  www.ombwdsmon.cymru/annual-report-accounts/
- Comisiwn y Senedd
  www.busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2850
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
  www.audit.wales/cy/cyhoeddi/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2019-20

## Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a'r Ffin Gyfrifyddu

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol, ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 ar gyfer y cyfrifon.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi'i gynnwys yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn 2019-20. Mae'r sefydliadau cyfunol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru. Gweler y manylion isod:

## Grŵp Llywodraeth Cymru


- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Banc Datblygu Cymru
- WGC Holdco Limited
- Dewis Gyrfa Career Choices Limited
- Trafnidiaeth Cymru
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (LLP)

Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff Comisiynwyr, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn gan nad ydynt yn dod o fewn y ffin ar gyfer cyfrifyddu cyfunol.

# Prif Feysydd Gwario Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithluniau a ganlyn yn dangos 10 prif faes Gwario Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Cymru yn 2019-20. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel a ddefnyddir yn y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb.


## 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru




Cyfanswm y 10 Uchaf: **£12bn**

**85%** o'r gyllideb refeniw

## 10 prif faes gwariant cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru




Cyfanswm y 10 Uchaf: **£1bn**

**78%** o'r gyllideb gyfalaf

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae Trysorlys EM yn cydnabod mor ansefydlog yw rhai rhaglenni a'u bod yn seiliedig ar alw, a hefyd pa mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a Thrysorlys EM sy'n darparu'r cyllid fel arfer. Gelwir y cyllidebau hyn yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). O'r cyllidebau hyn o fewn y Datganiad o Alldro Adnoddau cafodd £705.6m neu 73% yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr ei roi heb ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

# Rheoli'r Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae rheoli gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn effeithiol yn un o brif flaenoriaethau'r Ysgrifennydd Parhaol a'i huwch-dîm arwain.

Yn 2019-20, daeth pedwar Bil a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ddeddfau, sef:

- Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019
- Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) 2020
- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

At hynny, bu'r Llywodraeth Cymru yn gweithio i ymateb i ddau Fil nas cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru a ddaeth yn Ddeddfau yn ystod y cyfnod hwnnw, sef Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Mae'r ail Ddeddf (ymhlith newidiadau eraill) wedi newid enw'r ddeddfwrfa ddatganoledig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru bum Bil arall i'r Senedd yn ystod y cyfnod hwn hefyd, sef:

- Bill Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) – sydd wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ac wedi dod yn un o Ddeddfau Senedd Cymru ers hynny
- Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Cymru)
- Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
- Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)
- Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Cafodd cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth Gymreig ei pharatoi a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Ynghyd â deddfwriaeth ddomestig sy'n mynd rhagddi, rhan fawr o'r gwaith hwn oedd yr angen i baratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Erbyn y diwrnod ymadael ar 31 Ionawr 2020, roedd Gweinidogion Cymru wedi gwneud 51 o Offerynnau Statudol cywiro er mwyn paratoi ar gyfer ymadael â'r UE ac wedi cydsynio i 158 o Offerynnau Statudol cywiro'r DU a gosod datganiadau ysgrifenedig yn eu cylch. At hynny, ymatebodd Llywodraeth Cymru i Filiau Senedd y DU pan oedd y rhain yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig a lluniodd Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Biliau hyn, gan gynnwys sawl un a oedd yn ymwneud â'r trefniadau pontio Ewropeaidd megis y Bil Amaethyddiaeth a Bil yr Amgylchedd.

Tua diwedd cyfnod y cyfrifon hyn, oherwydd yr angen i ymateb i'r pandemig COVID-19, adolygodd Llywodraeth Cymru ei holl weithgarwch presennol o ran deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a diwygiodd ei dull o ymdrin â deddfwriaeth. O ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn, nododd y Prif Weinidog mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 1 Ebrill 2020[1] sut y byddai'r llywodraeth yn canolbwyntio'r adnoddau sydd ar gael iddi ar ei blaenoriaethau deddfwriaethol allweddol. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi bod yn adolygu ei rhaglen o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn barhaus a gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad pellach ar y rhaglen ddeddfwriaethol ar 15 Gorffennaf.[2] Ers dechrau'r argyfwng COVID-19, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud mwy na 70 o eitemau o is-ddeddfwriaeth mewn ymateb i'r pandemig. Oherwydd yr holl waith yr oedd angen ei wneud er mwyn

1 www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dull-y-llywodraeth-o-ymdrin-deddfwriaeth-yn-dilyn-yr-achosion-o-COVID-19
2 www.record.assembly.wales/Plenary/6403#A59362

ymateb i COVID-19, mae'r Gweinidogion wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i ymgynghori ar Filiau Drafft ar Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a Phartneriaeth Gymdeithasol, yn hytrach na chyflwyno'r rhain gerbron y Senedd, a thynnu Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ei ôl. Fodd bynnag, bydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn parhau ar eu hynt drwy brosesau craffu'r Senedd. Cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) hefyd ym mis Gorffennaf 2020. Bydd hefyd yn gweithredu ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn dilyn y gwaith blaenoriaethu hwnnw.

Mae'r her sydd ynghlwm wrth gyflawni rhaglen deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth y Llywodraeth dros y misoedd sydd i ddod yn parhau'n un sylweddol. Yn un peth, bydd angen gwneud llawer o waith i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, unwaith y bydd yn gliriach pa fath o berthynas fydd rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Bydd angen rhagor o ddeddfwriaeth ynglŷn â COVID-19 hefyd, a bydd yr hyn y bydd angen ei roi ar waith yn dibynnu ar hynt y pandemig yng Nghymru. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu ei blaenoriaethau deddfwriaethol.

# Paratoi ar gyfer Ymadael â'r UE

Drwy gydol y flwyddyn, bu gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac mae wedi golygu gwaith sylweddol a dwys ym mhob rhan o'r sefydliad yn ogystal ag ystwythder i ymateb yn gyflym i gyd-destun gwleidyddol sy'n newid yn y DU.

Un ffocws penodol oedd paratoi ar gyfer y posibilrwydd y byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ddechrau'r flwyddyn ariannol ac, unwaith eto, ddiwedd mis Hydref 2019. Roedd pob Grŵp o fewn Llywodraeth Cymru ynghlwm wrth y gwaith, gan weithio mewn partneriaeth agos â'n partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys rhoi Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) ar waith. Hon yw ein canolfan ganolog ar gyfer cyfathrebu a briffio Gweinidogion Cymru ac mae hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'n cymheiriaid yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl.

Ym mis Medi 2019[3] cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'n cynllun gweithredu ar gyfer ymadael heb gytundeb, yn nodi'r mesurau a oedd yn cael eu datblygu i ymdrin, hyd y gellid, ag effeithiau posibl ymadael â'r UE heb gytundeb. Fe'i hategwyd gan wefan Paratoi Cymru[4] Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyngor i fusnesau, sefydliadau eraill a'r cyhoedd, ar faterion penodol a chamau y gallent eu cymryd.

Mewn diweddariad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru a oedd yn gwneud sylwadau ar waith yng Nghymru i baratoi ar gyfer y posibilrwydd y byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ym mis Medi 2019[5], gan adeiladu ar adroddiad cynharach, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru: "Mae cynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb wedi parhau, ac wedi cael ei gryfhau'n sylweddol mewn rhai meysydd, ers mis Mawrth. Ceir tystiolaeth i ddull mwy cydweithredol ledled gwasanaethau cyhoeddus Cymru."

Nododd y diweddariad hefyd: "Cynllunio ar gyfer Brexit yw'r esiampl fwyaf cynhwysfawr o weithio ar draws llywodraeth yr ydym wedi gweld Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef hyd yma. Mae'n ddiamau y bydd yna wersi gwerthfawr i Lywodraeth Cymru eu tynnu o'r profiad hwn a sut y gallai efallai addasu ei dull ar gyfer ymdrin â heriau cyflawni gwasanaethau cyhoeddus trawstoriadol eraill."

Er i'r DU osgoi ymadael â'r UE heb gytundeb, mae'r gwaith cynllunio a oedd yn gysylltiedig â pharatoi ar gyfer y posibilrwydd hwnnw wedi bod yn werthfawr ers hynny wrth ymateb i'r pandemig COVID-19. Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019, gadawodd y DU yr UE yn ffurfiol ddiwedd mis Ionawr 2020, gan gychwyn ar gyfnod pontio y disgwylir iddo bara tan ddiwedd mis Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, ar y cyfan, bydd cyfraith yr UE yn gymwys o hyd yn y DU a bydd y DU yn parhau i gyfranogi yn rhaglenni'r UE a chyllideb yr UE. Yn ystod 2020, bydd Llywodraeth y DU a'r UE yn ceisio negodi a chytuno ar berthynas ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i geisio dylanwadu ar y negodiadau hyn, gan gyhoeddi ei blaenoriaethau negodi ym mis Ionawr 2020[6], yn ogystal â cheisio cyfrannu at fandadau'r DU ar gyfer negodiadau ynghylch Cytundebau Masnach Rydd â gwledydd eraill. Serch hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi lleisio pryderon mawr nad yw'r blaenoriaethau na'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol wedi'u hadlewyrchu gan Lywodraeth y DU wrth iddi ymgymryd â'r negodiadau hynny.

3 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/paratoi-ar-gyfer-brexit-heb-gytundeb_0.pdf
4 www.llyw.cymru/paratoi-cymru
5 www.www.audit.wales/cy/system/files/publications/Brexit-follow-up-letter-september-2019-welsh.pdf
6 www.llyw.cymru/y-berthynas-rhwng-y-du-ar-ue-yn-y-dyfodol-blaenoriaethau-negodi-i-gymru-html

Ar hyn o bryd, mae ansicrwydd ynghylch a fydd modd dod i gytundeb ar berthynas newydd rhwng y DU a'r UE neu pryd y bydd hynny'n digwydd, ond mewn unrhyw senario, mae gwaith eang, cymhleth a chydgysylltiedig sydd angen ei wneud erbyn diwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys prosiectau paratoi, deddfwriaeth, materion polisi a materion ariannol, a fframweithiau cyffredin[7], y cyfan yn adeiladu ar waith yn y meysydd hyn yn 2019-20 a chyn hynny.

Darparwyd trefniadau llywodraethiant effeithiol ar gyfer y gwaith ar ymadawiad y DU â'r UE ar lefel Gweinidogion ac uwch-swyddogion drwy gydol 2019-20 gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd a Masnach, Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru a Grŵp Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, yn ogystal â fforymau llywodraethu penodol adrannau. Mae'r trefniadau hyn bellach wedi'u diweddaru, yn dilyn ymadawiad ffurfiol y DU â'r UE, er mwyn sicrhau system lywodraethu gadarn ar gyfer ein holl waith hanfodol ar y negodiadau a'r materion gweithredu sy'n ymwneud â diwedd y cyfnod pontio.

7 Wrth i'r DU ymadael â'r UE, bydd pwerau a oedd yn cael eu harfer ar lefel yr UE yn flaenorol ac sy'n torri ar draws cymhwysedd datganoledig yn dychwelyd yn uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig. Mewn rhai meysydd, mae'r DU a'r llywodraethau datganoledig yn cydweithio i ddatblygu dulliau gweithredu i'r DU gyfan drwy 'fframweithiau cyffredin'.

# Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Ers dau ddegawd, mae Llywodraeth Cymru, yn unol â'i chyfrifoldebau datganoledig dros ddatblygu economaidd rhanbarthol, wedi cyflwyno rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd mewn partneriaeth er mwyn sicrhau manteision sylweddol i gymunedau, pobl a busnesau ledled Cymru.

Yn ein Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru[8] (Ionawr 2017) a'r ddogfen Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit[9] (Rhagfyr 2017), nodwyd pwysigrwydd parhad cyllid a buddsoddi rhanbarthol datganoledig ar lefel sy'n cyfateb o leiaf i'r hyn y mae Cymru'n ei dderbyn gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd partneriaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru er mwyn datblygu fframwaith newydd ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol y tu allan i'r UE a fydd yn ateb heriau ac yn cynnig cyfleoedd mewn ffordd greadigol ac uchelgeisiol.

Rhwng 28 Chwefror a 10 Mehefin, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn amlinellu ein syniadaeth ynglŷn â dyfodol buddsoddi rhanbarthol y tu allan i'r UE ac a oedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail iddo. Roedd yn ymdrin â chyfres o gynigion ar gyfer buddsoddi cyllid gan Lywodraeth y DU yn lle arian yr UE, gyda buddsoddiadau yn cael eu targedu a'u rheoli'n ddaearyddol er mwyn datganoli cyllid a phrosesau gwneud penderfyniadau yn nes at y bobl a ddylai gael budd ohonynt ym mhob rhan o Gymru.

Roedd y cynigion yn cyd-fynd â chynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng rhanbarthau gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio'r Cydbwyllgorau Corfforedig arfaethedig sy'n cael eu datblygu drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n cael eu cynllunio ar y cyd gan dimau o Brif Swyddogion Rhanbarthol gyda rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth.

Roedd y cynigion yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod 20 mlynedd o bolisi rhanbarthol yr UE yng Nghymru, ac ar syniadau newydd a chynigion arloesol i gefnogi twf a chynwysoldeb gan Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru, a gaiff ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AS, a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad annibynnol ar yr adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad yn ystod yr hydref, yn ogystal ag adroddiad terfynol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd er mwyn inni ddysgu o arferion gorau rhyngwladol ym maes datblygu economaidd rhanbarthol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau cwantwm y cyllid eto na phryd a sut y caiff ei Chronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig, a fydd yn disodli cronfeydd yr UE, ei chyflwyno yn y DU. Yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'i rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith newydd i Gymru y gellir ei gyflwyno o 2021 ymlaen.

8 www.gov.wales/sites/default/files/2017-01/30683%20Securing%20Wales%C2%B9%20Future_WELSH_WEB.pdf
9 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit_0.pdf

# Ymateb i'r Llifogydd

Mae rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Daeth llifogydd dinistriol i Gymru yn sgil sawl storm a lefelau glaw na welwyd eu tebyg ym mis Chwefror 2020. Aeth dros 2,000 o gartrefi a 600 o fusnesau dan ddŵr ac effeithiwyd ar ardaloedd nad oedd wedi gweld llifogydd ers degawdau. Ymatebodd y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau eraill i'r her o dan amgylchiadau anodd iawn, gan weithio'n ddiflino i liniaru'r effeithiau.

Mewn llawer o leoedd, gwelwyd afonydd yn cyrraedd eu lefel uchaf erioed neu'n dod yn agos at wneud hynny. Ar hyd Afon Taf, roedd y lefelau 80cm yn uwch mewn mannau nag yn ystod llifogydd 1979. Fodd bynnag, diogelwyd dros 9,000 o gartrefi gan ei hamddiffynfeydd. Ledled Cymru, mae'r ffigur hwnnw'n codi i oddeutu 73,000 gyda llawer mwy yn cael budd o'r asedau a reolir gan Awdurdodau Lleol. Effeithiwyd ar y rhan fwyaf o Gymru, gyda difrod sylweddol i eiddo mewn cymunedau gan gynnwys Llanrwst, Llanfair Talhaearn, Tylorstown, Nantgarw, Pontypridd, Pentre, Llanhiledd, Crucywel ac Aberpennar.




**Canol Tref Pontypridd**
Nifer yr adeiladau yr effeithiwyd arnynt – 158




**Llanrwst**
Nifer yr adeiladau yr effeithiwyd arnynt – 60

Fodd bynnag, byddai lefel y llifogydd wedi bod yn llawer uwch oni bai am ein rhwydwaith o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Llwyddodd y rhain i atal neu leihau llifogydd pellach mewn llawer o ranbarthau. Ymatebodd y Gweinidogion ar unwaith, gan gydnabod yr anawsterau roedd cymunedau yn eu hwynebu, drwy ysgrifennu at gartrefi penodol yr effeithiwyd arnynt waethaf er mwyn rhoi cyngor a thynnu sylw at y cymorth a oedd ar gael.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog becyn cychwynnol o gymorth gwerth £10 miliwn ar gyfer cartrefi yr effeithiwyd arnynt. Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gyflym drwy ddarparu cyllid grant llawn er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol i gyflawni gwerth £3 miliwn o atgyweiriadau brys i seilwaith perygl llifogydd, amddiffynfeydd a chwlfertau. Lansiwyd cynllun cyllid cymorth brys i gynorthwyo dioddefwyr llifogydd yn y cymunedau, y busnesau a'r Awdurdodau Lleol hynny yr effeithiwyd arnynt, gan eu helpu i adfer ar ôl y difrod a'r anhwylustod a achoswyd gan y stormydd.



**Pentre**
Nifer yr adeiladau yr effeithiwyd arnynt – 167

# Ymateb i COVID-19

Ar lefel swyddogion, mae ymateb Llywodraeth Cymru i argyfwng y pandemig byd-eang yn parhau i gael ei gydgysylltu drwy gyfarfodydd wythnosol a gadeirir gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac y mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac arweinwyr cydgysylltu argyfwng yn bresennol ynddynt. Y cyfarfodydd hyn o 'ExCovid' yw'r brif system lywodraethu i sicrhau y caiff penderfyniadau'r Cabinet ynghylch sut i ymateb i'r argyfwng eu rhoi ar waith mewn ffordd gydgysylltiedig ym mhob rhan o'r llywodraeth a bod y gwaith o oruchwylio risgiau a phroblemau sy'n dod i'r amlwg yn cael ei reoli ar lefel strategol, fel y gellir tynhau cyfyngiadau a gweithredu'n gyflym.

I ddechrau, arweiniwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng COVID-19 gan swyddogion yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chymorth Tîm Cydnerthedd Llywodraeth Cymru Wrth i'r pandemig ddatblygu, rhoddwyd y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) – ar waith yn ffurfiol ar 20 Mawrth.

Y ganolfan yw ymateb cydnabyddedig Llywodraeth Cymru i Ddigwyddiadau Mawr neu Argyfyngau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae'n dilyn Egwyddorion Rhyngweithredu'r Cydwasanaethau Brys (JESIP) er mwyn cydleoli, cyfathrebu a chydgysylltu i ymateb ar y cyd gydag ymwybyddiaeth sefyllfaol gyffredin.

Yn ystod y pandemig COVID-19, mae'r ganolfan yn gweithio gyda Grwpiau Cydgysylltu Strategol; Fforymau Lleol Cymru Gydnerth; Llywodraeth Ganolog a thimau polisi Llywodraeth Cymru er mwyn casglu a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa sy'n datblygu o safbwynt strategol. Anfonwyd llythyr oddi wrth y Prif Weinidog i Grwpiau Cydgysylltu Strategol ar 19 Mawrth er mwyn gofyn iddynt ddechrau gweithredu, os nad oeddent wedi gwneud hynny eisoes.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n agos gyda phedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth[10]: sef Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru, sy'n datblygu amrywiaeth o alluoedd er mwyn gwneud ardaloedd lleol yn fwy cydnerth drwy gydweithrediad amlasiantaethol. Mae Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru o Dîm Cydnerthedd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn rheolaidd er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad ychwanegol, gan sicrhau y caiff yr holl agweddau ar yr ymateb brys eu cydgysylltu. Mae'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol yn ymateb yn strategol i'r sefyllfa ac mae eu haelodau yn cynnwys uwch-bersonél ymatebwyr allweddol, gan gynnwys Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyswllt di-dor rhwng y partneriaid a Llywodraeth Cymru.

Sicrhaodd Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru lif ddwyffordd effeithiol o wybodaeth rhwng y Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Llywodraeth Cymru, gan gynnig ffordd o uwchgyfeirio risgiau a phroblemau lleol, a arweiniodd at ddatblygu rhagor o ganllawiau a pholisïau lle y bo angen. Ochr yn ochr â hynny, mae swyddogion wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion allweddol yn ymwneud â pholisi a meysydd gwasanaeth.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Ymgysylltu'n ddyddiol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn perthynas â chymorth i bobl sy'n gwarchod a grwpiau ehangach sy'n agored i niwed.

10 Mae Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn bartneriaethau amlasiantaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Eu nod yw cynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau lleol ac argyfyngau trychinebus.

- Cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Cydraddoldeb Hiliol, y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Fforwm Cydraddoldeb y TUC, a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector er mwyn galluogi gwaith cydweithredol a llywio (polisïau ac arferion ledled Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.
- Trefniadau sy'n cynnwys sefydliadau'r GIG yn sgyrsiau Llywodraeth Cymru ynghylch cynllunio ac ymateb gan sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un nod.
- Telegynadleddau wythnosol gyda'r 22 o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.
- Cyfarfod misol â Phrif Weithredwyr Grŵp Paratoi ar gyfer Ymadael â'r UE yr Awdurdodau Lleol.
- Galwad ffôn ddyddiol gydag Awdurdodau Lleol ynghylch materion ariannol.

Roedd yr ymateb brys i'r argyfwng COVID-19 yn gofyn am adnoddau ychwanegol er mwyn cynnal y lefel ddigynsail o waith datblygu polisi a chydgysylltu â Llywodraeth y DU. Ar 12 Mawrth, ffurfiwyd tîm prosiect COVID-19 a oedd yn cynnwys swyddogion â sgiliau allweddol o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Cylch gwaith y tîm oedd cefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig o ran ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19 yng Nghymru. Sicrhaodd y tîm fod cysylltiadau Gweinidogol â Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, gan gefnogi Grŵp Gweithredu'r Gweinidogion a arweinir gan Lywodraeth y DU, a chyfarfodydd COBR, a bu'n gweithio i sicrhau cydgysylltiadau â phenderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru.

Yn fwy cyffredinol, mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19, mabwysiadodd y sefydliad strategaeth i darparu adnoddau dros dro i ddelio â'r argyfwng er mwyn sicrhau bod y gallu a'r adnoddau yr oedd eu hangen yn cael eu hailgyfeirio ar unwaith at yr ymateb i'r argyfwng. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn adolygu'r blaenoriaethau o ran darparu adnoddau i ddelio â'r argyfwng ac yn cytuno arnynt ar y cyd bob wythnos. Roedd mwy nag 80% o staff Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, ac roedd cyfran sylweddol o'r staff naill ai wedi cael eu symud i rôl newydd a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 neu roedd eu rôl bresennol wedi newid yn sylweddol mewn ymateb i'r argyfwng.

Lle roedd angen gallu ac adnoddau ychwanegol, buom yn gweithio gyda chydweithwyr o gyrff hyd braich, adrannau eraill o'r llywodraeth neu asiantaethau yng Nghymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru er mwyn nodi'r gallu roedd ei angen a sicrhau cytundebau dros dro er mwyn dod â phobl i mewn yn gyflym i gefnogi gwaith hanfodol.

Ar ddechrau mis Mawrth, anogwyd pob aelod o'r staff i gasglu eu gliniaduron ac unrhyw eitemau hanfodol er mwyn bod yn barod i weithio gartref erbyn i'r penderfyniad i gyflwyno cyfyngiadau symud gael ei wneud. Roedd hyn yn rhan hanfodol o'n gwaith paratoi er mwyn sicrhau parhad busnes a lleihau nifer y bobl a fyddai'n teithio'n ôl ac ymlaen i'n swyddfeydd. Dros nos bron, gwnaethom newid o fod yn sefydliad lle roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gweithio mewn swyddfeydd i un lle roedd tua 95% o'n staff yn gweithio o bell. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn TGCh gan y sefydliad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ei gwneud yn bosibl i'r newid enfawr hwn yn y diwylliant sefydliadol ac mewn arferion gwaith ddigwydd yn ddidrafferth er gwaethaf yr heriau.

Rydym wedi rhoi amrywiaeth eang iawn o gyngor, canllawiau a chymorth i bob aelod o'n staff drwy gydol yr argyfwng, gan gynnwys gwybodaeth hanfodol a diweddariadau ar sefyllfa COVID-19 yng Nghymru, cyngor a chymorth mewn perthynas â llesiant a phecyn cynhwysfawr o awgrymiadau a hyfforddiant ar-lein ar weithio'n ddigidol a gweithio o bell. Mae defnydd helaeth iawn wedi'i wneud o'n sianeli cyfathrebu mewnol digidol, gyda chanrannau uchel iawn o'n staff yn eu defnyddio i dderbyn negeseuon wedi'u ffilmio a negeseuon ysgrifenedig yn rheolaidd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r uwch-dîm. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cynnal

sesiynau dal i fyny rhithwir bob pythefnos gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil ac yn ystod ein sesiwn holi ac ateb gyntaf gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol bu modd i tua 1400 o aelodau o'r staff ofyn cwestiynau a chodi materion. Mae mwy na 2000 o gydweithwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau byw dilynol. Rydym hefyd wedi llunio pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ynglŷn â'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael gan yr Adran Adnoddau Dynol, wedi darparu hyfforddiant a gwasanaeth mentora ac wedi sefydlu rhwydweithiau rhithwir anffurfiol a Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sydd ar gael i'n staff.

## Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Helpodd y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gweithgarwch cydgysylltu a chyfathrebu canolog mewn perthynas â COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys ailflaenoriaethu staff ac adnoddau er mwyn rhoi'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (a'i his-strwythurau) ar waith a'u cynnal.

Ar lefel polisi, ymatebodd y Grŵp yn gynnar i'r epidemig, gan gydgysylltu'n rheolaidd â'i grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector tai, gwasanaethau brys, undebau addysg a'r Trydydd Sector, er mwyn creu strwythurau gwaith, datblygu mesurau lliniaru a chamau adfer a nodi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, er mwyn rhoi arweiniad a chymorth priodol wedi'u targedu lle y bo angen hynny.

Aildrefnodd y Grŵp ei staff yn gynnar yn ystod y pandemig i weithio ar faterion brys a oedd yn flaenoriaeth i Weinidogion a chafodd amrywiaeth o arferion gwaith eu hatal dros dro neu eu haddasu fel y gellid canolbwyntio ar yr ymateb i'r argyfwng COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys ailbennu staff ac ailneilltuo adnoddau i gefnogi celloedd polisi Covid, gan gynnwys ffocws ar gymorth perthnasol i ddinasyddion unigol, er enghraifft ynglŷn â chyngor ar dai a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer cam-drin domestig a rhoi canllawiau wedi'u diweddaru'n rheolaidd i ddarparwyr gwasanaethau brys a chyhoeddus.

Cafodd elfennau o fusnes arferol eu cwtogi neu eu hatal dros dro er mwyn cefnogi'r ymateb. Er enghraifft, am fod rhaglen Arolygiaeth Gofal Cymru o arolygiadau rheolaidd wedi'i hatal dros dro, cafodd arolygwyr eu symud i rôl wahanol i gynnal cyfarfodydd cysylltu rheolaidd â darparwyr ac ymateb i bryderon. Addaswyd system hysbysiadau ar-lein Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC Ar-lein) er mwyn i ddarparwyr allu hysbysu Llywodraeth Cymru a oedd marwolaethau yn achosion o COVID-19 a amheuid neu a gadarnhawyd.

Defnyddiodd y Gyfarwyddiaeth Dai staff ychwanegol i atgyfnerthu'r ymateb mewn perthynas â digartrefedd, a oedd yn cynnwys sefydlu tîm rhithwir newydd i weithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol gan eu helpu i sicrhau asedau llety brys byrdymor. Defnyddiwyd TGCh a thechnoleg ddigidol i gasglu gwybodaeth reoli newydd a rhoi arweiniad a mynediad at wasanaethau.

Ym maes Addysg, ar ôl i ysgolion a sefydliadau dysgu eraill gau eu hadeiladau ym mis Mawrth 2019, lansiwyd ymgyrch newydd, sef 'Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu', er mwyn helpu i sicrhau parhad dysgu cyn-16 ac ôl-16. Rhoddwyd £3m i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, drwy ddarparu dyfeisiau a oedd eisoes ym meddiant ysgolion a chysylltedd MiFi 4G yn ôl yr angen. Roedd Hwb, sef llwyfan dysgu ar-lein presennol y sector Addysg, hefyd yn adnodd hollbwysig er mwyn helpu i gynyddu dysgu o bell.

Bu staff yn ymgysylltu'n amlach â Cymwysterau Cymru, gweinyddiaethau eraill y DU a rheoleiddwyr arholiadau a byrddau arholi yn y DU i drafod y goblygiadau i gyfres arholiadau'r haf a gwneud trefniadau amgen a buont yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu system Hwb a'i rhoi ar waith a helpu i sicrhau y parheir i ddarparu cymorth i ddysgwyr, gan gynnwys prydau ysgol am ddim.

## Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Mae Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol wedi cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng COVID-19 drwy ganolbwyntio ar ddiogelu bywydau, cymunedau a busnesau. Mae ymateb cychwynnol y Grŵp wedi canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi pob sector o'r economi a'n system drafnidiaeth gyhoeddus.

Roedd ymateb polisi'r Grŵp yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid; asesu'r dystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg megis y gostyngiad o fwy na 90% yn y defnydd o drenau a bysiau'r system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru; amcangyfrifon gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd CDG gwirioneddol y DU yn gostwng 35% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin a 12.8% yn 2020 a data'r SYG gan gynnwys y cynnydd o 113,000 yn nifer yr hawlwyr Credyd Cynhwysol newydd a ddatganwyd yng Nghymru rhwng 17 Mawrth a 12 Mai (er na fydd pob un o'r rhain yn cael taliad).

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar weithgareddau Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, gyda llawer o ymweliadau gweithredol allanol â safleoedd busnes a gweithgareddau yn ymwneud â rheoli ystad Cadw, er enghraifft, naill ai'n cael eu hatal neu eu cau er mwyn helpu i reoli'r argyfwng a bodloni gofynion y cyfyngiadau symud. Mae hyn wedi galluogi'r Grŵp i adleoli mwy na 500 o aelodau o staff i gefnogi'r ymateb i'r pandemig COVID-19, ymgymryd â gweithgareddau cydgysylltu COVID-19 cofforaethol Llywodraeth Cymru neu gefnogi'r sector cyhoeddus ehangach megis y gwasanaeth iechyd yn ystod y cyfnod hwn.

Cytunodd Gweinidogion Cymru i roi £1.7 biliwn i gefnogi busnesau yng Nghymru ac economi Cymru yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Roedd maint y cymorth yr oedd ei angen yn gofyn am gryn dipyn o ailbennu adnoddau o fewn y Grŵp fel y gellid cyflawni'r ymyriadau hyn yn gyflym er mwyn darparu cyllid i helpu busnesau i oroesi ar ôl gweld gostyngiad sydyn a sylweddol yn eu trosiant.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru fanylion cynllun rhyddhad ardrethi busnes gwerth £1.2 biliwn yng Nghymru. Mae'r cynllun rhyddhad ardrethi yn cael ei redeg gan awdurdodau lleol a bu swyddogion o Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol er mwyn casglu ffigurau i gyfrifo faint o ryddhad y dylid ei ddarparu ym mhob awdurdod a sut y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno er mwyn lleihau'r risg o dwyll a gwallau a sicrhau y gellid ei roi ar waith. Mae hon wedi bod yn bartneriaeth wych.

Lansiwyd y Gronfa Cadernid Economaidd gwerth £500 miliwn a'i nod yw cefnogi cyflogwyr a diogelu'r rhai a gyflogir. Llwyddodd Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i'w chyflwyno'n gyflym drwy adleoli mwy na 200 o aelodau o staff a rhoi hyfforddiant iddynt ar systemau a phrosesau newydd a ddatblygwyd i reoli'r nifer mawr o geisiadau a ddaeth i law mewn amser byr iawn. Mae hyn wedi helpu degau o filoedd o fusnesau ac wedi diogelu swyddi. Fodd bynnag, mae risg yn gysylltiedig â'r mesurau hyn ac mae'r amgylchedd llywodraethu mewnol wedi'i adolygu er mwyn diogelu'r defnydd o gyllid cyhoeddus yn y cyfnod eithriadol hwn.

Mae swyddogion y Grŵp hefyd wedi cael eu hailflaenoriaethu i gyflwyno cynlluniau ar barseli bwyd ar gyfer y rhai sy'n gwarchod a chynlluniau sector-benodol megis cymorth i bysgodfeydd nad ydynt yn cael eu darparu drwy ymatebion ehangach neu fwy cyffredinol a chefnogi'r sector bysiau a'r sector rheilffyrdd o ystyried y lleihad sylweddol yn y galw am drafnidiaeth gyhoeddus gan sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu'r angen i gynnal gwasanaethau fel y gall gweithwyr hanfodol neu'r rhai nad oes ganddynt eu cerbyd eu hunain symud o amgylch Cymru at ddibenion hanfodol.

Mae'r bartneriaeth agos â'n Cyrff Hyd Braich wedi sicrhau bod ymyriadau i liniaru effeithiau'r argyfwng yn cael yr effaith fwyaf posibl. Bu swyddogion y Grŵp yn gweithio'n agos gyda Banc Datblygu Cymru, er enghraifft, er mwyn rhoi mwy o gymorth ariannol i fusnesau a chyda CCAUC i nodi pa gymorth y gallai fod ei angen ar y sector addysg uwch yng Nghymru.

## Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gan Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb cyffredinol am fynd i'r afael ag argyfwng iechyd y cyhoedd, a defnyddiodd y systemau hyn wrth i fygythiad COVID-19 ddod i'r amlwg. Pennwyd amcanion clir a oedd yn canolbwyntio ar achub bywydau drwy gynllunio a sicrhau bod gan y GIG yr adnoddau a'r gwasanaethau i ymateb i'r pandemig COVID-19, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol ochr yn ochr â'r ymateb i COVID-19, gan ddiogelu ein cymunedau; diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a hyrwyddo iechyd a llesiant ein gweithlu iechyd a gofal.

Yn unol â'r amcanion hyn, cynhaliodd y Grŵp drafodaethau cynnar â Gweinidogion ynghylch ailflaenoriaethu staff ac adnoddau er mwyn canolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig COVID-19.

- Cell Cyngor Technegol i roi cyngor mewnol gan gynnwys darparu data modelu ac asesiadau risg at ddibenion cynllunio ac ymateb.
- Grŵp Cynllunio ac Ymateb i ymgysylltu'n allanol â sefydliadau'r GIG ac adrannau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Cafodd Uwch-gynllunwyr Milwrol eu cynnwys yn y gell hon a oedd yn ffurfio rhan allweddol o systemau atebolrwydd, yn goruchwylio camau gweithredu ac yn cefnogi gweithgarwch rheoli risg.
- Sefydlodd y Grŵp Cynllunio ac Ymateb nifer o is-grwpiau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol a'u cyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys Technoleg Ddigidol; Dosbarthu a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol; Profi; Gofal Sylfaenol a Chymunedol; Gofal Eilaidd Acíwt; Gofal Cymdeithasol; y Gweithlu; Gwasanaethau Hanfodol a Gwrthfesurau ac ati. Ymatebodd y Grwpiau hyn i heriau sylweddol gan gynnwys cynyddu nifer y gwelyau gofal critigol gweithredol yn gyflym, adleoli'r gweithlu a rhoi atebion digidol ar waith yn gyflym er mwyn galluogi gweithio o bell ac ymgynghori â chleifion.
- Sefydlwyd Desg Gymorth Iechyd benodol hefyd fel rhan o ymateb ehangach y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru).

Er mwyn helpu Andrew Goodall i gyflawni ei rôl ddeuol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, sefydlwyd rôl dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol er mwyn cefnogi'r ymateb trawslywodraethol a chysoni'r ymateb rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol a darparwyd cymorth ychwanegol gan un o Brif Weithredwyr y GIG er mwyn sicrhau gwell ymgysylltu uniongyrchol â Phrif Weithredwyr y GIG.

Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi rhoi arweiniad allweddol mewn perthynas ag iechyd a materion clinigol a chyngor i Weinidogion a swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru gan weithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi cael cymorth gan drefn reoli 'Arian' sy'n cynnwys uwch-weision sifil a chlinigwyr ac yn canolbwyntio ar ymateb Diogelu Iechyd.

# Datgarboneiddio

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd dros y flwyddyn diwethaf. Ar 29 Ebrill 2019, y Cynulliad Cenedlaethol oedd y Senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd. Gwnaeth y datganiad gan gredu y byddai'n sbarduno gweithredu gartref, gan ein cymunedau, ein busnesau a'n sefydliadau ein hunain, yn ogystal â seneddau a llywodraethau ledled y byd. Yn dilyn y datganiad, rydym wedi derbyn cyngor Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) y dylid cynyddu ein targed ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2050 i 95%, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'n llwybr allyriadau dros y 30 mlynedd nesaf a'n cynlluniau i gyflawni ein cyllidebau carbon newid er mwyn adlewyrchu'r uchelgais uwch.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, bydd hefyd angen inni wella ein gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddwyd ein cynllun addasu i newid yn yr hinsawdd, sef Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd. Ers ei gyhoeddi, rydym wedi bod yn cymryd rhai o'r camau gweithredu allweddol a ddisgrifir yn y cynllun. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Cynllun Addasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol ac, yn fwy diweddar, rydym bellach wedi cyhoeddi'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso ar gyfer y cynllun addasu. Mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn nodi fframwaith llywodraethu ar gyfer polisi addasu yng Nghymru a set lawn o ddangosyddion i gofnodi cynnydd yn erbyn ein camau gweithredu allweddol.

Mae datgarboneiddio yn un o feysydd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n cwmpasu sawl amcan llesiant ac yn gofyn am ddull gweithredu ar draws y llywodraeth gyfan. Gan gydnabod hynny, rydym bellach yn cynnal trafodaeth yn y Cabinet ym mhob un o dymhorau'r Cynulliad sy'n canolbwyntio ar y newid yn yr hinsawdd. Yn hytrach na chael Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol, mae'r trafodaethau hyn yn cynnwys pob Gweinidog er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn rhan o'r drafodaeth.

Mae'r her sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yn rhaid i bawb chwarae eu rhan. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi y dylai'r Cynllun Cyflawni nesaf fod yn gynllun i Gymru Gyfan. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, gwnaethom addo cynnal Cynhadledd flynyddol ar Newid yn yr Hinsawdd, a fyddai'n dod ag arweinwyr busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghyd, yn barod i chwarae eu rhan a symud i daith carbon isel.

Ar 16 Hydref 2019, cynhaliwyd y gyntaf o'r cynadleddau hyn, a ddaeth ag oddeutu 300 o bobl o bob sector ledled Cymru at ei gilydd. Fel rhan o'r gynhadledd, dechreuodd sefydliadau addo cymryd camau gyda ni i ymuno â'r ymateb cyfunol i argyfwng yr hinsawdd. Mae sawl sefydliad busnes eisoes wedi addo cymryd camau, a fydd yn helpu i ddechrau llywio'r Cynllun newydd i Gymru Gyfan. Cynhaliwyd cynadleddau yn y Gogledd a'r De hefyd a daepthpwyd â mwy na 150 o bobl ifanc at ei gilydd er mwyn ysgogi ffyrdd newydd o feddwl a chynnig llwyfan iddynt ymateb i argyfwng yr hinsawdd, gan ofyn idddynt roi eu barn a, lle bo modd, addo cymryd camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Eleni, mae ein data diweddaraf ar gyfer 2018 yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein targed ar gyfer 2020. Mae data a gyhoeddwyd ym mis Mehefin yn dangos ein bod wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 31% o gymharu ag allyriadau'r flwyddyn sylfaen a gostyngiad o 8.3% o gymharu â 2017. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hyn i allyriadau is gan y sector Cyflenwi Ynni a ostyngodd 19.2% rhwng 2017 a 2018.

# Cyflawni ein hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a chyda'i gilydd, canolbwyntio ar atal problemau cyn iddynt godi a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae saith nod llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) y Ddeddf yn rhoi fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cabinet wedi nodi ei gyfraniad i'r saith nod llesiant drwy 'Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol' (tudalen 2). Mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraeth ar yr amcanion hyn yn esbonio sut y mae wedi cyflawni ei gwaith yn erbyn yr amcanion llesiant o dan dair thema'r Prif Weinidog, sef 'mwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd'.

## Arweinyddiaeth

Mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Ddeddf gael ei phasio, a phedair blynedd ers i'r ddyletswydd llesiant benodol ar Weinidogion Cymru ddod i rym. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r ffyrdd o weithio a'r ymrwymiad i lesiant wedi effeithio ar bob agwedd ar fodel gweithredu ein sefydliad, o'n fframweithiau llunio polisi a'n rhaglen galluogrwydd i'n disgwyliadau o ran arweinyddiaeth a'n systemau perfformiad.

Ar ddiwedd 2019, fe wnaethom ystyried sut roeddem yn cydgysylltu'r gwelliant parhaus hwn a sut roedd yn cael ei ymgorffori yn amrywiol swyddogaethau'r gwasanaeth sifil. Trafododd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd y dull presennol o weithredu'r Ddeddf fis Chwefror/mis Mawrth eleni a chytunwyd ar fframwaith strategol wedi'i ddiweddaru a oedd yn adlewyrchu ehangder a chwmpas y Ddeddf o fewn y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle hwn i wahaniaethu'n well rhwng ymateb Gweinidogion Cymru ac ymateb y gwasanaeth sifil.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y meysydd gweithredu allweddol, neu lle mae camau wedi'u cymryd er mwyn gwella prosesau llunio polisi a'r system lywodraethu yn barhaus.

# Y swyddogaethau allweddol ar gyfer ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy


### Sicrhau bod y Llywodraeth yn cyfrannu gymaint â phosibl at y nodau llesiant drwy bennu a chyflawni amcanion llesiant

- Deall cyfraniad y Llywodraeth at y nodau
- Y Rhaglen Lywodraethu (amcanion llesiant)
- Cyflawni
- Adolygu'r amcanion yn flynyddol
- Cyfathrebu (Adroddiad Blynyddol)
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy

### Gwella'r gefnogaeth a'r cyngor i Weinidogion Cymru drwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio

Meysydd Sicrwydd Llywodraeth Cymru

1. Cynllunio ac Adolygu Corfforaethol
2. Cyflawni Gweithredol (gan gynnwys grant/caffael)
3. Rheoli Arian ac Asedau
4. Pobl a Diwylliant
5. Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch
6. Risg a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol
7. Llunio Polisïau Integredig




### Galluogi eraill, eu harwain a dylanwadu arnynt i gyfrannu at y nodau llesiant

- Ein perthynas â phartneriaid cyflawni / cyrff a noddir
- Dylanwadu ar eraill
- Y Trydydd Sector
- Busnesau
- Y sector cyhoeddus
- Canllawiau Statudol
- Ymgyrch y Gymru a Garem
- Hyrwyddo'n rhyngwladol

### Galluogi penderfyniadau a pholisïau mwy cynaliadwy drwy ddealltwriaeth well o Gymru heddiw ac o'i dyfodol

- Olrhain cynnydd cenedlaethol yn erbyn y nodau (46 o ddangosyddion cenedlaethol)
- Penderfynu ar faint y newid (Cerrig Milltir Cenedlaethol)
- Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (bob tymor)
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

## Y pum ffordd o weithio ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth sifil

Gwyddom o'n Harolwg Pobl diweddaraf fod y ffyrdd o weithio ar sail llesiant bellach wedi'u sefydlu'n gadarn ym mhob rhan o'r sefydliad fel fframwaith ymarferol ar gyfer cefnogi Gweinidogion ym mhob agwedd ar brosesau llunio polisi a chyflawni. Mae hyn yn cael effaith amlwg ar fusnes ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac ar y ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys ein dull o reoli argyfwng yn ystod y pandemig byd-eang.

Am y tro cyntaf, datblygwyd Cynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2020-21. Nododd y cynllun hwn ein huchelgeisiau byrdymor a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf i wella ein prosesau cyllidebol a'n prosesau trethi blynyddol.

Gwnaethom gydweithio ag eraill i gynllunio a chynnal cynhadledd yn ddiweddar ar newid yn yr hinsawdd a ddaeth â 300 o bobl, gan gynnwys arweinwyr busnes, cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a phobl ifanc ynghyd yn barod i chwarae eu rhan a dechrau defnyddi dulliau teithio carbon isel. Cydweithiwyd â rhanddeiliaid i gyd-ddatblygu'r systemau cyflawni ar gyfer Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ar raddfa ac yn gyflym ac rydym hefyd wedi datblygu pecyn cymorth Paratoi at y Dyfodol ar-lein, er mwyn helpu busnesau i feddwl am y tymor hwy.

## Galluogrwydd Polisi

Eleni, datblygwyd Fframwaith Galluogrwydd Polisi newydd sy'n seiliedig ar y pum ffordd o weithio. Bwriedir i'r fframwaith a'r rhaglen galluogrwydd polisi gysylltiedig ein helpu i barhau i feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau proffesiynol a fydd yn galluogi'r gwasanaeth sifil i roi cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion yn awr ac yn y dyfodol. Byddwn yn ehangu ac yn atgyfnerthu ein rhaglen galluogrwydd a'n cynnig dysgu yn y flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn cynnwys creu 'llwybrau polisi' gyda'r pum ffordd o weithio wrth wraidd y rhaglen ar gyfer cydweithwyr ar ddechrau eu gyrfa.

## Ymateb i Adroddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol

Mae cyhoeddi dau adroddiad bob pum mlynedd, y naill gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r llall gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhan o gylch y Ddeddf. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth am sut y gall cyrff wella'r ffordd y maent yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Gosodwyd y ddau adroddiad hyn gerbron y Senedd ar 5 Mai 2020.

Mae adroddiad y Comisiynwyr yn gwneud nifer o argymhellion ynghylch prosesau sy'n ymwneud â'r system lywodraethu a fydd yn berthnasol i'r ffordd y mae'r gwasanaeth sifil yn gweithio yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r adroddiad hwn a byddwn yn datblygu ein hymateb yn y misoedd nesaf, o gofio ehangder yr argymhellion ar draws cryn nifer o swyddogaethau'r Llywodraeth.

Buom hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn trafod sut y gallem eu cynnwys yn fwy effeithiol yn y broses o weithredu'r Ddeddf o fewn y Llywodraeth.

## Meithrin enw da a rhwydweithiau rhyngwladol

Mewn ymateb i'r diddordeb rhyngwladol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar waith, rydym wedi rhannu ein profiad â swyddogion o wledydd a rhanbarthau eraill ac wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ei fframwaith strategol. Ym mis Ebrill, ymunodd Llywodraeth Cymru â rhwydwaith Llywodraethau Economi Llesiant (WEGo) ochr yn ochr â'r Alban, Seland Newydd a Gwlad yr Iâ.

Gwnaethom hefyd gydgysylltu cyfraniad Cymru i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol cyntaf y DU o'r Nodau Datblygu cynaliadwy www.gov.uk/government/topical-events/uk-voluntary-national-review-of-progress-towards-the-sustainable-development-goals a gyflwynwyd i'r Cenhedloedd Unedig, a pharatowyd adroddiad atodol, sef 'Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy' www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-atodol-i-adolygiad-y-du-o-gynnydd-tuag-at-y-nodau-datblygu-cynaliadwy-2030_1.pdf gyda chymorth grŵp bach o randdeiliaid.

## Diogelu ein Hamgylchedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu ystad weinyddol fwy cynaliadwy ac wedi parhau i wella ein perfformiad amgylcheddol yn ystod 2019-20. Ceir manylion llawn am effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yn ein Hadroddiad blynyddol ar Gyflwr yr Ystad www.llyw.cymru/adroddiad-cyflwr-yr-ystad-2018-i-2019 ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Yr Agenda Ddigidol

Yn 2019-20, cwblhawyd Rhaglen TGCh y Dyfodol Llywodraeth Cymru, ar ôl iddi sicrhau arbedion cost a gwelliannau sylweddol yn y seilwaith TGCh. Roedd y rhain yn cynnwys symud gwasanaethau i'r cwmwl, darparu adnoddau technegol yn fewnol a diweddaru'r cyfarpar a'r offer TGCh sydd ar gael i bob aelod o staff.

Drwy roi dyfeisiau i staff i hwyluso gweithio o bell a gweithio'n glyfar, rydym wedi llwyddo i drawsnewid ein diwylliant, gan ein galluogi i gydweithio'n well â rhanddeiliaid a gweithio fel timau o leoliadau gwahanol ledled Cymru. Mae'r newidiadau wedi gwella cadernid y sefydliad yn sylweddol, gan sicrhau parhad busnes yn ystod y llifogydd ym mis Chwefror a chyfyngiadau symud COVID-19 a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020.

Arweiniodd yr ymateb i'r pandemig COVID-19 yn benodol at gynnydd cyflym yn y defnydd o adnoddau digidol. Er enghraifft, cynyddodd nifer y sesiynau cyfranogi staff mewn cyfarfodydd ar-lein o 5,000 y mis i 5,000 y dydd. Er mwyn cefnogi'r ffordd hon o weithio, bu datblygiadau cyflym o ran gweithrediad TG, cynyddwyd capasiti systemau a lluniwyd canllawiau technegol cryno newydd i ddefnyddwyr. Roedd y gwaith yn cynnwys helpu i roi'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) ar waith a datblygu canllawiau sy'n ymdrin â phob agwedd ar weithio o bell a gweithio gartref.

Rydym wedi parhau i safoni dulliau gweithredu a llwyfannau ar gyfer gwasanaethau digidol newydd drwy wneud rheolaethau gwariant yn ofynnol, canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr a rhoi safonau dylunio a safonau TGCh ar waith. Mae llwyfannau newydd i gefnogi polisïau data a thryloywder agored wedi'u darparu ac mae cwmpas y rhain yn cael ei ehangu.

Rydym wedi parhau i ddatblygu galluogrwydd digidol a chyfleoedd i arbenigwyr gamu ymlaen yn eu gyrfa, er y bydd creu proffesiwn digidol aeddfed yn cymryd amser. Mae'r Prentisiaethau Digidol, Data a Thechnoleg wedi bod yn boblogaidd iawn, sy'n dangos mai hon fydd y ffordd orau, o bosibl, o feithrin galluogrwydd ym maes digidol, data a thechnoleg. Mae llawer o swyddi gwag i uwch-swyddogion wedi'u llenwi drwy fynd ati i recriwtio'n uniongyrchol er bod y farchnad yn dal i fod yn gystadleuol iawn.

Yn ystod 2019-20, gwnaed cryn dipyn o waith i sicrhau bod arweiniad yn cael ei roi mewn perthynas ag adnoddau a galluogrwydd digidol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Dechreuodd Uned Gwyddor Data Llywodraeth Cymru weithio ar ddiwedd Mawrth 2020, gydag adnoddau a rhaglen a fydd yn cynyddu dros y flwyddyn nesaf. Cwblhawyd fersiwn brototeip o Fap Data Cymru – sef un llwyfan data geo-ofodol ar gyfer holl ddata'r sector cyhoeddus yng Nghymru – ar ddiwedd mis Chwefror 2020, ac fe'i defnyddiwyd i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig COVID-19. Bwriedir cyhoeddi fersiwn Beta yn ystod haf 2020.

Rydym hefyd wedi rhoi arweiniad strategol wrth baratoi'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ar gyfer yr heriau posibl o ran y llif o ddata o fewn systemau digidol a allai godi yn sgil ymadael â'r UE. Roedd y gwaith yn cynnwys asesu a lliniaru risgiau yn fewnol a rhoi canllawiau a gwybodaeth i'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn iddo allu tynnu sylw at unrhyw broblemau neu effeithiau penodol i Gymru wrth gynllunio a chydgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU.

Ym maes iechyd, mae cryn gynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau trawsnewid digidol yn y GIG yng Nghymru. Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai swydd Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei chreu er mwyn sicrhau atebolrwydd cliriach a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a datblygu map ffordd ar gyfer trawsnewid y GIG ymhellach.

Ar ddechrau'r pandemig COVID-19, sefydlwyd cell iechyd digidol er mwyn cydgysylltu a llywodraethu gweithgarwch digidol ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno cyfleusterau fideogynadledda ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd a galluogi staff y GIG i weithio o bell drwy ddarparu cysylltedd a dyfeisiau. At hynny, roedd gwasanaeth rhwydwaith band eang Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus yn allweddol i helpu i sicrhau cysylltedd ar gyfer ysbytai maes COVID-19 ar ddechrau'r pandemig.

Yn 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y byddai swydd Prif Swyddog Digidol yn cael ei chreu ar gyfer Llywodraeth Leol er mwyn hyrwyddo a chydgysylltu gweithgarwch trawsnewid digidol ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y Prif Swyddog Digidol yn helpu i feithrin gallu a galluogrwydd er mwyn datblygu technoleg arloesol a dulliau o ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cael eu llywio gan ddata.

Mae Cronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol wedi parhau i weithredu, gan fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol drwy ddarparu cyllid er mwyn iddynt ddod o hyd i atebion i broblemau cyffredin ar y cyd. Sefydlwyd cell ddigidol llywodraeth leol er mwyn cefnogi llywodraeth leol yn ystod y pandemig COVID-19. Fe wnaeth hyn hwyluso'r broses o rannu arbenigedd ynghylch gweithio o bell i staff, cysylltedd a seilwaith i wasanaethau lleol, cefnogi dinasyddion a oedd yn destun mesurau gwarchod a darparu cyllid i fusnesau lleol fel rhan o'r Gronfa Cadernid Economaidd.

Ym maes addysg, parhaodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno llwyfan sefydledig a llwyddiannus Hwb, sy'n darparu cynnwys a gwasanaethau addysg i ddysgwyr yng Nghymru, i bron bob ysgol a gynhelir. Drwy fuddsoddi yn Hwb ac mewn band eang, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu llwyfan cenedlaethol a all wir drawsnewid addysg yng Nghymru. Dangoswyd ei werth yn ystod y pandemig COVID-19 pan chwaraeodd Hwb rôl hollbwysig drwy helpu i ddarparu dysgu o bell. At hynny, mae cyllid ar gyfer technoleg addysg wedi galluogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gael mwy na 10,000 o ddyfeisiau rhyngrwyd symudol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at Hwb yn eu cartrefi.

Er mwyn helpu gweithgarwch cydgysylltu a thrawsnewid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Bydd y Ganolfan yn nodi, yn ysgogi ac yn cefnogi cydweithredu o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gan drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr. Yn ogystal â chanolbwyntio ar arweinyddiaeth, bydd yn datblygu ac yn gorfodi safonau cyffredin, yn rhannu arferion gorau ac yn hyrwyddo cydweithredu rhwng sectorau. Bydd y Ganolfan hefyd yn chwarae rôl allweddol ym maes trawsnewid digidol ar ôl yr argyfwng COVID-19 drwy hwyluso'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell a mwy effeithlon.

Mae ecosystem arweinyddiaeth ddigidol yn cael ei sefydlu drwy benodi'r Prif Swyddogion Digidol o fewn llywodraeth leol ac yn y sector iechyd a gyda Phrif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru. Mae grŵp y Prif Swyddogion Digidol, gan weithio ochr yn ochr â'r Ganolfan, yn cynnig cyfle unigryw i lywio gweithgarwch trawsnewid digidol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yr yn yr 21ain ganrif.

# Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch

Mae creu gweithle cynhwysol, lle mae pawb yn teimlo y gallant roi o'u gorau a'u bod yn cael cymorth i wneud hynny, waeth beth fo'u cefndir, wrth wraidd rhaglen Paratoi at y Dyfodol yr Ysgrifennydd Parhaol a'r disgwyliadau o ran arweinyddiaeth yr ydym wedi'u pennu ar gyfer y sefydliad cyfan. Mae'r ymchwil newydd i effeithiau gwahaniaethol y pandemig byd-eang ar ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig a'r ffocws a grëwyd gan yr ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys wedi tanlinellu pwysigrwydd cynhwysiant a chydraddoldeb.

Rydym wedi datgan yn glir nad oes lle i hiliaeth o fewn Llywodraeth Cymru ac na fyddwn yn goddef unrhyw fath o ymddygiad hiliol. Mae hyn yn rhan o'n cred gyffredin yng ngwerth amrywiaeth a chynhwysiant a'n hymrwymiad i drin pawb ag urddas a pharch. Mae gennym bedwar rhwydwaith staff gweithgar iawn o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig ac rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gyda nhw i wella bywyd gwaith a chanlyniadau pob aelod o'n staff.

2019-2020 oedd blwyddyn olaf y Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016-2020 a dechreuwyd ar y gwaith paratoadol ar gyfer ein Cynllun Gweithredu newydd ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, 2020-2025. Mae'r gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan ein Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, a gadeirir gan Hyrwyddwr Cydraddoldeb ein Bwrdd, ac mae'n cynnwys cyd-gadeiryddion ein pedwar rhwydwaith.

Eleni gwnaethom y canlynol:

- Datblygu ymgyrch Dewch i Drafod Parch yr Ysgrifennydd Parhaol er mwyn ymgorffori'r ymddygiadau cadarnhaol rydym yn disgwyl eu gweld gan bob aelod o'n staff, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn lle i weithio lle mae pobl yn teimlo y gallant gyflawni eu llawn botensial, mynegi eu hunain a herio ymddygiad annymunol pan fyddant yn ei weld. O dan faner 'Dewch i Drafod Parch', cyflwynwyd system gymorth newydd i staff, lluniwyd rhaglenni datblygu strwythuredig i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a thynnwyd sylw at urddas a pharch yn y gweithle drwy negeseuon mewnol aml-sianel gweladwy iawn a oedd yn cynnwys hanesion personol ac emosiynol staff, arweiniad cryf a mynegiant clir o'n gwerthoedd a'n disgwyliadau.
- Defnyddio ail gam yr ymgyrch Dewch i Drafod Parch yn benodol i wella dealltwriaeth y sefydliad o fodel cymdeithasol anabledd. Mae'r gweithgarwch hwn, a oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau DAAS, sef ein rhwydwaith o staff anabl, ac wedi'i lywio gan brofiadau aelodau, wedi cynnwys lansio animeiddiad arloesol, safonau iaith corfforaethol a hyfforddiant ymarferol. Bydd ymgorffori syniadaeth y model cymdeithasol ym mhopeth a wnawn yn cymryd amser ond dangosodd yr arolwg staff a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 fod 72% o'r sefydliad bellach yn ymwybodol o'r model cymdeithasol, sy'n rhoi sylfaen ar gyfer newid diwylliant.
- Rhoi syniadaeth y model cymdeithasol ar waith drwy weithio gyda staff anabl i nodi rhwystrau i symud ymlaen yn eu gyrfa ac, mewn ymateb uniongyrchol i'w profiadau, gyflwyno cynllun peilot i nodi addasiadau wrth recriwtio yn ein hasesiadau ar gyfer dyrchafu staff i Radd 7 er mwyn ei gwneud yn haws o lawer i ymgeiswyr allu gofyn am yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt allu cael eu hasesu'n deg. Mae'r cynllun peilot eisoes wedi denu diddordeb gan adrannau o Lywodraeth y DU.

- Lansio pedwaredd garfan ein cynllun mentora o chwith – mae 40 aelod arall o'r Uwch-Wasanaeth Sifil bellach yn cael eu mentora o chwith gan fentoriaid a recriwtiwyd yn benodol oherwydd eu safbwyntiau amrywiol, gan gynnwys staff anabl, staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a staff LGBT+ yn ogystal â menywod a'r rhai sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is.
- Llofnodi Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned a chyflwyno rhaglen Arweinyddiaeth deilwredig o ansawdd uchel i staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, mewn ymateb uniongyrchol i geisiadau gan MESN, sef ein rhwydwaith staff lleiafrifoedd ethnig Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfleoedd datblygu, hyfforddi a phrofiad gwaith a oedd wedi'u teilwra'n benodol iawn ar gyfer unigolion, ac roedd yn creu amgylchedd lle y gallai'r rhai oedd yn cymryd rhan roi cymorth i'w cymheiriaid.
- Cymryd rhan yng nghynllun meincnodi cyflogwyr Chwarae Teg (gan ennill dyfarniad arian) a chyfrannu at yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2019; caiff camau gweithredu yn gysylltiedig â chyflogaeth sy'n deillio o'r Adolygiad eu datblygu yn ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd. Dim ond mewn uwch-swyddi y mae menywod yn cael eu tangynrychioli ac, felly, gan ymgysylltu â'r rhwydwaith Menywod Ynghyd, rydym wedi cytuno i weithio gyda Chwarae Teg i gynnal grwpiau ffocws er mwyn nodi rhwystrau sy'n effeithio ar gyfleoedd i gael dyrchafiad i'r Uwch-Wasanaeth Sifil a'r graddau bwydo. Mae hyn yn ychwanegol at y rhaglenni datblygu o ansawdd uchel rydym yn parhau i'w darparu ar gyfer menywod. Gwnaethom hefyd lofnodi addewid Gweithio Blaengar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan ymrwymo i fod yn gyflogwr rhagorol ar gyfer menywod beichiog a rhieni newydd.
- Fe'n rhoddwyd yn y nawfed safle ym Mynegai Stonewall o 100 Cyflogwr Gorau'r DU 2020 (allan o 500 o enwau a gyflwynwyd) – ymhlith y 10 uchaf am yr ail flwyddyn yn olynol. At hynny, cydnabu Stonewall Lywodraeth Cymru fel y cyflogwr cynhwysol gorau ar gyfer pobl drawsryweddol ac, unwaith eto, rhoddwyd statws aur inni gan a:gender, sef Rhwydwaith Cymorth y Gwasanaeth Sifil ar gyfer staff trawsryweddol a rhyngrywiol ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Er ein bod yn hynod falch o gael yr adborth cadarnhaol hwn, nid ydym yn llaesu dwylo ac rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i weithio gyda PRISM, sef ein rhwydwaith sy'n cefnogi staff sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu ryngrywiol (LGBTI+) er mwyn nodi meysydd lle mae angen inni wella o hyd, yn seiliedig ar brofiad personol ein staff.

Isod, nodir y sefyllfa o ran ein targedau ar gyfer y gweithlu ar gyfer 2020 (mae'r canrannau a nodir ar ddiwedd mis Ebrill 2020):

- **50% o'r staff yn yr Uwch-Wasanaeth Sifil yn fenywod erbyn 2020.**
  Mae gennym dipyn o ffordd i fynd o ran cyflawni'r targed hwn, gyda chanran o 43.1% ar hyn o bryd. Mae'r ganran yn well ar lefel SCS 1 (Dirprwy Gyfarwyddwr), lle mae angen inni ddechrau newid pethau; ar hyn o bryd mae 45% o'n Dirprwy Gyfarwyddwyr yn fenywod (o gymharu â 36.8% mewn rolau SCS eraill). Mae'r graddau bwydo ar gyfer SCS hefyd yn well na'r ffigurau ar gyfer SCS ei hun (sef 53.9% ar gyfer G7 a 46.7% ar gyfer G6).
- **5.8% o staff anabl**
  Bellach ar 5.8% (cyflawnwyd y targed).
- **2.5% o staff lleiafrifoedd ethnig**
  Bellach ar 2.6% (rhagorwyd ar y targed)

Rydym yn ymwybodol i'r targedau gael eu pennu yng nghyd-destun cyfyngiadau ar recriwtio'n allanol a bod staff anabl a staff lleiafrifoedd ethnig yn dal i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sefydliad yn gyffredinol, fel sy'n wir am sefyllfa menywod yn yr Uwch-Wasanaeth Sifil.

Nodwyd bwlch cyflog o 8.54% rhwng y rhywiau yn 2019 (yn seiliedig ar gyflogau cyfartalog). Roedd y ganran hon ychydig yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol (7.96%) er ei fod yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 15%. Mae ein systemau cyflogau yn deg ac yn gyfartal i bob aelod o'r staff ac nid oes bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar y rhan fwyaf o raddau. Mae'r ffigur o 8.54% i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith nad oes gan fenywod gynrychiolaeth ddigonol yn ein rolau uchaf a dyna pam y bydd ein gwaith i unioni'r sefyllfa hon yn canolbwyntio ar gyfleoedd i gael dyrchafiad i raddau lefel uwch.

Cyhoeddir targedau newydd yn ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd a fydd yn canolbwyntio ar wella amrywiaeth, dileu rhwystrau a helpu pob aelod o'n staff i wireddu eu potensial, gan adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf. Bydd y Cynllun hwn ar gael yn ystod hydref 2020.

# Parchu Hawliau Dynol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chyda pharch ac i sicrhau bod Cymru'n rhydd o gaethwasiaeth. Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn rhan annatod o'r broses gaffael drwyddi draw. Caiff pob cyflenwr llwyddiannus ei annog i ymrwymo i'r Cod, ac mae gofyn i gontractwyr a phartneriaid cadwyni cyflenwi weithio gyda ni er mwyn rheoli perfformiad contractau'n barhaus i sicrhau bod arferion cyflogaeth teg yn cael eu dilyn.

Mae pob proses gaffael gwerth dros £25,000 yn ddarostyngedig i asesiad risg strategaeth, sy'n ystyried pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth a beth yw'r potensial ar gyfer mynd i'r afael â meysydd penodol o'r Cod drwy delerau'r contract, er enghraifft talu'r cyflog byw.

Yn fewnol, mae'n rhaid i'r holl weithwyr caffael proffesiynol gwblhau hyfforddiant e-ddysgu y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi ar Gaffael Moesegol. Hefyd, datblygwyd modiwl hyfforddiant e-ddysgu y bydd rhaid i holl reolwyr ein contractau ei gwblhau. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion cyflogaeth teg a moesegol iddynt a sut y gallant sicrhau bod y Cod yn cael ei ddilyn.

# Gweithio'n Ddwyieithog

Yn gynharach eleni, ar ôl ymgynghori ag Ochr yr Undebau Llafur, cyhoeddwyd strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg: "Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd". Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i system Safonau'r Gymraeg a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg 2011 fod â strategaeth o'r math hwn ac mae gennym hefyd ymrwymiad yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – "Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg" – i arwain drwy esiampl wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain.

Mae'r strategaeth yn gosod nod hirdymor ar gyfer defnyddio'r iaith, a fydd yn cael effaith gadarnhaol am genedlaethau i ddod. Ein nod yw y dylai Llywodraeth Cymru fod yn wirioneddol ddwyieithog erbyn 2050; sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio'n naturiol ac yn gyfnewidiol.

Er bod hon yn strategaeth hirdymor a gwirioneddol uchelgeisiol, rydym yn gweithredu'n awr i gyflawni ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cynnar. Fel camau cyntaf, byddwn yn cryfhau dysgu a datblygu drwy ehangu a gwella'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg. yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i bobl Cymru.

Yn ystod y pum mlynedd cyntaf (2020-2025) byddwn yn anelu at fod yn sefydliad sy'n dangos esiampl o'i gymharu â chyrff tebyg yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys 10 cam gweithredu sydd wedi'u hategu gan egwyddorion a gynlluniwyd i sicrhau ein bod yn dechrau ar y llwybr tuag at 2050 mewn ffordd raddol, rhesymol a chymesur. Yr egwyddorion yw:

- **Gwneud ymrwymiad hirdymor ac arwain y ffordd:** bydd y newid yn digwydd yn raddol, dros amser, ond ein bwriad yw arwain trwy esiampl yn y ffordd yr ydym yn hybu defnydd o'r iaith yn y gweithle.
- **Buddsoddi yn ein staff a chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu Cymraeg a meithrin sgiliau ieithyddol:** mae'n hanfodol darparu hyfforddiant effeithiol a hwylus, gan roi amser a chymhelliant i bobl wella'u sgiliau Cymraeg yn barhaus.
- **Parhau i fod yn sefydliad agored, cynhwysol ac amrywiol:** mae gan bawb y potensial i fod yn siaradwr Cymraeg, ac nid yw'r strategaeth hon yn groes i'n hymrwymiad i fod yn agored, yn gynhwysol ac yn amrywiol – er y bydd sgiliau Cymraeg yn fwyfwy angenrheidiol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi, nid yw meithrin gweithle dwyieithog yn golygu (nac yn awgrymu) bod y sgiliau hynny'n ofynnol bob amser ar gyfer ymuno â Llywodraeth Cymru.
- **Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein ffyrdd o weithio er mwyn hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg:** pan fyddwn yn cyflwyno polisïau a mentrau mewnol newydd, byddwn yn adolygu i ba raddau maent yn cynnig cyfleoedd pellach i'r staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol.

Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, ac mae adroddiad 2019-2020 www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2019-i-2020 i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Gweithio mewn Partneriaeth

Ochr yr Undebau Llafur (TUS) yw'r corff ambarél sy'n cydgysylltu safbwyntiau'r tri undeb llafur a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein tîm rheoli wedi gweithio'n agos mewn partneriaeth â TUS ers nifer o flynyddoedd, ond erbyn hyn mae'n gweithredu mewn cydweithrediad agosach gan ddilyn egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, gan ymgysylltu ag undebau yn ystod cam cynharaf datblygu polisi neu newid arfaethedig sy'n effeithio ar staff. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy yn yr argyfwng COVID-19, lle mae TUS wedi bod yn ymwneud yn agos â phob agwedd ar ein hymateb sefydliadol a'n gwaith o gynllunio'r adferiad.

Mae'r tri undeb yn cynrychioli eu haelodau ar ystod eang o amodau gwasanaeth a materion eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Pan gynigir newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar staff, ymgynghorir yn ffurfiol â TUS ac maent hwythau'n trafod ag aelodau'r undebau fel y bo'n briodol. Mae gan TUS a gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru Gytundeb Partneriaeth hirsefydlog sy'n darparu fframwaith ar gyfer eu trefniadau cydweithio. I adlewyrchu'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol newydd, mae Cadeirydd TUS bellach yn cymryd rhan fel sylwedydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgor Gweithredol.

Mae sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth lwyr, yn cadw'n iach ac yn cael amgylchedd diogel yn rhan bwysig o'n dull gweithredu o ran iechyd a diogelwch ac rydym yn gweithio'n arbennig o agos gyda TUS i wella hyn yn barhaus. Rydym wedi rhoi sawl gwelliant ar waith, gan gynnwys y gwaith adnewyddu sy'n digwydd mewn adeiladau ar draws yr ystad ac sy'n cynnig amrywiaeth o ddatrysiadau gweithio hyblyg, gan gynnwys ystafelloedd tawel a phodiau.

Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiwyd ar hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch i'n timau uwch-reoli. Cafodd Bwrdd Llywodraeth Cymru hyfforddiant iechyd a diogelwch gan Ganolfan Ansawdd Cymru ym mis Mai 2019 i dynnu sylw at gyfrifoldebau iechyd diogelwch uwch-reolwyr a gofynion y safon ISO 45001 newydd y bydd y sefydliad yn ei gweithredu yn ystod 2020-21.

Yn dilyn hyn, cafodd yr Uwch Dîm Arwain hyfforddiant gan Eversheds Sutherland ym mis Hydref 2019 a oedd yn amlinellu rhwymedigaethau Cyfarwyddwyr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr o ran hybu iechyd a diogelwch ymysg eu timau wrth gyflawni amcanion busnes. O ganlyniad, gwnaed nifer o ymrwymiadau i gyflwyno mesurau pellach, gan gynnwys gwirio trwyddedau gyrru staff.

# Gwrthlwgrwobrwyo a Llygredd

Mae ein safonau a'n disgwyliadau o ran y ffordd y disgwylir i staff Llywodraeth Cymru ymddwyn wrth ymgymryd â'u dyletswyddau yn gwbl glir. Mae ein Telerau ac Amodau Gwasanaeth, Cod y Gwasanaeth Sifil, y Cod Ymddygiad Staff a chanllawiau ar Reoli Arian Cyhoeddus Cymru i gyd yn canolbwyntio ar ein gwerthoedd craidd, sef uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd. Maent yn darparu cyngor clir na ddylai staff gamddefnyddio eu safle swyddogol i hyrwyddo buddiannau preifat na derbyn rhoddion neu letygarwch na buddion eraill gan unrhyw un mewn ffordd y gallai fod yn rhesymol tybio eu bod yn effeithio ar eu barn neu ar eu huniondeb.

Mae gofyn i bob aelod o staff ddatgelu unrhyw fuddiannau busnes allanol a allai effeithio ar eu gwaith yn Llywodraeth Cymru a chael rheolwyr i gymeradwyo'r buddiannau hyn. Anfonir negeseuon rheolaidd i atgoffa staff o'r gofyniad hwn. At hynny, cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar sefydliadau a ariennir gennym, fel rhan o fesurau yn erbyn troseddau ariannol gan y rheini sy'n derbyn grantiau ac sy'n ennill contractau Llywodraeth Cymru.

Mae gennym Gangen Gwrth-dwyll sy'n gyfrifol am ymgorffori diwylliant gwrth-dwyll a llygredd a hyrwyddo agwedd 'dim goddefgarwch' wrth ymdrin â thwyll a llygredd drwy ymchwilio i bob cyhuddiad, boed hwnnw yn erbyn swyddogion Llywodraeth Cymru neu yn erbyn trydydd partïon sy'n derbyn grantiau ac sy'n ennill contractau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Gangen mewn cysylltiad agos â Heddluoedd Cymru a grwpiau arbenigol eraill ac yn cymryd rhan mewn ymarferion paru data cenedlaethol i nodi achosion posibl o dwyll a gwrthdaro buddiannau. Mae'r Gangen Gwrth-dwyll hefyd yn gyfrifol am gynnal ein Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll.

# Ymdrin â Chwynion

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwynion clir a thryloyw sy'n egluro ein dull o ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Rydym wedi mabwysiadu arfer gorau o ran ymdrin â chwynion yn unol â pholisi cwynion enghreifftiol a chanllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ymdriniwyd â 122 o gwynion yn 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dangosydd perfformiad allweddol o 85% ar gyfer ymatebion i gwynion. Mae'r tabl isod yn dangos yr amseroedd ymateb dros y tair blynedd diwethaf:

% yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen y cytunwyd arni:

Ebrill 2017 – Mawrth 2018 69%
Ebrill 2018 – Mawrth 2019 69%*
Ebrill 2019 – Mawrth 2020 78%

* Wedi'i ailddatgan ers 2018-19 oherwydd diwygiadau tracio

Mae'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion yn cael eu monitro'n fisol ac yn cael eu cyfleu i Arweinwyr Cwynion ym mhob Grŵp. Mae hyn yn eu galluogi i dynnu sylw'n gynharach at ymatebion hwyr ac i roi camau ar waith i atal hyn rhag digwydd yn rheolaidd.

Mae amryw o resymau dros beidio ag ymateb i gŵyn o fewn yr amserlen a bennwyd (megis cymhlethdod y gŵyn neu lefel yr ymchwiliad sy'n ofynnol). Os bydd y dyddiad targed ar gyfer ymateb i gŵyn yn cael ei estyn, bydd yr achwynydd yn cael gwybod hynny ymlaen llaw bob amser fel ei fod yn gwybod beth sy'n digwydd. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyfeiriwyd 12 o gwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (10 yn llai na'r flwyddyn flaenorol) a dim ond 7 a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon eu harchwilio. O'r rhain, cadarnhawyd 6 ac ni chadarnhawyd 1. Nid yw canlyniad un gŵyn arall yn hysbys eto. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan yr Ombwdsmon yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Blwyddyn Cyfanswm yr achosion a gaewyd gan yr Ombwdsmon:

2016-17: 43
2017-18: 30
2018-19: 20
2019-20: 7

Mae nifer yr achosion sydd wedi cau yn wahanol i nifer yr achosion a dderbyniwyd. Mae hyn oherwydd i rai o'r achosion a gaewyd yn 2019-20 gael eu derbyn yn y flwyddyn flaenorol, a bydd rhai achosion a dderbyniwyd yn 2019-20 yn cael eu cau yn 2020-21. Mae adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar ac mae'n cadarnhau eu bod wedi derbyn 36 o gwynion am Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd hyn yn adlewyrchu unrhyw gynnydd na gostyngiad yn nifer y cwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ni wnaeth yr Ombwdsmon fwrw ymlaen â phob un o'r rhain.

Mae ein dadansoddiad yn dangos y gallai'r gostyngiad mewn achosion a gyfeirir at yr Ombwdsmon fod yn arwydd o'r ffaith fod y ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn gynnar yn y broses wedi gwella. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cwynion y bwrir ymlaen â hwy yn cael eu cadarnhau'n gynyddol, sy'n dangos bod lle i wella o hyd. Rydym yn dal i adolygu ein harferion a'n protocolau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi er mwyn gwella'r broses ar gyfer ein cwsmeriaid a'n staff. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi rhagor o staff er mwyn darparu cadernid, buddsoddi mewn mwy o hyfforddiant, ac ystyried a oes modd darparu dogfennau mwy teilwredig er mwyn cynnig gwasanaeth mwy cynhwysol a hygyrch.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o'r incwm a'r gwariant, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau ar draws Llywodraeth Cymru ym maes cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a oes safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y GIG yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei rhan) wedi penodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) cyrff cyhoeddus Cymru fel Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i gyrff cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu cyrff cyhoeddus Cymru'n atebol – gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb – am y defnydd a wneir o'r grantiau a dderbynnir ac am incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.


# Datganiad Llywodraethiant

## Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Nodir y prif ffynonellau gwybodaeth a ystyriaf wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu hwn yn Ffigur 1 drosodd.

## Ffigur 1: Ffynonellau Gwybodaeth sy'n Cyfrannu at yr Adroddiad Llywodraethiant Blynyddol




Defnyddir Ffynonellau Gwybodaeth Allanol hefyd wrth lunio'r Datganiad Llywodraethiant. Yn eu plith mae adroddiadau gan:

- Archwilio Cymru
- Rheoleiddwyr
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Aseswyr Allanol

## COVID-19

Ar 11 Mawrth 2020, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod y coronafeirws, COVID-19 yn bandemig byd-eang. O ganlyniad, ailgyfeiriodd Llywodraeth Cymru gryn dipyn o gapasiti a gallu mewnol i ymateb i'r argyfwng. Fe wnaeth y trefniadau llywodraethiant a sicrwydd a oedd ar waith yn barod barhau. Fodd bynnag, rhoddais nifer o fesurau ychwanegol ar waith i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i COVID-19 gan gynnwys cyflwyno Pwyllgor mewnol newydd o'r enw ExCovid. Ceir manylion y Pwyllgor hwn ar dudalen 58. Ymhlith y mesurau eraill roedd:

- Ysgrifennu'n bersonol at bob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar faterion yn ymwneud â pharodrwydd i dderbyn risg, rheoli'n gyflym a phwysigrwydd sicrhau ein bod yn parhau i roi mesurau diogelu cymesur ar waith gan gynnwys yr angen i gynllunio i liniaru risgiau, ystyried gwerth am arian, cadw cofnodion digonol a gweithio gyda thimau canolog megis cyllidebu strategol a'r canolfannau rhagoriaeth.
- Ysgrifennu at bob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn nodi fy nisgwyliadau ohonynt o ran yr angen posibl i geisio Cyfarwyddyd Gweinidogol.
- Cyfarfod â Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â swyddogion cyfrifyddu.
- Cyhoeddi canllawiau ychwanegol i'r holl staff ar reoli ariannol, grantiau, llywodraethu, atal twyll a chaffael.
- Sicrhau bod yr Is-adran Cyllidebu Strategol a'r canolfannau rhagoriaeth, grantiau a llywodraethu yn parhau i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi Cyngor Gweinidogol.
- Cyflwyno templed ariannu a risg (ynghyd â chyngor ategol) mewn perthynas â phenderfyniadau COVID-19 i ategu'r canllawiau presennol ar baratoi cyngor i Weinidogion. Mae cwblhau'r templed yn orfodol ac mae'n cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth.

## Llifogydd

Roedd llifogydd difrifol yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol yn gofyn am gychwyn y cynllun cymorth ariannol brys ar gyfer awdurdodau yr effeithiwyd arnynt. Darparwyd cymorth refeniw drwy'r cynllun yn y flwyddyn ariannol. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ardystio bod eu gwariant wedi'i ysgwyddo mewn perthynas â'r argyfwng, ei fod yn uwch na'r trothwy cymhwysol a'i fod wedi wneud o dan delerau'r cynllun. Roedd grŵp ar draws Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymateb y Llywodraeth yn cael ei gydgysylltu'n briodol a bod y cynlluniau'n ategu ei gilydd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rwyf wedi ymrwymo i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gwaith yn unol â'r nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae cyhoeddi dau adroddiad 5 mlynedd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhan o gylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cyhoeddir y rhain flwyddyn cyn etholiad cyffredinol, a gyda'i gilydd maent yn rhoi archwiliad cyfnodol o weithrediad y Ddeddf gan gyrff cyhoeddus o'r ddau safbwynt allweddol hyn yn y Ddeddf. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus i ystyried adroddiad y Comisiynwyr wrth bennu neu ddiwygio eu hamcanion llesiant.

Cyhoeddwyd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar 5 Mai 2020. O ystyried yr argyfwng coronafeirws, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi nad yw'n disgwyl ymateb yn y tymor byr, er mwyn caniatáu i adnoddau ganolbwyntio ar ymateb i'r coronafeirws. Bydd ymateb gan y Llywodraeth i'r argymhellion hyn yn dilyn maes o law.

Gosodwyd Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ar 5 Mai 2020. Roedd yn cynnwys dau argymhelliad: un i'r Senedd a Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r gwaith craffu ar ôl deddfu i ystyried a yw darpariaethau'r Ddeddf yn gweithio yn ôl y bwriad; ac un i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylid dynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol drwy Orchymyn i fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn a bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb maes o law.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r llywodraeth trwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Rhagor o fanylion am y Fframwaith Llywodraethu yn Natganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

### Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei nodau a'i hamcanion, yn rhannol, trwy nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a ariennir gan y Llywodraeth. Penodir Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer pob corff sydd â swyddogaethau gweithredol, ac maent yn gyfrifol am reoli cyllid cyhoeddus y sefydliad a chyflawni ei amcanion. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennau ysgrifenedig ar gyfer pob corff. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi'i sefydlu i wella'r ymgysylltiad â'r cyrff cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, a gwella'u llywodraethiant.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gyfrifol am:

- Cyflawni cynllun gweithredu sydd wedi'i gynllunio i gefnogi'r ymgysylltu gwell hwnnw, a threfniadau llywodraethiant mwy effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac i gyflwyno templedi ar gyfer cysondeb o ran Dogfennaeth Fframwaith Corff Hyd Braich, Cylchoedd Gwaith Tymor y Llywodraeth, a model Sicrwydd Risg a fydd yn llywio cylch pum mlynedd Adolygiadau Pwrpasol. Cafodd yr Adolygiad Pwrpasol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru ei gynnal fel cynllun peilot. Mae'r Adolygiad bellach wedi'i gwblhau ac mae gyda Gweinidogion perthnasol Cymru i'w nodi; unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio gyda'r Panel Adolygu, ei Thîm Partneriaeth a'r Uned Cyrff Cyhoeddus i gytuno ar drefniadau cyhoeddi.
- Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn datblygu amserlen ar gyfer rhaglen lawn o Adolygiadau Pwrpasol o Gyrff Hyd Braich yng Nghymru; cynhelir yr adolygiadau hyn yn ystod tymor nesaf Llywodraeth Cymru ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.
- Y broses gorfforaethol o wneud penodiadau cyhoeddus gan Weinidogion a gweithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.
- Pennu'r egwyddorion tâl a'r canllawiau cylch gwaith tâl ar gyfer cyrff hyd braich, gan gynnwys gwaith tuag at sefydlu mwy o gysondeb tâl (lle bo'n bosibl); a goruchwylio cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys penodiadau cyhoeddus gan Weinidogion.

## Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru


Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae "Fframwaith Rheoli Cyffredin" Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyaethau safonol sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.

Diweddarwyd y Fframwaith Rheoli Cyffredin yn ystod 2019-20. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant wedi arwain ar hyn gyda chyfraniadau gan y Gymuned Ymarfer ar gyfer Llywodraethiant. Roedd y fframwaith diwygiedig yn barod i'w gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn ond penderfynwyd gohirio'r lansiad am ddau reswm. Yn gyntaf, teimlid y gallai cyhoeddi diwygiadau pan oedd swyddogion yn delio â phwysau COVID-19 fod yn ddryslyd; ac yn ail oherwydd bod rhai prosesau diwygiedig wedi'u cyflwyno o ganlyniad i ymateb i COVID-19 e.e. diweddaru'r templed penderfyniad ariannu. Gallai hyn arwain at newidiadau pellach i'r fframwaith. Bwriadwn gyhoeddi'r Fframwaith Rheoli Cyffredin wedi'i ddiweddaru yn nes ymlaen yn ystod 2020-21.

Mae'r fframwaith llywodraethu a'r system rheolaeth fewnol hefyd yn cael eu cefnogi gan broses barhaus o reoli risg, a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso tebygolrwydd ac effaith gwireddu'r risgiau hynny ac yna eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Datblygwyd y fframwaith llywodraethu i gydymffurfio â gofynion llywodraethu da ac fe'i cefnogir gan *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*, sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer ymdrin ag adnoddau yn sefydliadau sector cyhoeddus Cymru.

Yn ystod argyfwng COVID-19 mae ein canolfannau rhagoriaeth wedi parhau i roi cyngor ar ofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ac i gynnig her ynghylch agweddau ar reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Rydym hefyd wedi rhoi rhai o aelodau staff ein Canolfannau Rhagoriaeth mewn timau sy'n delio â dyraniadau cyllid mawr er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

## Y Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol



## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rwyf wedi cael fy annog gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ddatblygu cyfres fwy cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn fy llywio a'm cefnogi i a'm huwch-gydweithwyr wrth arwain gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu'r adborth hwn am fy mod innau hefyd yn credu y bydd cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion o gryn gymorth imi. Yn dilyn gwaith grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad Jeff Farrar, aelod anweithredol o'r Bwrdd, a chyfnod ymgynghori, mabwysiadwyd Mynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil (InCiSE) fel sail i fframwaith perfformiad y sefydliad a'i addasu i gyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith wedi parhau er mwyn cwblhau themâu'r fframwaith, sefydlu trefniadau llywodraethu a datblygu cysyniadau a dangosyddion priodol i fesur perfformiad. Dechreuodd y broses o gyflwyno'r fframwaith gydag adolygiad cyntaf y Bwrdd ym mis Medi 2020 gyda gwaith pellach i gwblhau'r fframwaith a'i roi ar waith ar draws y sefydliad i ddilyn. Ceir rhagor o fanylion am y Fframwaith Perfformiad ar dudalennau 8 i 11. Mae'r cynnydd o ran rhaglen gyflawni'r Llywodraeth ar gael yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn Rhan 1 o'r adroddiad hwn.

## Adolygiad Llywodraethiant

Y llynedd, darperais yr wybodaeth ddiweddaraf am ein hadolygiad o drefniadau llywodraethiant. Mae'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad bellach wedi'u gweithredu'n sylweddol gyda dim ond rhai mân feysydd heb eu cyflawni oherwydd effaith COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu Cod Llywodraethiant Corfforaethol i Gymru a Chynllun Dirprwyo diwygiedig (Fframwaith Rheolaeth Gyffredin). Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol, sy'n gyfrifol am y camau hyn, wedi gorfod ailflaenoriaethu eu hymrwymiad gwaith i ddelio â materion llywodraethiant sy'n deillio o argyfwng COVID-19 a bydd yn sicrhau bod y prosiectau hyn yn cael eu cynllunio yn ystod 2020-21.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yng Ngod Llywodraethiant Corfforaethol yr Adrannau Canolog cyn belled ag y bo'n ymarferol, hyd nes y cwblheir asesiad o God Llywodraethiant Corfforaethol i Gymru.

## Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Mae sicrhau bod gwrthdaro rhwng buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant a system rheolaeth fewnol effeithiol. O fewn Llywodraeth Cymru mae rheolaethau'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n ymdrin â'r mater hwn; gan gynnwys cofrestrau gwrthdaro buddiannau a datganiad blynyddol gan yr holl staff perthnasol a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (gan ddatgelu pob aelodaeth o fwrdd ac aelodaeth debyg o sefydliadau trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd a phob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd Gofrestrau Gwrthdaro rhwng Buddiannau. Gofynnir hefyd am wrthdaro rhwng buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau penodol ar yr agenda ym mhob cyfarfod a chânt eu cofnodi'n ffurfiol. Caiff y gofynion sydd ar aelodau'r Pwyllgorau eu nodi hefyd yn y llythyrau penodi ac yn y Cylch Gorchwyl.

Yn ystod 2019 cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o drefniadau Gwrthdaro rhwng Buddiannau Llywodraeth Cymru. Nododd hyn nifer o feysydd lle gellir cryfhau'r prosesau, megis yr angen i adolygu ac adnewyddu'r Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau presennol. Mae'r rheolwyr yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn, yn bennaf drwy'r is-bwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 14 Aelod, yn Aelodau Anweithredol ac yn Aelodau Gweithredol. Mae cynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur yn mynychu dau gyfarfod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut y mae gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu'r Gweinidogion, "Symud Cymru Ymlaen" a'r blaenoriaethau a nodir yn "Ffyniant i Bawb'. Fe wnes i gadeirio holl gyfarfodydd y Bwrdd ac fe wnes i hefyd gynnal cyfarfodydd dwyochrog yn rheolaidd ag Aelodau'r Bwrdd, ac â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y cyd bob chwech wythnos. Rwyf wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn ymgysylltu â'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol fel rhan o'u hagenda:

- Brexit
- Rheoli Cyllidebau a Phwysau Ariannol
- Adnoddau Staffio
- Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Y Gwasanaeth Iechyd
- Y Gymraeg
- Dysgu a Datblygu
- Datgarboneiddio
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol
- COVID-19
- Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

| Aelodau Presennol | Cyfarfod Presenoldeb |
|---|---|
| Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol | 8/8 |
| Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 6 Mawrth 2020) | 7/8 |
| Ellen Donovan, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Jeff Farrar, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Gareth Lynn, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 6/8 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 8/8 |
| Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Prif Weithredwr y GIG) | 7/8 |
| Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog | 7/8 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Llywodraethiant a Moeseg | 7/8 |
| Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol (tan 13 Medi 2019) | 4/4 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol | 7/8 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr, Cyllid | 8/8 |
| Gillian Baranski, Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd (tan 5 Gorffennaf 2019) | 3/3 |
| Natalie Pearson, Pennaeth Strategaeth AD, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 7/8 |
| Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru, arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd (o 13 Medi 2019) | 5/5 |
| Helen Lentle, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol (o 13 Medi 2019) | 4/5 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o'i Berfformiad

Trafododd y Bwrdd ganlyniad yr ymarfer hunanasesu ar 5 Gorffennaf 2019 a chymeradwyodd y camau gweithredu arfaethedig. Gohiriwyd yr ymarfer hunanasesu ar gyfer 2019-20 oherwydd yr argyfwng COVID-19 a disgwylir iddo gael ei gynnal erbyn mis Hydref 2020. Bydd yr ymarfer asesu yn debyg i'r un blaenorol ond bydd yn cynnwys ystyried a yw'r aelodau'n teimlo bod canlyniadau'r ymarfer blaenorol wedi'u gweithredu'n llwyddiannus. Yn ogystal bydd yn archwilio i ba raddau y mae'r ffyrdd newydd o weithio yn gweithredu'n llwyddiannus i'r Bwrdd.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru yn fy nghefnogi ar faterion ariannol. Roedd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan un o Gyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd, fel un o ddau Gyfarwyddwr Anweithredol sy'n aelodau o'r Pwyllgor hwn. Ar ddiwedd y flwyddyn ymddiswyddodd y Cadeirydd blaenorol a chymerodd un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd yr awenau. Roedd Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn gweithredu ar lefel Grwpiau o ail hanner 2019-20 ac roedd eu tri Chadeirydd yn ffurfio gweddill aelodaeth ARAC Llywodraeth Cymru. Roedd ARAC yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar weithredu rheolaeth fewnol a gallu'r sefydliad i reoli risg. Oherwydd COVID-19 cafodd sesiynau Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau a Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill eu canslo.

Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd aelodau Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a'r Grwpiau i gael eu briffio gan Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, a hynny'n bennaf o ran yr ymateb i COVID-19 a'r cymorth a'r arweiniad ychwanegol a oedd yn cael ei ddarparu. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o ARAC Llywodraeth Cymru ganol mis Mai i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor ar ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Parhaodd ARAC y Grwpiau ac ARAC Llywodraeth Cymru â'u rhaglen arferol o gyfarfodydd o fis Mehefin 2020.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Cydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil ac mae'n gyfrifol am dâl ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil, cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a holl achosion personol yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor wyth gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd. Nid yw'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn pennu fy nghyflog i gan mai Swyddfa Cabinet y DU sy'n delio â hynny.

### Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

Drwy gydol 2019-20, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant, Cyllid, y Trysorlys, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol sy'n aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i roi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach y trefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, o ran defnyddio arian cyhoeddus a hefyd o ran bod yn atebol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Adolygir y dynodiadau Cyfarwyddwr hyn i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol ac yn berthnasol.

## ExCovid

Rhan allweddol o ymateb y sefydliad i argyfwng COVID-19 oedd creu'r Pwyllgor ExCovid. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol ac uwch-swyddogion eraill a dyma'r fforwm penderfynu strategol ar lefel swyddogion sy'n fy ngalluogi fel Prif Swyddog Cyfrifyddu i arwain a monitro cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Gweinidogion yn eu hymateb i COVID-19.

Rôl ExCovid yw goruchwylio a chydlynu camau gweithredu swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod amcanion polisi a gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni a thrwy hynny roi cymorth effeithiol i'r Gweinidogion i'w cynorthwyo i ddelio â'r argyfwng COVID-19. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhoi sicrwydd i mi fel Ysgrifennydd Parhaol bod swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu i reoli'r argyfwng COVID-19 a'n bod yn bodloni disgwyliadau'r Gweinidogion;
- Sicrhau bod blaenoriaethau polisi a gweithredol allweddol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni;
- Goruchwylio ac adolygu'r portffolio ehangach o gyflawni polisi er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion yr argyfwng COVID-19 ac yn cael ei gyflawni'n effeithiol;
- Sicrhau bod gwaith yn cael ei flaenoriaethu'n glir ar COVID-19 a nodi a dileu meysydd sy'n dyblygu ymdrech a gweithgarwch;
- Datblygu gweledigaeth strategol glir ar gyfer esblygiad polisi, gan gynnwys yn y cyfnod adfer.

Mae'r grŵp hefyd yn adolygu ac yn rheoli rhestr o risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dechreuodd ExCovid gyfarfod ddwywaith yr wythnos rhwng mis Chwefror a mis Mai 2020, ac mae cyfarfodydd wedi'u cynnal bob wythnos wedi hynny. Bydd ExCovid yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd drwy gydol yr argyfwng.

## Y Pwyllgor Gweithredol: Brexit (BrexCo)

Roedd amser wedi'i neilltuo i ExCo gyfarfod yn rheolaidd yn unswydd er mwyn canolbwyntio ar faterion parodrwydd ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Fel arfer, roedd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod bob pythefnos; fodd bynnag, rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019 cynhaliwyd cyfarfodydd bob mis. Mae'r Pwyllgor hwn bellach wedi'i ddisodli gan Fwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r yr UE, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2020; bwriedir cynnal y cyfarfodydd hyn bob mis.

## Is-bwyllgor ExCo: Cyllid (FinCo)

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid yn is-bwyllgor parhaol sy'n helpu ExCo i redeg y sefydliad yn fewnol ar lefel weithredol o ran rheoli cyllid ac adnoddau, gan ganiatáu i ExCo gadw ffocws strategol ar draws y sefydliad. Mae aelodaeth FinCo yn cynnwys un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru.

### Is-bwyllgor ExCo: Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-bwyllgor Pobl yn is-bwyllgor parhaol sy'n helpu ExCo i redeg y sefydliad yn fewnol ar lefel weithredol o ran rheoli'r gweithlu, materion staffio, diogelwch TG a rheoli data.

### Is-bwyllgor ExCo: Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar lefel swyddogion.

### Sesiynau Her yr Aelodau Anweithredol

Er mwyn darparu cymorth ychwanegol, sefydlwyd sesiynau herio a gadeirir gan Gyfarwyddwyr Anweithredol i roi sicrwydd ynghylch cyflawni meysydd gwaith allweddol a ddewiswyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Prif Weinidog.

Bwriad sesiynau herio yw cynnig cyfleoedd ar gyfer craffu a thrafodaethau adeiladol mewn amgylchedd diogel. Mae'r trafodaethau'n defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y sefydliad i nodi lle y gellir cryfhau prosesau, a lle y gellir cyflwyno atebion ac opsiynau i helpu i gefnogi'r broses o gyflawni'r gwaith. Cynhaliwyd un cyfarfod hyd yma, ynglŷn â'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Oherwydd i'r sesiynau herio gael eu sefydlu ychydig cyn y pandemig COVID-19, daethant i ben wedyn. Bwriadaf ailddechrau'r sesiynau hyn yn y dyfodol agos fel y gall y Cyfarwyddwyr Anweithredol barhau i ddarparu'r cymorth ychwanegol.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu'r Panel Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion chwythu'r chwiban, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon ond gan ofalu cadw cyfrinachedd os oes modd. Mae'r polisi Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth ddylai staff ei wneud os ydynt yn amau cydweithiwr o gamwedd. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd.

Rwy'n hyderus bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn dryloyw, ac yn gadarn ac yn cydymffurfio ag arferion da.

Adroddwyd am saith achos i'r Panel yn ystod y flwyddyn, gyda phedwar achos arall yn cael eu trosglwyddo o'r flwyddyn flaenorol. Yr achosion oedd:

| **Achosion o Chwythu'r Chwiban** | **2019-20** | **2018-19[11]** | **2017-18** |
|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 3 | 4 | 2 |
| Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | 6 | - | 1 |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | - | - |
| Cyngor wedi'i roi i'r Chwythwr Chwiban | 2 | - | 1 |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | - | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **11** | **7** | **5** |

Yn ogystal â'r Panel Chwythu'r Chwiban sy'n ymdrin ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol yn mynd i'r afael â materion a godwyd ynghylch sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig ymateb cyson, cymesur a phriodol i bryderon ynghylch sut y mae ein partneriaid cyflenwi a buddiolwyr ein cynlluniau grant wedi ymdrin ag arian Llywodraeth Cymru.

Mae'r Panel Sicrwydd Allanol yn rhoi cyngor i swyddogion ac yn nodi materion systemig y mae angen mynd i'r afael â hwy. Ystyrioedd y Panel 18 o achosion newydd yn y flwyddyn o'i gymharu â 16 o achosion yn 2018-19. Cynghorodd y Panel ar wyth o'r achosion hyn. Roedd y 10 achos arall yn destun ymchwiliad i ddechrau gan y Gangen Gwrth-dwyll a chawsant naill ai eu cyfeirio at adrannau neu asiantaethau eraill ar gyfer gweithredu, neu nodwyd nad oes ganddynt achos i'w ateb. Mae pedwar o'r achosion newydd hyn yn dal yn agored, ynghyd â dau o'r blynyddoedd blaenorol yr eir i'r afael â hwy yn y flwyddyn bresennol.

| **Achosion y Panel Sicrwydd Allanol** | **2019-20** |
|---|---|
| Trosglwyddwyd o 2018-19 | 9 |
| Achosion newydd yn codi | 18 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 21 |
| Achosion yn parhau: | 6 |
| – Achos llys yn mynd rhagddo | 0 |
| – Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu | 0 |
| – Yn destun monitro ad-dalu | 0 |
| – Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 0 |
| – Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 6 |
| **Cyfanswm yr achosion heb eu datrys** | **6** |

Cafodd pob achos ei adolygu ar gyfer gwersi a ddysgwyd, sydd wedi'u rhannu â thimau priodol i weithredu arnynt gan gynnwys dwy'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, yr adran Adnoddau Dynol, y Gwasanaethau Caffael, Atal Twyll a thimau Gweithrediadau'r Grwpiau.

11 Roedd gwall yn y ffigurau hyn yn adroddiad 2018-19. Maent wedi'u hailddatgan ar gyfer 2019-20.

## Trefniadau Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei gyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill Senedd Cymru yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddo. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

### Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol raglen lawn o waith yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Fe wnaethoant gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgorau Archwilio a Risg, ar lefel Grŵp ac ar lefel Llywodraeth Cymru, ar gynnydd wrth roi'r cynllun archwilio hwn ar waith. Cyfarfûm yn rheolaidd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol drwy gydol y flwyddyn i drafod materion archwilio a sicrwydd.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae protocol cydweithio hirdsefydlog yn sail i'r dull gweithredu ac mae cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd i rannu gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ffynhonnell annibynnol hyn o sicrwydd yn rhoi cryn gysur imi o ran sicrhau gwerth am arian a dibynadwyedd y cyfrifon ariannol, yn achos Archwilio Cymru, ac o ran gweithredu'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth, yn achos y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Yn ei Hadroddiad Barn am Sicrwydd Blynyddol, rhoes Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" ar weithrediad y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau'n cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol, mae sicrwydd rhesymol yn golygu bod ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran rheolaeth neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi'i llywio gan nifer o adolygiadau cynghori a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn ac na ddarparwyd datganiad sicrwydd archwilio traddodiadol ar eu cyfer. Nododd yr adolygiadau hyn feysydd lle gellid cryfhau systemau llywodraethu, risg a rheolaeth ac fe wnaethant arwan at gamau gweithredu y cytunodd y rheolwyr arnynt.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon â'r ymateb cadarnhaol gan y rheolwyr i'r arsylwadau a godwyd mewn adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn. Lle y bo'n briodol, megis wrth ddatblygu polisïau a chanllawiau newydd, mae staff archwilio mewnol yn gweithio gyda swyddogion i roi cyngor pellach ar faterion risg a rheolaeth. Yn ogystal, mae'r holl gamau rheoli yn destun adolygiad dilynol i sicrhau eu bod wedi'u gweithredu'n briodol a bydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn cynnal adolygiadau pellach o'r meysydd hynny lle darparwyd barn sicrwydd gyfyngedig.

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2019-20, sy'n llywio'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y safbwyntiau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a gyflwynwyd:

| Barn Sicrwydd | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 19 | 35 | 16 | 14 |
| Sicrwydd Rhesymol | 15 | 30 | 38 | 29 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 4 | 9 | 7 | 9 |
| Dim Sicrwydd | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiad Cynghori | 9 | 3 | 2 | 0 |

Lle y nodwyd gwendidau mewn adroddiadau archwilio, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu gan reolwyr i wella'r fframwaith rheolaeth a mynd i'r afael â'r mater a nodwyd. Y themâu allweddol a gododd o'r adroddiadau sicrwydd cyfyngedig oedd digonolrwydd tystiolaeth a llwybrau archwilio i gefnogi gwariant, a gwendidau mewn rheolaethau awdurdodi a chymeradwyo. Ceisir cadarnhad bod y camau unioni gofynnol wedi'u cymryd yn ystod yr adolygiadau dilynol.

Roedd yr adroddiad lle na chafwyd sicrwydd yn ymwneud ag adroddiad a gyhoeddwyd gan Dîm Archwilio'r Cronfeydd Ewropeaidd ar y broses Cymorth Technegol, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig. Ceir rhagor o fanylion am yr adroddiad hwn ar dudalen 65.

Gan fod posibilrwydd y byddai'r DU yn ymadael â'r UE ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, a'r effaith gysylltiedig ar weithrediadau Llywodraeth Cymru, newidiodd y Pennaeth Archwilio Mewnol i ddull cynllunio "ystwyth" ar gyfer 2019-20 fel mesur hwylus i ddelio â'r ansicrwydd a'r tarfu disgwyliedig oherwydd Brexit. Ar yr un pryd, roedd yr Archwilwyr Mewnol wedi derbyn sawl cais o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru am adolygiadau o agweddau penodol ar weithrediadau Grwpiau. Creodd yr amgylchiadau hyn gyfle i ailystyried strwythur a model cyflawni'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Nododd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol fod archwiliadau cynghori a'r mewnwelediad y gallai'r archwilwyr mewnol ei ddarparu yn feysydd lle gallai gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod yn fwyaf defnyddiol.

Fel proffesiwn, mae archwilio mewnol wedi symud oddi wrth ymwneud yn bennaf â chydymffurfio tuag at roi sicrwydd ac, yn awr, tuag at ddarparu cyngor a "mewnwelediad", sy'n ychwanegu mwy o werth ac yn gwneud y defnydd gorau o sgiliau archwilwyr. Un o ganlyniadau datblygu gwasanaeth sy'n fwy seiliedig ar gynghori yw cynhyrchu llai o adroddiadau "traddodiadol" â chanlyniadau sicrwydd, ond mae hyn yn adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol y proffesiwn a'r gydnabyddiaeth y gall fod yn fwy effeithiol a pherthnasol drwy fabwysiadu gwahanol ddulliau o ymdrin â'i waith. Mae hyn yn creu her i Benaethiaid Archwilio Mewnol wrth ddod i farn gyffredinol; fodd bynnag, mae Safonau Archwilio Mewnol proffesiynol

y Sector Cyhoeddus yn datgan yn glir y dylai archwilwyr gymryd sicrwydd o'r ystod gyfan o waith a gyflawnir, gan gynnwys aseiniadau cynghori, wrth ddod i farn sicrwydd gyffredinol am y flwyddyn.

Felly, roedd cyfuniad o amgylchiadau – symud tuag at ddull hyblyg, trosiant staff, a nifer fwy o geisiadau am aseiniadau cynghori – yn golygu bod llai o safbwyntiau traddodiadol wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn a bod nifer fwy o adroddiadau cynghori (heb farn sicrwydd) wedi'u cyhoeddi, gan arwain at y niferoedd yn y tabl uchod.

### Y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd

Ym mis Chwefror 2020, cyflwynodd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) ei Adroddiad Rheolaeth Blynyddol a'i Farn i'r Comisiwn gyda'i farn sicrwydd ar Gronfeydd Strwythurol a hawliwyd gan Gymru am y cyfnod 1 Gorffennaf 2018 i 30 Mehefin 2019. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar waith a wnaed gan EFAT yn unol â'i strategaeth archwilio ar gyfer y Rhaglenni. Rwyf yn falch fod EFAT wedi llwyddo i ddarparu barn ddiamod i'r Comisiwn. Rhoes EFAT farn ddiamod hefyd mewn perthynas â Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon/Cymru am yr un cyfnod. Derbyniwyd yr Adroddiadau Rheolaeth Blynyddol a'r farn yn ffurfiol gan y Comisiwn ar 27 Ebrill 2020.

### Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Yn seiliedig ar ei waith drwy gydol 2019-20, gall y Pwyllgor roi sicrwydd rhesymol cyffredinol ynghylch digonolrwydd trefniadau archwilio Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi'u sefydlu, yn seiliedig ar yr ystod o sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddi gan Swyddogion.

### Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Fe'i gwneuthum yn ofynnol hefyd i'r holl Gyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol ac, ar sail yr wybodaeth hon, i Gyfarwyddwyr Cyffredinol pob Grŵp baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi i mi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Trwy'r Holiadur, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi i mi eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi rhoi trosolwg o lywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg o fewn eu priod Grwpiau.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Roedd ffurflenni'r Holiadur Rheolaeth Fewnol yn cynnwys sicrwydd cadarnhaol mewn perthynas â'r Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes sy'n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau. Mae rhaglen o adolygiadau sicrwydd a wnaed gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i asesu'r modelau sydd wedi'u sefydlu hefyd wedi rhoi sicrwydd imi am y modelau hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddi ar gyfer Uwch-berchenogion Cyfrifol a dadansoddwyr arweiniol sy'n gweithio ar y modelau (gan gynnwys contractwyr allanol sy'n gweithio ar fodelau Trafnidiaeth Cymru), ac mae'r Penaethiaid Proffesiwn dadansoddol wedi cynnal

adolygiadau gan gymheiriaid o'r holl fodelau a nodwyd fel blaenoriaeth gennym ym mhroses sicrwydd y llynedd.

Mae amlygiad y sefydliad i risg modelu dadansoddol yn parhau'n debyg i'r llynedd er bod mwy o ddibyniaeth wedi bod dros y tymor canolig ar fodelau dadansoddol â risg sylweddol, a bydd hynny'n parhau'n wir. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd risg yn cynyddu oherwydd trethi (megis cyfradd treth incwm Cymru, ac ymyriadau cyllidol mwy newydd fel ardoll gofal cymdeithasol) a fydd yn dod i'r amlwg ac yn datblygu dros amser.

Mae amlygiad sylweddol i risg yn parhau mewn rhai meysydd, megis cyllid myfyrwyr, gyda chyllidebau blynyddol mawr ar gyfer rhwymedigaeth grantiau a benthyciadau, yn seiliedig ar system statudol sy'n seiliedig ar alw. Mae mesurau llywodraethiant a lliniaru da ar waith. Fodd bynnag, gallai sioc economaidd sylweddol achosi problemau mawr yn ystod y flwyddyn.

Gall nifer o fodelau mwy newydd, megis trethi Cymru, bellach ddefnyddio data alldro gwirioneddol am y tro cyntaf, gan leihau eu risg.

## Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

### Y Rhaglen Datblygu Gwledig

Ar 30 Mehefin 2020 cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad a oedd yn feirniadol o'r modd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i asesu gwerth am arian drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig mewn rhai achosion. Y pwyntiau penodol a wnaed oedd bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y canlynol: defnyddio dull o roi arian heb gystadleuaeth, heb gyflwyno ffyrdd amgen o sicrhau gwerth am arian, wedi gwahodd ceisiadau am gyllid gan gyrff dethol heb ddogfennu pam y cawsant eu dewis, wedi gwneud dyfarniadau grant unigol heb ddangos digon o ystyriaeth o werth am arian, wedi rhoi arian ychwanegol i brosiectau presennol heb wirio eu llwyddiant yn gyntaf, a heb gynnal goruchwyliaeth ddigonol ar rhglenni a phrosiectau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu cyhoeddi'r adroddiad a bydd yn ymateb yn llawn i'r argymhellion. Mae swyddogion wedi cydnabod nad oedd y dull o brofi gwerth am arian ar gyfer nifer o brosiectau hanesyddol y Rhaglen Datblygu Gwledig yn arfer gorau. Fodd bynnag, fel rhan o'n hadolygiad parhaus o gyflawni'r Rhaglen Datblygu Gwledig, roedd swyddogion eisoes wedi nodi'r materion a ddisgrifiwyd gan Archwilio Cymru ac wedi cymryd camau i'w cywiro. Mae casgliadau'r adroddiad yn rhoi canllawiau defnyddiol i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol wedi'u cymryd.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn parhau i ddarparu manteision ar draws ystod o gynlluniau sy'n cefnogi amaethyddiaeth, coetiroedd, bioamrywiaeth, twristiaeth, datblygu cymunedol a meysydd blaenoriaeth eraill. Mae eisoes wedi ymrwymo £702m a byddwn yn nodi'n fuan sut y bwriadwn ymrwymo gweddill y cyllid sydd ar gael erbyn 2023.

## Cymorth Swyddi Cymru

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y broses o gaffael rhaglen Cymorth Swyddi Cymru ei chwtogi cyn dyfarnu contract ffurfiol o ganlyniad i gyngor cyfreithiol a oedd yn awgrymu nad oedd ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r penderfyniad terfynol yn ddigon cryf i oroesi her gyfreithiol. Nododd cyngor Cwnsler y Frenhines mai'r cam gweithredu hwn oedd yr opsiwn gorau o'r gwaethaf. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol a oedd yn cadarnhau, er bod asesu ceisiadau yn broses oddrychol, nad oedd lefel y manylder yn y naratif i gefnogi'r penderfyniad terfynol yn ddigonol.

Cynhaliwyd y broses gaffael yn unol â phrosesau cytunedig Llywodraeth Cymru. Barnodd y Cwnsler nad oedd gan brosesau caffael safonol Llywodraeth Cymru ddigon o gadernid i amddiffyn y math hwn o her. Rydym wedi dangos tystiolaeth o welliannau i sicrhau bod y risg o her lwyddiannus yn cael ei lliniaru yn y dyfodol ond bod angen gwneud mwy i wella'r prosesau, yn enwedig canllawiau gwell ar lefel y naratif sydd ei angen i gefnogi penderfyniadau terfynol, o fewn timau caffael a pholisi ar draws Llywodraeth Cymru.

## Cyllid y Comisiwn Ewropeaidd

### Adolygiad o'r Broses Cymorth Technegol

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) yr adroddiad terfynol ar y broses Cyngor Technegol, sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig. Barn archwilio EFAT oedd na ellid rhoi unrhyw sicrwydd ar y rheolaethau sydd ar waith o ran y broses ar o baratoi a chyflwyno hawliadau Cymorth Technegol. Er bod EFAT yn fodlon bod proses ddigonol ar waith ar gyfer awdurdodi hawliadau, nodwyd bod y rheolwyr wedi gwyro oddi wrth y broses y cytunwyd arni, ar ddau achlysur.

Fodd bynnag, mae'r Rheolwyr wedi cydnabod a derbyn canfyddiadau sylfaenol yr adroddiad ac wedi rhoi'r camau cywiro ar waith a'u cwblhau.

### Effaith COVID-19 ar archwilio Cronfeydd Strwythurol

Mae EFAT yn ymgymryd â rôl Awdurdod Archwilio Cymru mewn perthynas â rhaglenni ESF, ERDF ac ETC, yn ogystal â chynnal archwiliadau ar gyfer y rhaglen EMFF ar ran DEFRA. Er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn Ewropeaidd (CE), rhaid i EFAT gwblhau nifer o archwiliadau (tua 75) ar draws dau gyfnod sampl ar wahân erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Fel arfer, caiff pob archwiliad ei gynnal 'yn y fan a'r lle' ar safle'r prosiect sy'n destun archwiliad.

Mae'r terfyn amser diwedd blwyddyn yn dal yr un fath, ond mae'r CE wedi annog awdurdodau archwilio i gynnal adolygiadau desg lle bo hynny'n bosibl yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Felly, ers diwedd mis Mawrth, mae EFAT wedi bod yn cynnal archwiliadau o bell lle gall prosiect lanlwytho gwybodaeth yn electronig. Bydd unrhyw dystiolaeth archwilio na ellir ei darparu drwy'r dull hwn yn cael ei gweld yn ddiweddarach 'yn y fan a'r lle' – gan dybio y gallai'r cyfyngiadau symud fod wedi'u codi.

Mae EFAT yn aros am ganllawiau pellach gan y CE ynghylch a fydd terfynau amser yn cael eu hymestyn neu y bydd gostyngiad yn nifer/lefel yr archwiliadau yn cael ei ystyried yn lefel dderbyniol o sicrwydd. Hyd nes y clywir ymhellach, mae EFAT yn gweithio ar y dybiaeth y bydd angen cwblhau'r nifer safonol o archwiliadau erbyn y terfyn amser arferol.

## Llys Archwilwyr Ewrop

Ym mis Medi 2019, cafodd EFAT ymweliad gan Lys Archwilwyr Ewrop. Diben yr ymweliad oedd ailgyflawni gwaith EFAT ar nifer o archwiliadau ac wedyn cadarnhau a oedd lefel y sicrwydd y mae EFAT yn ei roi i'r Comisiwn Ewropeaidd ar raglenni ESF ac ERDF yn ddigonol.

Derbyniodd EFAT adroddiad drafft y Llys Archwilwyr ym mis Chwefror 2020 ac atebodd ym mis Mawrth yn anghytuno â nifer o'r canfyddiadau. Yr oedd y mater pwysicaf yn ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol. Gofynnodd EFAT a WEFO am gyngor y Comisiwn Ewropeaidd a Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru cyn ymateb ar y mater hwn. Adeg darparu'r diweddariad hwn, roedd EFAT yn aros am ymateb pellach gan y Llys Archwilwyr.

## Adroddiad Archwilio Cymru ar Gronfeydd EAFRD

Unwaith eto, roedd adroddiad Archwilio Cymru ar ddefnyddio arian Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn rhoi barn amodol ar gyfer diwedd blwyddyn amaethyddol 2018-19 (y flwyddyn hyd at fis Hydref 2019). Gwnaethpwyd hyn am yr un rheswm ag mewn blynyddoedd blaenorol, sef pryderon gan yr archwilwyr ynghylch y diffyg cystadleuaeth agored wrth ddyfarnu contractau. Ni ddyfarnwyd unrhyw gontractau newydd yn ystod y flwyddyn a oedd yn dod o dan y farn amodol ac mae'r amod yn ymwneud â chontractau parhaus a nodwyd gyntaf ym mlwyddyn ariannol 2017-18 ac a barhaodd drwy gydol 2018-19 na ellir dod â hwy i ben. Oherwydd camau rheoli cryf, mae swm y gwariant a oedd yn destun cosb ariannol ym mlynyddoedd archwilio 2018 a 2019 wedi'i leihau i €3.9m. Mae'r holl symiau gwariant a oedd yn destun cosb ariannol yn dal i gael eu trafod gyda'r UE.

## Barn Amodol ar Gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru

Cafodd cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru farn amodol ar gyfer 2018-19 oherwydd bod trafodion wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ymwneud â chontractau caffael hanesyddol ar gyfer pren. Mae'r trefniadau hyn wedi'u hatal ac ni ddyfarnwyd unrhyw gontractau newydd o'r math hwn. Er bod nifer o gontractau presennol na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu dod ohonynt, bydd y rhain yn parhau i ostwng dros amser. Sefydlodd Cyfoeth Naturiol Cymru y Prosiect Gwella Llywodraethiant Pren ym mis Ionawr 2019, ac roedd llawer o welliannau wedi'u rhoi ar waith cyn i broses archwilio 2018-19 ddod i ben. Daeth y prosiect i ben ym mis Ebrill 2020.

## Cau Prosiect Gwyddorau Bywyd Pencoed

Yn ystod 2019-20 penderfynwyd cau'r prosiect Cynnyrch Therapi Meddyginiaethol Uwch ym Mhencoed. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, ystyrir bod colledion lleihad mewn gwerth cronedig o £17m dros y cyfnod 2014-15 i 2017-18 bellach yn ofer ac yn anadferadwy. Ni chafwyd unrhyw effaith ariannol ar flwyddyn ariannol 2019-20 gan fod y costau lleihad hyn wedi'u codi dros nifer o flynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, penderfynwyd yn 2019-20 i derfynu'r prosiect a cheisio opsiynau amgen ar gyfer dyfodol y safle. Nid yw'r prosiect arfaethedig i sefydlu cyfleuster gweithgynhyrchu bôn-gelloedd ar y safle wedi'i fodloni. Nid yw prosiectau o'r fath heb risg, ond dangosodd y costau lleihad mewn gwerth wendidau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli prosiectau ffatri mor gymhleth. O ganlyniad, cynhaliwyd

ymarfer gwersi a ddysgwyd ac ni reolir prosiectau o'r fath yn y modd hwn mwyach. Mae ffitiadau technegol cymhleth yn cael eu rheoli ac yn eiddo i'r ymgeisydd ac nid gan Lywodraeth Cymru ar eu rhan.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb â Chleient nad oedd ganddo ddigon o wybodaeth ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Roedd y cytundeb yn caniatáu i'r Cleient gymryd rhan sylweddol yn y gwaith o redeg y prosiect a rhoi cyfle i gyflwyno newidiadau, gyda risg i newidiadau o'r fath ddisgyn i Lywodraeth Cymru. Oherwydd natur arbenigol iawn y gwaith, nid oedd gan Lywodraeth Cymru na'r Cleient brofiad blaenorol perthnasol. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi'u rhoi ar waith lle mae'r tenant bellach yn cyflawni ffitiadau technegol o'r fath ac felly mae'r tenant yn ymgymryd â'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau i fanyleb.

## Colledion, Dileu a Thaliadau Arbennig

### Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd

Ar gyfer Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HOVDC) a phrosiect Cylchdaith Cymru, rydym bellach yn y sefyllfa bod pob llwybr ar gyfer adennill arian sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru wedi'i ddihysbyddu. Wedi i'r HOVDC ymgymryd â Threfniant Gwirfoddol Credydwr (CVA) yn 2017 a'r holl gwmnïau cysylltiedig eraill yn fethdalwyr, y cyngor ansolfedd diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael yw nad oes fawr o obaith y bydd yr arian sy'n ddyledus yn cael ei adennill. Darparwyd yn erbyn symiau'r incwm dan sylw yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd dan sylw, felly er iddo gael ei ddileu yn 2019-20 nid oes unrhyw effaith net ar wariant yng Nghyfrifon Blynyddol 2019-20.

Mae'r penderfyniad i ddileu'r ddyled hon yn codi yn 2019-20 wrth i swyddogion ymdrechu i liniaru colledion Llywodraeth Cymru gymaint â phosibl ers 2016, ac wedi archwilio pob llwybr cyfreithiol posibl naill ai i ail-gychwyn y prosiect neu adennill yr holl arian sy'n ddyledus neu rywfaint ohono. Mae swyddogion wedi dod i'r casgliad, yn dilyn cyngor allanol, fod unrhyw adenillion yn annhebygol iawn ac y dylid dileu gwerth llawn £14.9m.

Mewn achosion tebyg, rhoddir mwy o bwyslais ar sicrhau bod rhannu risg yn y cyfnod cynnar hwnnw o brosiectau yn decach. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod ariannu benthyciadau yn cael ei gydweddu â sefydliadau benthyca preifat ym mhob cam o ddatblygu prosiectau ac wedi gwella'r trefniadau llywodraethu o ran gwariant prosiectau.

### Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – tanysgrifennu gwariant hanesyddol

Y llynedd, cafodd y costau a ysgwyddwyd wrth ddatblygu'r cynllun hwn eu trin fel ased sy'n cael ei adeiladu, gan asesu defnydd yn y dyfodol, yn rhannol ddibynnol ar ganlyniad Comisiwn Burns. Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi rhyddhau adroddiad interim ac er bod y gwaith yn parhau, mae'n amlwg bellach na fydd yr holl gostau a ysgwyddir yn berthnasol ar gyfer gwaith ar opsiwn traffig yn ne-ddwyrain Cymru yn y dyfodol. O ganlyniad i hyn, cynghorwyd y Gweinidogion y dylid dileu £43.1m o gostau eleni gan nad oes ganddynt werth yn y dyfodol.

Mae mantolen Llywodraeth Cymru yn dal i gynnwys costau fel tir sy'n ymwneud â datblygu opsiynau ar gyfer yr M4. Bydd gwerth parhaus yr asedau hyn sy'n weddill yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â gofynion cyfrifyddu a chaiff ei ystyried ymhellach pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol.

### Stociau ffliw pandemig

Cafodd stociau o ffliw pandemig eu diddymu yn y flwyddyn gyda gwerth o £2.3m. Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn anwadal o'r herwydd. Mae diddymiadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'r diddymiadau a hysbyswyd yn ymwneud â chyffuriau sydd wedi darfod nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau GIG craidd.

### Trefniadau TAW/Cynllunio a Rheoli Trethi

Dechreuodd CThEM Archwiliad TAW yn Llywodraeth Cymru yn 2016 sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu sylw at dri mater yn ystod y flwyddyn ariannol hon ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trin TAW. Mae dau o'r rhain wedi'u datrys ac mae un yn destun apêl ar hyn o bryd. Er nad yw'r adolygiad wedi dod i ben eto gwnaed taliad unioni i CThEM yn ystod y flwyddyn am y swm o £889k.

## Llywodraethiant Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol i mi asesu'r risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol ar waith.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt ynghylch sut y dylent ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrwydd gwybodaeth yn cael eu cynnwys fel rhan safonol o gymalau contractau. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriad Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon “Cyber Essentials”.

Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberfwlio yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu ein hasedau digidol a'n seilwaith TGCh.

Yn sgil pasio Deddf Diogelu Data 2018, a roes rym cyfreithiol i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ym mis Mai 2018, mae'r trothwy ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi gostwng ac mae mwy o achosion o dorri rheolau data bellach yn bodloni'r prawf ar gyfer rhoi gwybod i'r ICO. O ganlyniad, mae nifer yr achosion o dorri data a hysbyswyd yn 2018-19 yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Ar yr un pryd, mae ymwybyddiaeth lawer gwell ynghylch gofynion prosesu data, law yn llaw â phroses adrodd gryfach, wedi arwain at gynnydd cyffredinol mewn adrodd ar ddigwyddiadau gan gynnwys y rhai na fernir eu bod yn ddigon difrifol i fodloni'r meini prawf ar gyfer

rhoi gwybod i'r ICO amdanynt.

| Digwyddiadau sydd o fewn y meini prawf ar gyfer rhoi gwybod i'r ICO (ac y rhoddwyd gwybod amdanynt): | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Digwyddiadau y rhoddwyd gwybod i'r ICO amdanynt** | **Camau a gymerwyd gan yr ICO** |
| 2019-20 | 7 | 0 |
| 2018-19 | 6 | 0 |

| Digwyddiadau  nad ydynt o fewn y meini prawf ar gyfer rhoi gwybod i'r ICO amdanynt (ac na roddwyd gwybod amdanynt): | | | |
|---|---|---|---|
| **Math** | **Natur y digwyddiad** | **2019-20** | **2018-19** |
| I | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 7 | 3 |
| II | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 7 | 2 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel gyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 0 | 0 |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 68 | 64 |
| V | Arall | 20 | 12 |

O'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod i'r ICO amdanynt roedd pump yn achosion o dorri rheolau data gan asiantaeth weithredol (PINS) ond Llywodraeth Cymru oedd y rheolwr data.

Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau na roddwyd gwybod i'r ICO amdanynt yn deillio o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi, sef gan amlaf anfon neu e-bostio dogfennau penodol yn cynnwys data personol at y person anghywir. O'r digwyddiadau hyn roedd 75% yn cynnwys trawsyrru data y tu allan i Lywodraeth Cymru a 25% o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses adrodd gadarn sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Pan geir gwybod am achos o dorri rheolau data, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn rhan o'r Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

### Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Yn ychwanegol, rwyf yn cymryd sicrwydd gan Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chydymffurfio â GDPR. Mae'r Swyddog Diogelu Data wedi nodi bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cydymffurfio â GDPR er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan y pandemig COVID-19 ddiwedd 2019-20. Yn benodol, mae rôl Perchennog Asedau Gwybodaeth (IAO) o fewn y strwythur llywodraethiant diogelu data wedi'i chryfhau ac mae'r rhan fwyaf o'r Perchenogion Asedau Mewnol wedi derbyn eu hyfforddiant sefydlu erbyn hyn. Daeth y pandemig COVID-19 ar draws y broses o gyflwyno'r hyfforddiant hwn, a bydd angen gwneud rhagor o waith i adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i ddarparu hyd yma. Mae ymateb i'r pandemig wedi darparu tystiolaeth o lefel dda o ymwybyddiaeth o'r egwyddorion cyffredinol o ran diogelu data. Mae'r angen i rannu data gydag asiantaethau eraill i ymateb i'r achosion hefyd wedi helpu i gynyddu lefelau dealltwriaeth a gwybodaeth yn y rhannau perthnasol hynny o'r sefydliad.

Rhoddodd adolygiad a gynhaliwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y Swyddog Diogelu Data "sicrwydd rhesymol" o ran cydymffurfiaeth. Serch hynny, nodwyd meysydd i'w gwella. Yn bennaf, weithiau nid oedd cofnodion o'r ystod gyfan o weithgareddau prosesu data a gynhaliwyd yn gwbl gyflawn, cywir na chyson a chanfuwyd nad oedd y sail gyfreithlon a nodwyd yn briodol mewn rhai achosion mewn Cofrestrau Asedau Gwybodaeth. Bu'n rhaid gohirio'r prosiect i ddatblygu un Gofrestr Asedau Gwybodaeth drwy broses awtomataidd oherwydd COVID-19; bydd hyn yn helpu i ysgogi gwell cydymffurfiaeth unwaith y gellir ei ailgychwyn. Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at y ffordd y drafftiwyd yr Hysbysiadau Preifatrwydd a gyhoeddwyd ar draws gwefannau Llywodraeth Cymru, ac at yr angen i ddarparu ystod fwy cynhwysfawr o adnoddau hyfforddi, fel materion y mae angen rhoi sylw iddynt.

## Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

### Awdurdodau Lleol

Rhoddir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Elfen unigol fwyaf y cyllid grant yw'r setliad blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Gellir defnyddio'r arian hwn at unrhyw ddiben wrth ddarparu'r gwasanaethau y mae'r awdurdodau hynny'n gyfrifol amdanynt. Caiff cwantwm y cyllid ei bennu fel rhan o gylch cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru. Dosberthir y Grant Cynnal Refeniw ar sail fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol.

O ran materion penodol, sefydlwyd Bwrdd Gwella a Sicrwydd Powys fis Mawrth 2018 i gynorthwyo'r Arweinydd i ddatblygu'r newid a'r gwelliant gofynnol yng Nghyngor Sir Powys. Ym mis Mawrth 2020 adolygwyd diben/cylch gwaith y Bwrdd a'i effeithiolrwydd. Edrychodd yr adolygiad ar gylch gwaith presennol y Bwrdd i fonitro cynnydd mewn perthynas â: Materion Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant ac Oedolion), Addysg a Materion Corfforaethol ac ystyriodd a oedd angen o hyd i ddarparu her a chymorth annibynnol statudol ym mhob un o'r tri maes.

Yng ngoleuni'r cynnydd digonol a wnaed hyd yma gan y Cyngor, daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid symud o Fwrdd Gwella a Sicrwydd ffurfiol i drefniadau lleol i oruchwylio a sbarduno gwelliant, ynghyd â chyfnod pontio, cyn iddo ddod i ben yn ffurfiol. Bydd y Bwrdd Gwella a Sicrwydd yn parhau am gyfnod byr gyda chylch gwaith diwygiedig sy'n canolbwyntio'n benodol ar sicrhau proses bontio effeithiol wrth i'r Cyngor ddod yn gyfrifol am lywio ei welliant ei hun. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn ymwneud yn unig â rhoi'r gorau i ddarparu Bwrdd Gwella a Sicrwydd ffurfiol. Mae angen parhaus i gynnal her a chyngor allanol ar feysydd gwasanaeth penodol, sef addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Byddai disgwyl bod cymorth ar ryw ffurf yn parhau yn y meysydd gwasanaeth allweddol hyn.

Mae pecyn cymorth statudol hefyd wedi bod ar waith ym Merthyr Tudful ers mis Gorffennaf 2019 yn dilyn llythyr gan Arweinydd y Cyngor yn gofyn am gymorth ffurfiol mewn ymateb i Lythyr Archwilio Blynyddol a roddwyd i'r Cyngor gan Archwilio Cymru ym mis Mai 2019, a oedd yn destun pryder. Roedd y cam cyntaf (a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019) yn cynnwys adolygiad cwmpasu cychwynnol i roi asesiad annibynnol trylwyr i'r Gweinidog a'r Cyngor o heriau allweddol y Cyngor a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud y newidiadau angenrheidiol. Mae'r ail gam (cyfredol) yn cynnwys tri llinyn cymorth, fel ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad cwmpasu:

- Sefydlu Bwrdd Gwella a Sicrwydd cyffredinol i gynorthwyo'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Prif Weithredwr dros dro i ddatblygu'r newid a'r gwelliant gofynnol yn y cyngor ac i adrodd ar sicrwydd i'r Gweinidog.
- Penodi cynghorwyr allanol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu am gyfnod byr i lywio'r penodiad mewn perthynas â chymorth i aelodau/swyddogion; gwasanaethau cymdeithasol; a chymorth ar yr agenda gwella/trawsnewid.
- Darparu mentora a chymorth cymheiriaid i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro gan Arweinydd sy'n gwasanaethu a phrif weithredwr blaenorol mewn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Cynadleddau Gwella a Chymorth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd i drafod ble y gellid cynnig cymorth ychwanegol yn gynnar i helpu'r Awdurdod Lleol i wella.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir arian hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae arian ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol Llywodraeth Cymru hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Y llynedd adroddais fod chwech o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb trwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu tair blynedd. Nid oedd pedwar o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, cafodd y pedwar corff hyn farn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer cyfrifon 2018-19, wedi iddynt fethu â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol am y trydydd cyfnod o dair blynedd.

Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn bod deg o gyfrifon y GIG ar gyfer 2019-20 yn 'gywir a theg'. Barn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd bod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg ac eithrio lle nad oedd yn bosibl cynnal y lefel arferol o brofion archwilio ar restrau ar 31 Mawrth 2020 oherwydd yr heriau o baratoi ac archwilio cyfrifon yn ystod y pandemig.

Mae chwech o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb trwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu o dair blynedd. Nid yw pedwar o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd: Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyrraedd ei darged i fantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn hytrach na thros y cyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, cafodd y pedwar corff hyn farn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer cyfrifon 2019-20, wedi iddynt fethu â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol am y trydydd cyfnod o dair blynedd. Cyflawnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ei dyletswydd ariannol flynyddol i fantoli'r gyllideb yn y flwyddyn gyntaf iddynt weithredu.

Y pedwar sefydliad a fethodd â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

O'r cyrff hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dal yn destun Mesurau Arbennig er gwaethaf cynnydd a chyfres i welliannau mewn meysydd allweddol. Rhoddwyd y bwrdd iechyd mewn Mesurau Arbennig ym mis Mehefin 2015 yn dilyn pryderon ac adroddiadau beirniadol ar wasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys ward Tawel Fan, gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, llywodraethiant a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau. Codwyd y mesurau arbennig oddi ar y gwasanaethau mamolaeth yn 2018, ac oddi ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn 2019, a gwelwyd gwelliannau mewn rheoli ansawdd a phrosesau. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch cynnydd o ran arweinyddiaeth a llywodraethiant, cynllunio a chyllid, a meysydd perfformiad penodol gan gynnwys yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac iechyd meddwl.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gynt Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dal mewn ymyrraeth wedi'i thargedu. Yn achos Hywel Dda, cyllid yw'r pryder sy'n parhau o ran yr ymyrryd, ac ym Mae Abertawe mae cyllid a rhai meysydd perfformiad yn parhau'n bryderon.

Cafodd y sefydliad a oedd yn bodoli cyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf) ei uwchgyfeirio i 'fonitro uwch' ym mis Ionawr 2019 ar ôl i bryderon gael eu codi mewn perthynas ag arolygiad ymbelydredd ïoneiddio, adolygiad o wasanaethau corffdy a digwyddiadau anffodus difrifol o fewn ei wasanaethau mamolaeth. Yna, fis Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adroddiad adolygiad ar y cyd a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, cyhoeddodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod gwasanaethau mamolaeth hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi symud i 'fesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn o fesurau a gynlluniwyd i gefnogi ymyriad y Gweinidog, penodwyd panel annibynnol i oruchwylio'r gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau ac mae'n adrodd ar gynnydd i'r Gweinidog bob chwarter. Cynigiodd y bwrdd iechyd ymddiheuriad cyhoeddus ffurfiol am y methiannau yn y gwasanaethau mamolaeth, derbyniodd yr holl argymhellion a rhoddodd ymrwymiad i gymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwahanol faterion. Arweiniodd y pryderon ynghylch gwasanaethau mamolaeth at uwchgyfeirio i 'fesurau arbennig' gyda materion ansawdd a llywodraethiant yn cael eu huwchgyfeirio ymhellach o 'fonitro uwch' i 'ymyrraeth wedi'i thargedu' ar draws y sefydliad cyfan.

Cafodd y Mesurau Arbennig a gwaith craffu'r ymyriadau wedi'u targedu eu lleihau yn Chwarter 4 i alluogi sefydliadau GIG Cymru i ganolbwyntio eu hadnoddau ar gynllunio a pharatoi ar gyfer y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'r cyswllt wedi parhau o ran y pryderon penodol ynghylch gwasanaethau mamolaeth a materion ansawdd ym Mwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg er mwyn cynnal y cynnydd hyd yn oed yn y cyfnod eithriadol hwn. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r cyswllt bellach yn canolbwyntio unwaith eto y pryderon sy'n parhau a'r anghenion cymorth wrth symud ymlaen yng nghyd-destun y gwaith cynllunio ar gyfer ailgychwyn ac adfer.

Ym mis Mawrth, daeth effaith arfaethedig y pandemig COVID-19 yn glir ac effeithiodd yn sylfaenol ar amcanion cyflawni diwygiedig cyrff y GIG. Mae'r effaith ar y flwyddyn ariannol 2019-20 yn gyfyngedig gyda'r gostyngiad yn y costau yn rhan olaf mis Mawrth yn cael eu cofnodi'n gywir yn 2019-20; mae effaith ariannol ehangach pandemig COVID-19 yn digwydd i raddau helaeth ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd modd bellach ad-dalu'r cymorth ariannol strategol a ddarparwyd yn flaenorol i BILlau sydd mewn diffyg. Bydd lefel y cymorth arian parod strategol a ddarperir yn parhau i gael ei datgelu'n flynyddol fel rhan o'u cyfrifon blynyddol. Pan fydd sefydliad sydd wedi bod mewn diffyg o'r blaen yn cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dair blynedd, ni fydd yn ofynnol iddo ad-dalu unrhyw ddiffygion hanesyddol a ysgwyddwyd cyn iddo gyflawni'r ddyletswydd statudol. Mae diffygion ariannol cyrff y GIG yn cael eu nodi yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn y digwyddasant, felly nid oes unrhyw ddyled sy'n ddyledus gan gyrff y GIG yn cael ei hadrodd yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru. Nid yw'r penderfyniad na fydd modd mwyach ad-dalu arian strategol i gefnogi diffygion yn gyfystyr â dileu colledion a datgeliadau taliadau arbennig.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o risgiau wrth gefn hefyd (effaith uchel ond sy'n annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Mae nifer o risgiau digwyddiadol (heriol ond annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio, er enghraifft, ei chyfrifoldebau pe bai achosion o glefyd pobl neu anifeiliaid yn codi yng Nghymru, ei chyfrifoldeb dros seilwaith trafnidiaeth Cymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Roedd y pandemig COVID-19 yn crisialu un o'r risgiau amodol hyn i Lywodraeth Cymru a'r angen i ymateb i'r argyfwng. Mae ExCovid wedi nodi a monitro risgiau a materion penodol COVID-19 i'r sefydliad ac mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd wedi'i diweddaru i sicrhau bod risgiau corfforaethol a oedd yn bodoli cyn y pandemig byd-eang yn cael eu diweddaru i sicrhau bod effaith COVID-19 yn cael ei hadlewyrchu ynddynt.

Mae COVID-19 hefyd wedi arwain at gynnydd digynsail yn y pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ac mae llwybr yr economi a chyllid cyhoeddus yn y dyfodol yn aneglur iawn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Nhrysorlys EM ac yn cynllunio senarios ar gyfer dyfodol cyllidol posibl, gan gynnwys asesu effaith polisïau a rhaglenni i ganolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Rydym wedi cydnabod bod COVID-19 hefyd wedi cynyddu'r risgiau i'n gweithlu gan gynnwys materion yn ymwneud â chapasiti a lles staff. Mae gennym fecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu monitro'n ofalus yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Mae'r ansicrwydd ynghylch canlyniad ymadawiad y DU â'r UE yn parhau i fod yn un o'n risgiau mwyaf sylweddol, ac mae'r risg hon wedi'i dwysáu gan effaith COVID-19. Mae gennym reolaethau cadarn o hyd i reoli'r risg hon gan gynnwys cysylltiad gweithredol â Llywodraeth y DU a sefydlu'r Tîm Pontio Ewropeaidd i gefnogi parodrwydd, diwygio polisi a dylanwadu ar drafodaethau'r DU/UE.

Un risg gorfforaethol allweddol drwy gydol y flwyddyn oedd cadernid TGCh a gallu Llywodraeth Cymru i weithredu'n effeithiol os na fyddai'r systemau a chymwysiadau TGCh ar gael. Cynyddodd y risg hon yn sylweddol drwy weithio o bell oherwydd COVID-19. Mae'r mesurau lliniaru cadarn sydd ar waith i reoli'r risg hon wedi golygu bod pobl wedi gallu gweithio'n effeithiol o bell drwy gydol yr argyfwng.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac, wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai rhai methiannau ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r polisi a'r broses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar y camau lliniaru ar gyfer y risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei amcanion strategol. Yn bennaf, y rhain

yw'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi bod yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Cafodd risgiau'r Grwpiau eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau ac fe gawsant eu llywio gan y cofrestrau risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni, a chan asesiadau risg a chofrestrau risg ar lefel adrannol.

Yn dilyn gwaith Archwilio Mewnol y llynedd, cychwynnwyd prosiect gwella i adolygu ac adnewyddu'r fframwaith rheoli risg. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad o'r Polisi Rheoli Risg a'r Safonau Gofynnol sydd wedi'u diweddaru i ymgorffori Egwyddorion Gorfodol Llyfr Oren Trysorlys EM a pholisi Llywodraeth Cymru a chyflwyno datganiad newydd ar y Parodrwydd i Dderbyn Risg. Mae'r ddau ohonynt wedi'u cymeradwyo gan ExCo a'r Bwrdd. Mae gwaith o gyhoeddi a lledaenu dogfennau newydd a chyflwyno'r polisi newydd i dimau rheoli wedi'i ddal yn ôl gan effaith COVID-19 a chaiff ei ailddechrau yn ddiweddarach yn 2020-21. Yn gynnar yn natblygiad ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, nododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn glir wrth y Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol beth yw ei safbwynt ar y parodrwydd am risg mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19, er mwyn llywio'r gwaith o reoli risg yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

## Pwynt cydnabod ar gyfer y Cynllun Grantiau i Fusnesau Bach a'r Gronfa Grantiau Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden

Cyhoeddwyd y Cynllun Grantiau i Fusnesau Bach ei gyhoeddi i ddechrau gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 17 Mawrth 2020 fel rhan o gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau wrth ddelio â COVID-19. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 19 Mawrth 2020 gynnydd yng ngwerth y cynllun a fyddai ar gael i fusnesau bach a busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden. Cadarnhawyd mewn datganiad ar y cyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a'r Gogledd ar 24 Mawrth 2020 mai'r Awdurdodau Lleol fyddai'n gweinyddu'r grantiau. Ar 25 Mawrth 2020 lansiodd gwefan Busnes Cymru gysylltiadau cychwynnol ag Awdurdodau Lleol er mwyn i fusnesau a allai fod yn gymwys wneud cais am y grantiau. Cafodd canllawiau i fusnesau ar sut i wneud cais am y cynlluniau eu cwblhau a'u cyhoeddi ar 22 Ebrill 2020. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 30 Mehefin 2020.

Gwnaed asesiad o dan IAS37 fel y'i cymhwysir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ynghylch a ddylid cydnabod unrhyw atebolrwydd pellach yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer y cynlluniau grantiau hyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw rwymedigaeth bellach yn gyfreithiol nac yn ddeongliadol ar 31 Mawrth 2020. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anghytuno ag asesiad IAS 37 Llywodraeth Cymru, gan arwain at farn Wir a Theg amodol a barn Reoleidd-dra amodol ar sail 'ac eithrio' ar gyfer y mater hwn.

Mae'n anarferol bod cymaint o wahaniaeth barn rhwng swyddogion a'r awdurdodau archwilio perthnasol ac, felly, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol ystyried y mater a rhoi canllawiau clir.

## Cyfarwyddyd Gweinidogol

Mae fy atebolrwydd yn ei gwneud yn ofynnol imi sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion priodoldeb a gwerth am arian. Os cawn gyfarwyddyd fel swyddogion i gymryd camau yr wyf fi, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, o'r farn nad ydynt yn bodloni'r safon hon, rwy'n gyfrifol am roi gwybod i Brif Weinidog Cymru ac, os oes angen, gofyn am ei gyfarwyddyd ffurfiol i barhau ar y trywydd hwnnw.

Ar 18 Rhagfyr 2019, gofynnais am Gyfarwyddyd Gweinidogol[12] gan Brif Weinidog Cymru. Hwn oedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf i'w roi ers dechrau datganoli. Roedd angen y Cyfarwyddyd o ganlyniad i'r gofyniad polisi i leddfu effaith rhai newidiadau pensiwn a threth ar glinigwyr cyflog uwch yn y GIG, a oedd wedi arwain at leihad yn y capasiti gwasanaethau oherwydd bod meddygon yn cael eu cymell i weithio oriau ychwanegol i'r GIG. Roeddwn o'r farn nad oedd y cynllun hwn yn gydnaws â rhai o'r darpariaethau yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' yn ymwneud â mesurau cynllunio trethi.

Yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' yn nodi y gellid bod wedi ystyried bod gwrthdaro rhwng bwriad y polisi a'm dyletswyddau fy hun fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ac mewn amgylchiadau o'r fath y dylid ceisio Cyfarwyddyd gan y Prif Weinidog.

Roedd hon yn sefyllfa eithriadol o anarferol gan nad oedd gan Gymru fawr ddim dewis ond dilyn esiampl y trefniadau a gyflwynwyd yn Lloegr, lle'r oedd Cyfarwyddyd Gweinidogol wedi'i geisio, er mwyn sicrhau nad oedd clinigwyr y GIG yng Nghymru yn waeth eu byd o'u cymharu â chlinigwyr y GIG yn Lloegr pan gyflwynodd y DHSC drefniadau yn Lloegr i liniaru problem y dreth bensiynau.

Mae cyrff y GIG yng Nghymru wedi cofnodi rhwymedigaeth amodol heb ei mesur yn eu cyfrifon ar gyfer 2019-20 mewn perthynas â'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn, ac mae wedi'i gynnwys yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn nodyn 12.

## Casgliad

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno newid digynsail i'r sefydliad ond drwy gydol y cyfnod rwy'n fodlon bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd cadarn wedi parhau.

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
28 Hydref 2020

12 llyw.cymru/cyfarwyddyd-gweinidogol-ynghylch-y-cynnig-ar-dreth-pensiynaur-gig-2019-i-2020

# Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 2019-20

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae taliadau cydnabyddiaeth uwch-weision sifil yn cael eu pennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan benderfyniad Bwrdd Tâl Cydnabyddiaeth Senedd Cymru ar Dâl a Lwfansau Aelodau.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall. Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael yn www.civilservicecommission.org.uk

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

c) y ffordd o reoli talent fewnol,

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf,

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellid eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

**Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.**

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r uwch-reolwyr.

## Taliadau cydnabyddiaeth

Nodir isod daliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd yn hytrach na rhai Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflog fel Aelodau o'r Senedd, sef £67,649 (2018-19: £66,847). Y cyflog sy'n daladwy i Weinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennwyd gan Fwrdd Annibynnol Taliadau'r Senedd.

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Senedd yn y tabl.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – Gweinidogion

| Gweinidogion | Cyflog 2019-20 £ | Cyflog 2018-19 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf £1000)[1] 2019-20 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf £1000)[1] 2018-19 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf £1000) 2019-20 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf £1000) 2018-19 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford**[2]<br>Prif Weinidog Cymru | 147,983 | 117,027 | 58,000 | 47,000 | 206,000 | 164,000 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 93,456 | 31,000 | 28,000 | 137,000 | 121,000 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 104,448 | 31,000 | 31,000 | 137,000 | 135,000 |
| **Lesley Griffiths**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 104,448 | 29,000 | 31,000 | 135,000 | 135,000 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 104,448 | 31,000 | 32,000 | 137,000 | 136,000 |
| **Jeremy Miles**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit hyd at 03/03/20<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd o 04/03/20 | 105,701 | 104,448 | 32,000 | 32,000 | 138,000 | 136,000 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 93,456 | 32,000 | 28,000 | 138,000 | 121,000 |
| **Ken Skates**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 104,448 | 31,000 | 32,000 | 137,000 | 136,000 |
| **Kirsty Williams**<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 104,448 | 29,000 | 31,000 | 135,000 | 135,000 |
| **Hannah Blythyn**<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 88,781 | 27,000 | 27,000 | 117,000 | 116,000 |
| **Dafydd Elis-Thomas**[3]<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 88,781 | 4,000 | 8,000 | 94,000 | 97,000 |
| **Jane Hutt**[5]<br>Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip | 89,846 | 26,491 | 32,000 | 17,000 | 122,000 | 43,000 |
| **Julie Morgan**[4 5]<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 26,491 | 18,000 | 10,000 | 108,000 | 36,000 |
| **Lee Waters**[5]<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 26,491 | 27,000 | 9,000 | 117,000 | 35,000 |
| **Alun Davies**<br>Ysgrifennydd Cabinet o 04/11/17 hyd at 13/12/18 | – | 73,282 | – | 20,000 | – | 93,000 |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Gweinidog rhwng 04/11/17 a 13/12/18 | – | 62,290 | – | 18,000 | – | 80,000 |
| **Y Gwir Anrh. Carwyn Jones**<br>Prif Weinidog hyd at 12/12/18 | – | 102,202 | – | 25,000 | – | 127,000 |

1 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

2 Mae cyflog y Prif Weinidog ar gyfer 2018-19 yn adlewyrchu ei benodiad ar 31 Rhagfyr 2018 ac yn nodi'r hyn yr oedd ganddo hawl iddo am ran o'r flwyddyn fel Prif Weinidog Cymru. Ar gyfer 2019-20 roedd y Prif Weinidog yn ei swydd am y flwyddyn gyfan, felly mae'r cyflog a ddatgelir yn adlewyrchu'r hawl i gyflog am y flwyddyn gyfan. Bydd y cynnydd mewn pensiwn o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn swydd Deiliaid Swyddi, yn ogystal â dyfarniadau cyflog arferol a chwyddiant.

3 Dim ond ar ei gyflog o £22,197 fel Deiliad Swydd y mae Dafydd Elis Thomas yn cronni pensiwn.

4 Cyfanswm enillion pensiynadwy Julie Morgan ar gyfer 2019-20 yw £59,898, gan nad yw bellach, ers mis Tachwedd 2019, yn cyfrannu i'r cynllun pensiwn.

5 Mae'r wybodaeth ar gyfer 2018-19 yn adlewyrchu'r ffaith mai ar 14 Rhagfyr 2018 y cychwynnwyd yn y swydd.

## Manylion pensiwn – Gweinidogion

| Gweinidogion | Pensiwn a Gronnwyd yn ôl oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/20 £000 | Pensiwn a Gronnwyd yn ôl oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/19 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar yr oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/20 £000 | CETV ar 31/03/19 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford**<br>Y Prif Weinidog | 20-25 | 20-25 | 2.5-5 | 489 | 411 | 57 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 218 | 187 | 12 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Weinidogion Cymru | 25-30 | 25-30 | 0-2.5 | 353 | 316 | 14 |
| **Lesley Griffiths**<br>Un o Weinidogion Cymru | 35-40 | 35-40 | 0-2.5 | 674 | 616 | 23 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 336 | 287 | 26 |
| **Jeremy Miles**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit hyd at 03/03/20<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd Pontio o 04/03/20 | 5-10 | 5-10 | 0-2.5 | 89 | 61 | 15 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru | 5-10 | 0-5 | 0-2.5 | 95 | 63 | 18 |
| **Ken Skates**<br>Un o Weinidogion Cymru | 15-20 | 10-15 | 0-2.5 | 196 | 166 | 12 |
| **Kirsty Williams**<br>Un o Weinidogion Cymru | 35-40 | 35-40 | 0-2.5 | 574 | 528 | 14 |
| **Hannah Blythyn**<br>Dirprwy Weinidog | 5-10 | 0-5 | 0-2.5 | 64 | 44 | 8 |
| **Dafydd Elis-Thomas**<br>Dirprwy Weinidog | 60-65 | 60-65 | 0-2.5 | 946 | 961 | 3 |
| **Jane Hutt**<br>Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip | 65-70 | 60-65 | 0-2.5 | 1133 | 1,117 | 26 |
| **Julie Morgan**<br>Dirprwy Weinidog | 10-15 | 10-15 | 0-2.5 | 206 | 195 | 11 |
| **Lee Waters**<br>Dirprwy Weinidog | 5-10 | 0-5 | 0-2.5 | 67 | 45 | 11 |
| **Alun Davies**<br>Ysgrifennydd Cabinet o 04/11/17 i 13/12/18 | – | 20-25 | – | – | 347 | – |
| **Huw Irranca-Davies**<br>Gweinidog rhwng 04/11/17 a 13/12/18 | – | 0-5 | – | – | 62 | – |
| **Y Gwir Anrh. Carwyn Jones**<br>Prif Weinidog hyd at 12/12/18 | – | 60-65 | – | – | 965 | – |

### Manylion pensiwn – Gweinidogion (parhad)

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig; mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio, ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ar hyn o bryd, mae'r Senedd yn cyfrannu 19.9% o gyflogau cyfanredol Aelodau. Mae Aelodau nad ydynt yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio yn talu cyfraniadau ar raddfa o 10.5%. Mae'r aelodau hynny sy'n cael eu diogelu yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6% neu 10% yn dibynnu ar p'un a ydynt yn cronni buddion ar sail croniad 50fed neu 40fed yn ôl eu trefn.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau (fel y nodir mewn cyfrifon blaenorol) yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r system a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad i hyn, gall ffactorau eraill fel unigolyn yn penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan ddylanwadu ar y ffigurau, ac felly nid ydynt bob tro yn adlewyrchu'n gywir symiau gwirioneddol y pensiwn a dalwyd neu a enillwyd gan unigolyn mewn blwyddyn. Er hynny, mae'r system hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2019-20 £000 | Cyflog 2018-19 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf ) 2019-20 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf ) 2018-19 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2019-20 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**[2]<br>Ysgrifennydd Parhaol | 130-135 | 130-135 | – | – | 130-135 | 130-135 |
| **Andrew Goodall**[3]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 200-205 | 200-205 | – | – | 200-205 | 200-205 |
| **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 120-125 | 115-120 | 50-55 | 50-55 | 170-175 | 170-175 |
| **Des Clifford**[1]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 120-125 | 115-120 | 25-30 | – | 150-155 | 115-120 |
| **Andrew Slade**[1]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 120-125 | 115-120 | 50-55 | – | 170-175 | 115-120 |
| **David Richards**<br>Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg | 105-110 | 100-105 | 25-30 | (5-10) | 130-135 | 95-100 |
| **Jeff Godfrey**[4]<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ac Aelod o'r Bwrdd hyd at 13/09/19 | 50-55 | 110-115 | 10-15 | (0-5) | 60-65 | 105-110 |
| **Helen Lentle**[4]<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol o 08/07/19<br>Aelod o'r Bwrdd o 13/09/19 | 65-70 | – | 90-95 | – | 160-165 | – |
| **Natalie Pearson**<br>Pennaeth y Strategaeth Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 75-80 | 75-80 | 20-25 | 0-5 | 100-105 | 80-85 |
| **Gillian Baranski** [6]<br>Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hyd at 31/08/19<br>Aelod o'r Bwrdd hyd at 05/07/19 | 30-35 | 120-125 | 15-20 | 15-20 | 50-55 | 140-145 |
| **Peter Kennedy**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 95-100 | 90-95 | 50-55 | 15-20 | 150-155 | 110-115 |
| **Gawain Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 100-105 | 100-105 | 45-50 | 40-45 | 150-155 | 140-145 |
| **Andrew Jeffreys**<br>Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru o 01/04/18, Hyrwyddwr Cydraddoldeb o 01/09/19, Aelod o'r Bwrdd o 13/09/19 | 95-100 | 95-100 | 35-40 | 35-40 | 135-140 | 130-135 |
| **Ann Keane**[5]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol hyd at 06/03/20 | 10-15 | 15-20 | – | – | 10-15 | 15-20 |
| **Ellen Donovan**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | – | – | 10-15 | 10-15 |
| **Jeff Farrar**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | – | – | 10-15 | 10-15 |

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2019-20 £000 | Cyflog 2018-19 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf ) 2019-20 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf ) 2018-19 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2019-20 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gareth Lynn** Cyfarwyddwr Anweithredol o 20/04/18 | 10-15 | 10-15 | – | – | 10-15 | 10-15 |
| **Elan Closs Stephens** Cyfarwyddwr Anweithredol hyd at 30/04/18 | – | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | – | – | – | 0-5 |
| **James Turner** Cyfarwyddwr Anweithredol hyd at 30/04/18 | – | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | – | – | – | 0-5 |

* Mae Uwch-swyddogion ar gyfer cyfanswm y ffigur ar gyfer datgeliadau taliadau cydnabyddiaeth yn aelodau o Fwrdd Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Gweithredol.

1 Nid yw'r budd pensiwn ar gyfer Des Clifford ac Andrew Slade wedi'i gynnwys uchod gan fod y cyfrifiad rhifyddeg £105,000-110,000 a £125,000-130,000 yn eu trefn yn ystumio cymariaethau rhwng blynyddoedd ym mlwyddyn codiad cyflog. Er nad yw'r rhifau a gyflwynir yn arwydd o'r budd gwirioneddol a gafwyd, mae'r fformat yn orfodol ac yn destun archwilio.

2 Dewisodd Shan Morgan elwa ar ei phensiwn ar 31 Mawrth 2018. Yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, gostyngwyd ei chyflog o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Ar gyfer 2019-20 dyfarnwyd bonws anghyfunol cysylltiedig â pherfformiad i'r Ysgrifennydd Parhaol ond ni chymerodd ef.

3 Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae wedi dewis peidio â chael ei gynnwys yn nhrefniadau pensiwn y GIG.

4 Bu Jeff Godfrey yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol tan 7 Gorffennaf 2019 ond arhosodd ar y Bwrdd tan 13 Medi 2019, a'i dâl FTE cymaradwy yw £110-115k y flwyddyn. Penodwyd Helen Lentle yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ar 8 Gorffennaf 2019 a'i thâl FTE cymaradwy yw £90-95k y flwyddyn.

5 Mae cyflog Ann Keane yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £564 (2018-19 £4,662) am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru. Ymddiswyddodd Ann Keane o'r Bwrdd ar 6 Mawrth 2020.

6 Mae'r cyflog a ddatgelir ar gyfer Gillian Baranski yn ymwneud â'i rôl fel Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r hyn a ddatgelir yn nhabl yr Uwch-swyddogion uchod yn ymwneud â'i gwasanaeth gwirfoddol ychwanegol fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru tan ei chyfarfod diwethaf o'r Bwrdd yn y rôl honno ar 5 Gorffennaf 2019. Rhoddodd Gillian y gorau i rôl yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar 31 Awst 2019.

## Manylion pensiwn

| Uwch-swyddogion | Pensiwn a gronnwyd ar yr oedran pensiwn fel y mae ar 31/03/20 £000 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn ôl oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/20 £000 | CETV ar 31/03/19 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**<br>Yr Ysgrifennydd Parhaol | – | – | – | – | – |
| **Andrew Goodall**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | – | – | – | – | – |
| **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 30-35 | 2.5 - 5 | 499 | 433 | 30 |
| **Des Clifford**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 35-40 a chyfandaliad o 105-110 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 812 | 744 | 29 |
| **Andrew Slade**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 45-50 a chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 782 | 717 | 26 |
| **David Richards**<br>Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 55-60 a chyfandaliad o 165-170 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 1,177 | 1,155 | 24 |
| **Jeff Godfrey**<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Aelod o'r Bwrdd hyd at 13/09/19 | 45-50 a chyfandaliad o 145-150 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 1,181 | 1,128 | 13 |
| **Helen Lentle**<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol o 08/07/19 Aelod o'r Bwrdd o 13/09/19 | 35-40 a chyfandaliad o 85-90 | 2.5-5 a chyfandaliad o 7.5-10 | 716 | 613 | 76 |
| **Natalie Pearson**<br>Pennaeth y Strategaeth Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 25-30 a chyfandaliad o 80-85 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 634 | 585 | 19 |
| **Gillian Baranski**<br>Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hyd at 31/08/19<br>Aelod o'r Bwrdd hyd at 05/07/19 | 25-30 | 0-2.5 | 586 | 561 | 20 |
| **Peter Kennedy**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 30-35 a chyfandaliad o 85-90 | 2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 715 | 643 | 39 |
| **Gawain Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 45-50 a chyfandaliad o 110-115 | 2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 922 | 848 | 31 |
| **Andrew Jeffreys**<br>Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru o 01/04/18, Hyrwyddwr Cydraddoldeb o 01/09/19, aelod o'r Bwrdd o 13/09/19 | 30-35 a chyfandaliad o 55-60 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 491 | 445 | 21 |

## Cyflog

'Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn ddarostyngedig i drethiant y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Caiff unrhyw daliadau a wneir eu talu ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Gwaith Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yw gweithredu polisi tâl uwch-weision y DU a chymeradwyo unrhyw ddyraniadau, asesu'r cyfraniadau perthnasol a pherfformiad Uwch-weision Sifil yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, un Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Roedd y manteision mewn nwyddau a aseswyd ar gyfer y flwyddyn 2019-20 yn £dim.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio'r cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2019-20 oedd £200,000-£205,000 (2018-19: £200,000-£205,000). Roedd hyn 5.6 gwaith (2018-19: 5.7) tâl canolrifol y gweithlu, sef £36,500 (2018-19: £35,750). Ar sail tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio yr Ysgrifennydd Parhaol y gymhareb yw 3.6 (2018-19: 3.7). Yn 2019-20 a 2018-19 ni chafodd unrhyw gyflogeion dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr y talwyd y swm uchaf iddo. Roedd y tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o £15,000 i £20,000 i £200,000-£205,000 (2018-19: £15,000-£20,000 i £200,000-£205,000).

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol ar sail perfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn gan gyflogwr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn – nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch, sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol | Staff Eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2019-20 | Cyfanswm 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **86,784** | **3,216** | **10** | **90,010** | **86,995** |
| O'r rhain: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 4,891 | 416 | 10 | 5,317 | 5,092 |
| BILlau a Chyrff y GIG* | 80,917 | 2,800 | – | 83,717 | 81,112 |
| Is-gwmnïau | 976 | – | – | 976 | 791 |

O gyfanswm Llywodraeth Cymru: Cyrff rheoleiddio a chyflawni – 725; Tribiwnlysoedd – 28.

* Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi'i gyfuno yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2019. Y flwyddyn flaenorol gymharol ar 31 Mawrth 2019 gan gynnwys AaGIC oedd 87,203.

### Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhywedd (heb eu harchwilio)

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 60% | 40% |
| Uwch Wasanaeth Sifil* | 57% | 43% |
| Pob Staff | 42% | 58% |

* Mae'n nod gan Lywodraeth Cymru i gael rhaniad o 50:50 erbyn 2020. Oherwydd niferoedd cymharol fach yn yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) mae'r ffigur yn amrywio'n eithaf sylweddol yn seiliedig ar niferoedd bach yn dod i mewn neu'n gadael. Yng nghyd-destun trosiant cyfyngedig yn y SCS, mae'r newid yn araf ac nid yw'r targed wedi bod yn gyraeddadwy.

Mae canrannau'r menywod ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr, sef 45%, yn nes at y targed ac o ystyried dilyniant a throsiant rhagwelwyd y byddai newid yn cael ei weld yn gyntaf ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr. Yn ogystal, mae cynnydd da hefyd yn cael ei wneud yn y graddau bwydo 6 a 7 islaw'r SCS. Mae ein Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2025 wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae ymgysylltu â staff yn digwydd ar hyn o bryd, gan gynnwys ystyried y dull o bennu targedau a dulliau cyfreithlon y gallwn eu defnyddio i geisio cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Costau staff

| | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol* £m | Staff Eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Cyflogau | 221 | 12 | **233** | 214 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 25 | – | **25** | 24 |
| Costau Pensiwn Eraill | 62 | – | **62** | 54 |
| **Cyfanswm** | **308** | **12** | **320** | **292** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | – | **(2)** | (3) |
| **Costau staff net** | **306** | **12** | **318** | **289** |
| **Wedi'u cyfuno** | | | | |
| Cyflogau | 3,374 | 231 | **3,605** | 3,381 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 336 | 1 | **337** | 317 |
| Costau Pensiwn Eraill | 617 | – | **617** | 427 |
| **Cyfanswm** | **4,327** | **232** | **4,559** | **4,125** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | – | **(2)** | (2) |
| **Costau staff net** | **4,325** | **232** | **4,557** | **4,123** |

* Er iddo gael ei nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, cynhwysir cyflog/nawdd cymdeithasol/costau pensiwn Cynghorwyr Arbennig o fewn y ffigurau costau Staff a Gyflogir yn Barhaol.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau swyddfa breifat.

Talwyd cyfanswm o £835,840 i gynghorwyr arbennig (2018-19: £814,069) am y flwyddyn, gan gynnwys costau pensiwn a nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Cafodd £60,648 o daliadau diswyddo a dalwyd i Gynghorwyr Arbennig a ailbenodwyd eu hadennill yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig. Roedd 15 o Gynghorwyr Arbennig yn eu swyddi ar gyfer y cyfan neu ran o flwyddyn ariannol 2019-20, sy'n cyfateb i 10 cyfwerth ag amser llawn cyfartalog, fel y nodir yn y tabl uchod.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Caiff cyflogau Gweinidogion Cymru eu talu gan Gomisiwn y Senedd a'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny. O ran nifer y staff sydd â chyflog dros £100k, roedd 29 o staff yr oedd eu cyflog FTE yn uwch na £100k ar 31 Mawrth. O'r rhain, roedd 3 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion felly o dan y trothwy o £100k ac fe ymadawodd un ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn.

## Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun **alpha**. O dan y cynllun hwnnw, darperir buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system bensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic, premium** neu **classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un adran sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan swyddog fuddion PCSPS a buddion **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn seiliedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau **classic premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/80eg o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/60eg o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig; hybrid yw **classic plus** i bob pwrpas gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel ar gyfer **classic** a buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos **premium**. Yn **novos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn sydd wedi'i ennill gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y cynnydd mewn pensiynau. Mae buddion yn **aplha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partnership**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai oddi wrth y darparwr penodedig – Legal and General. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium** a **classic plus**, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun nuvos, a naill ai 65 neu eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**, p'un bynnag sydd uchaf. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'Alpha' – yn gynlluniau buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y cynllun gan Actiwari'r Cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2019-20, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £55,974,742 yn daladwy i'r PCSPS/Alpha(2018-19: £40,674,217) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.3 i 30.3 y cant (2018-19: 20.0 i 24.5) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2019-20 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partnership, sef pensiwn cyfranddeiliaid lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £228,556 (2018-19: £194,560) eu talu i un aelod neu ragor o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 o 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £7,908.06, 0.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partnership ar ddyddiad y fantolen (2018-19: dim) Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2018-19: £dim).

Ymddeolodd pedwar unigolyn yn gynnar ar sail afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn oedd £1,446.

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn eu ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymdddiriedolaethau'r GIG yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Ni chafwyd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar yn 2019-20. Ar gyfer 2018-19 roedd rhaglen dreigl o gynlluniau ymadael gwirfoddol yn bodoli, ond yn 2019-20 dim ond trefniadau ymadael unigol oedd ar waith. Ar gyfer pob ymadawiad gwirfoddol unigol, cyfrifir cyfnod ad-dalu a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Ar gyfer 2019-20: mae 13 (2018-19: 154) o gyflogeion wedi gadael neu wedi cytuno i ymadael yn wirfoddol neu resymau eraill rhwng 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £259,066 (2018-19: £5,890,654).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun gorfodol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2019-20 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | | | | |
| <£10,000 | – | 5 | 5 | 3 |
| £10,000 – £25,000 | – | 4 | 4 | 60 |
| £25,000 – £50,000 | – | 2 | 2 | 48 |
| £50,000 – £100,000 | – | 2 | 2 | 43 |
| £100,000 – £150,000 | – | – | – | – |
| £150,000 – £200,000 | – | – | – | – |
| £200,000+ | – | – | – | – |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **–** | **13** | **13** | **154** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **–** | **259,066** | **259,066** | **5,890,564** |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm costau'r pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cyfrifir amdanynt yn 2019-20 (dangosir costau cymharol 2018-19 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2019-20, y flwyddyn ymadael, oedd £5,829,912 (2018-19: £319,806).

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Mae'r mesurau a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, megis y Strategaeth Iechyd a Llesiant a'r Awr Lesiant, wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghyfanswm nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch, gyda gostyngiad dilynol o 13% yn y diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd.

Mae nifer y staff sy'n cymryd dim absenoldeb salwch yn parhau i gynyddu o ganlyniad i'n hymyriadau cadarnhaol. Mae'r cynnydd yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb tymor byr yn dangos effaith gadarnhaol y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag absenoldeb hirdymor gan fod staff yn dychwelyd i'r gwaith yn gynharach nag y byddent wedi'i wneud o'r blaen.

Disgwylir i'n hymgyrch barhaus i gefnogi rheolwyr a staff drwy'r cylch absenoldeb a rhoi iddynt y cyngor a'r offer sydd eu hangen i'w cefnogi i ddychwelyd i'r gwaith arwain at ostyngiadau yn absenoldeb hirdymor a thymor byr yn y flwyddyn i ddod. Disgwylir hefyd i'n hymdrech i gynyddu gweithio gartref a gweithio'n glyfar, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng COVID-19, gael effaith gadarnhaol ar lefelau absenoldeb.

| Absenoldeb Salwch yn Llywodraeth Cymru | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 18,321 | 16,525 | 17,818 | 17,354 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 17,291 | 23,840 | 22,627 | 22,876 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (cyfnod o 12 mis)** | **35,612** | **40,386** | **40,445** | **40,230** |
| Cyfanswm blynyddoedd staff | 5,186 | 5,098 | 5,035 | 5,155 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 5,920 | 5,770 | 5,682 | 5,691 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 2,977 | 2,826 | 2,490 | 2,529 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 50% | 49% | 44% | 44% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 6.87 | 7.9 | 8 | 7.8 |

## Datgeliadau Rhwymedigaethau

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau o £300,000 a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

| Datganiad Colledion | 2019-20 | 2018-19 |
| --- | --- | --- |
| Cyfanswm y colledion | 214 | 194 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 61,864 | 15,259 |

Manylion y colledion dros £300,000:

| | | |
| --- | --- | --- |
| Colledion storfeydd | Stociau cyffuriau wedi dod i ben | £2,316,778 |
| Hawliadau a adawyd | Corfforaeth Datblygu Blaenau'r Cymoedd | £14,909,000 |
| Colled ddeongliadol | Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd tanysgrifennu gwariant hanesyddol | £43,064,011 |

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 4 Mehefin 2019 na fyddid yn bwrw ymlaen â phrosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd, aseswyd nad oes gwerth i £43.1m o gostau cyfalafedig yn y dyfodol.

| Taliadau Arbennig | 2019-20 | 2018-19 |
| --- | --- | --- |
| Cyfanswm nifer y Taliadau Arbennig | 13 | 10 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 188 | 23 |

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

| | Y gyllideb 2019-20 Gwariant net £m | Alldro 2019-20 Gwariant net £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| **CWMPAS** | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,815 | 8,639 | 176 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 4,559 | 4,585 | (26) |
| Addysg | 2,892 | 2,657 | 235 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,432 | 1,397 | 35 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 385 | 372 | 13 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 285 | 284 | 1 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 181 | 179 | 2 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **18,549** | **18,113** | **436** |
| **Incwm** | **1,758** | **1,499** | **259** |
| **Gwariant gros** | **20,307** | **19,612** | **695** |

## Esboniad o'r amrywiannau

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – tanwariant o £175.8m

Mae'r tanwariant yn cynnwys diffyg net o £88.7m yn y GIG yng Nghymru. Gwrthbwyswyd y diffyg gan gyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a ddelir yn ganolog o fewn y MEG a oedd yn lleihau'r effaith ar gyllideb y DEL Refeniw. Mae gweddill y diffyg yn y gyllideb refeniw o £5.1m yn deillio o'r cynnydd annisgwyl mewn costau presgribsiynau cyn cyfnod y cyfyngiadau. Arafodd y pandemig gynlluniau cyfalaf y GIG gan arwain at danwariant cyfalaf o £1.1m. Fodd bynnag, roedd elfen bwysicaf y tanwariant o ganlyniad i amrywiant o £133m yn y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud yn bennaf â darpariaethau'r GIG y cydnabyddir eu bod yn gyfnewidiol ac yn anodd eu rhagweld. Mae'r tanwariant o £133m yn cynnwys tanwariant o £53m yn narpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer esgeulustod meddygol a hawliadau am anafiadau personol. Hefyd, arweiniodd prisiadau annibynnol o ystad y GIG yn ystod y flwyddyn at amhariadau is na'r disgwyl a thanwariant AME arall gwerth £30m. Bydd rhywfaint o'r gwariant cysylltiedig yn cael ei ysgwyddo yn 2020-21.

### Tai a Llywodraeth Leol – Gorwariant o £25.9m

Mae'r gorwariant yn cynnwys £4.6m ar y gyllideb refeniw a disgwylir iddo gael cymorth ychwanegol drwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys a'r Gronfa Cymorth Dewisol a nodwyd ar ôl yr ail gyllideb atodol. Darparwyd yr arian yn sgil difrod llifogydd a achoswyd gan y stormydd a effeithiodd ar Gymru ddechrau 2020. Fe wnaeth costau ychwanegol yr awdurdodau lleol ym mis Mawrth mewn ymateb i'r pandemig gynyddu'r pwysau ar gyllidebau refeniw ymhellach. Fodd bynnag, roedd prif elfen y gorwariant yn effeithio'n bennaf ar gyfran AME y gyllideb ac mae'n ymwneud â thybiaethau gwerth teg ar lyfr benthyciadau Cymorth i Brynu Cymru. Mae ymgorffori rhagdybiaethau ynghylch effaith pandemig yn y model wedi arwain at golli gwerth o £23m a chost ddilynol i'r MEG.

### Yr Economi a Thrafnidiaeth – tanwariant o £35m

Cafodd cyllideb refeniw'r Economi a Thrafnidiaeth ei heffeithio gan yr ymateb i'r pandemig. Adroddwyd am orwariant o £41m ar gyllidebau refeniw yn sgil ad-dalu taliadau awdurdodau lleol i ddarparu grantiau i fusnesau bach a manwerthu, hamdden a lletygarwch a weinyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Tanwariwyd y gyllideb gyfalaf o £34.7m a oedd yn cynnwys llithriant ar gymorth rhaglen TGCh a chynlluniau teithio llesol lleol awdurdodau lleol. O fewn yr amrywiant mae tanwariant o £30.8m sy'n ymwneud â darpariaethau cyfrifyddu sy'n anodd eu rhagweld. Yn gyntaf, ar ddarpariaeth bensiwn Gyrfa Cymru sy'n seiliedig ar brisiad actiwaraidd. Mae'r swm hwn wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn llawer llai na'r disgwyl eleni. Mae gweddill y tanwariant yn gysylltiedig â phrisiadau eiddo sydd unwaith eto'n dod o dan y gyllideb AME.

### Addysg – tanwariant o £235.3m

Mae'r portffolio Addysg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyllidebau benthyciadau myfyrwyr sy'n cael eu harwain gan y galw ac sy'n anodd eu rhagweld. Felly, mae'r tanwariant bron yn gyfan gwbl i'w briodoli i'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol ac AME. Ym mlwyddyn y cyfrif roedd y gyllideb yn cynnwys lefel fawr o arian wrth gefn i ddiogelu rhag effeithiau sy'n deillio o'r ansicrwydd sy'n ymwneud â Brexit a chanlyniad yr etholiad cyffredinol. Ni wireddwyd yr angen ar gyfer y gronfa wrth gefn lawn.

### Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg – tanwariant o £1.5m

Mae amrywiannau bach ar gyllidebau refeniw a chyfalaf. Tanwariwyd £1.1m ar gyllideb dibrisiant Cadw (DEL Adnoddau Anghyllidol) oherwydd oedi mewn gwaith cadwraeth a phrosiectau mawr, a hynny sydd i'w gyfrif am y rhan fwyaf o'r tanwariant.

### Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig – tanwariant o £1.3m

Y prif reswm dros y tanwariant bach yn y portffolio oedd llithriant ar gyllidebau DEL refeniw yn enwedig y gyllideb Ansawdd Aer a Chydymffurfiaeth.

### Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - tanwariant o £12.5m

Yn ystod y flwyddyn darparwyd cyllid benthyciadau cyfalaf i sefydlu dau gynllun, y Gronfa Asedau Cymunedol (£1m) a'r Gronfa Buddsoddi Cymdeithasol (£3.5m). Ni ellid sefydlu'r naill gynllun na'r llall mewn pryd i ddefnyddio'r cyllid yn 2019-20. Mae'n anodd rhagweld y ddarpariaeth ar gyfer cyflogeion yng nghynllun pensiwn Rhondda Cynon Taf ac o ganlyniad roedd y gyllideb AME yn tanwario £3.9m ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd cyllidebau dibrisiant (DEL Adnoddau Anghyllidol) ar gyfer ystad Llywodraeth Cymru hefyd wedi'u tanwario £1.4m.

### Incwm – £259.0m o dan y gyllideb

Mae'r rhan fwyaf o'r amrywiant incwm yn gysylltiedig â derbyniadau'r UE. Mae amseru derbyniadau gan yr UE ar raglenni aml-flwyddyn yn ei gwneud yn anodd rhagweld yr alldro. O ganlyniad, pennir y cyllidebau i sicrhau eu bod yn darparu mwy na darpariaeth ddigonol mewn unrhyw flwyddyn i sicrhau na chollir unrhyw arian i Gymru.

## Rhestr termau'r gyllideb

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Mae'r DEL wedi'i rannu'n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

**DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw):** Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n dangos y rhan fwyaf o wariant cyfredol Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys costau staff, grantiau a threuliau eraill.

**DEL Adnoddau Anghyllidol:** Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn dangos gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amhariadau a dibrisiant penodol. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

**DEL Cyfalaf:** Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, ar y cyfan, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr a/neu yn ymateb i'r galw.

# Nodiadau

| Gofyniad arian parod net | Alldro 2019-20 £m | Alldro 2018-19 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w roi o Gronfa Gyfunol Cymru | 17,311 | 16,314 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr | (16,901) | (16,108) |
| Cyllid heb ei dynnu i lawr | 410 | 206 |

| Cysoni'r alldro a CSoCNE | Alldro 2019-20 £m | Alldro 2019-20 £m |
|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | 18,114 | 16,806 |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (2,225) | (1,618) |
| Plws: Addasiad Cyfuno | 15 | – |
| Plws: Addasiad NDR | 29 | 48 |
| Plws: Addasiadau eraill | 8 | 6 |
| Gwariant yn unol â CSoCNE | 15,941 | 15,242 |

| Cysoni adnoddau i'r gofyniad arian parod | Y gyllideb 2019-20 £m | Alldro 2019-20 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2018-19 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **18,549** | **18,113** | **436** | **16,806** |
| Dibrisiant | (477) | (428) | (49) | (346) |
| Amhariadau | (638) | (400) | -238 | (238) |
| Symudiadau mewn darpariaethau | (196) | (198) | 2 | (48) |
| Arall | 73 | (218) | 291 | 17 |
| **Gofyniad arian parod net** | **17,311** | **16,869** | **442** | **16,108** |

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**

# Tystysgrif ac adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Senedd Cymru

## Barn Amodol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyfunol y Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Cyfunol y Sefyllfa Ariannol, Datganiad Cyfunol Llifoedd Arian, Datganiad y Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a eglurir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol ynghyd â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Rwyf hefyd wedi archwilio Datganiad yr Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi cael ei harchwilio.

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau'r mater a ddisgrifir yn yr adran 'Sail dros farn amodol' yn fy adroddiad, mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2020, y gost gweithredu net a'r llifoedd arian parod am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Sail dros farn amodol

Yn fy marn i, fe wnaeth y cyhoeddiadau a'r camau a gymerwyd cyn 31 Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, er mwyn sicrhau bod arian parod yn cael ei dalu i fusnesau cyn gynted â phosibl, greu rhwymedigaeth ddeongliadol o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37, *Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol*, a dylai'r costau cysylltiedig fod wedi cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20. Mae cofnodion Llywodraeth Cymru yn nodi, pe bai costau o'r fath wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol, y byddai'r gwariant a'r darpariaethau wedi cynyddu o £739 miliwn. Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad amgaeedig.

## Barn amodol ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r gwariant gormodol a ddisgrifir yn yr adran 'Sail dros farn amodol ar reoleidd-dra' yn fy adroddiad, ym mhob agwedd o bwys:

- mae'r Datganiad o Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y terfyn awdurdodedig ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020; ac
- mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Sail dros farn amodol ar reoleidd-dra

Awdurdododd y Senedd derfyn adnoddau a chyfalaf net ar gyfer Llywodraeth Cymru o £18.549 biliwn. Yn erbyn y terfyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd ei bod wedi mynd i alldro gwirioneddol o £18.113 biliwn, gyda thanwariant net o £436 miliwn. Fodd bynnag, dylai'r gwariant o £739 miliwn, y cyfeirir ato yn y paragraff 'Sail dros farn amodol' uchod, fod wedi cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol ac yn y Datganiad o Alldro Adnoddau. Dylai fod y datganiad yma wedi dangos bod y Llywodraeth wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn gwariant net awdurdodedig a gafodd ei awdurdodi gan y Senedd ar gyfer 2019-20 o £303 miliwn a'i fod felly'n afreolaidd. Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad amgaeedig.

## Sail y Barnau

Cynhelais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol ynghyd â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a dderbyniais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Pwyslais ar fater – rhwymedigaethau treth bensiwn Clinigwyr y GIG

Tynnaf sylw at Nodyn 12 o'r datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a roddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth bensiwn Clinigwyr y GIG a achoswyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgelu bodolaeth rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar 31 Mawrth 2020, ac nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol, y mae'r ISAs (DU) yn gofyn imi adrodd wrthych yn eu cylch, lle:

- nad yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a nodwyd, a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Nid yw'r ddeddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn y cyfrifon cyfunol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn y cyfrifon cyfunol ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai a archwiliwyd, y datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad.

Gyda golwg ar f'archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn canfod pethau o bwys sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig, a nodi unrhyw wybodaeth sydd, i bob golwg, yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaf yn ymwybodol o'r hyn sy'n ymddangos yn gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer f'adroddiad.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Gan nad yw'r ddeddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod Rhan 1 a Rhan 2 o'r cyfrifon cyfunol wedi'u paratoi'n briodol.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod f'archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r cyfrifon cyfunol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofyn deddfwriaethol am Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer, wedi ei pharatoi yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

### Materion yr adroddaf amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd, a gasglwyd gennyf yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn Rhan 1 na Rhan 2 o'r cyfrifon cyfunol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd gyda golwg ar y materion canlynol, y byddwn yn adrodd amdanynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i gael ei harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EM ynghylch y gydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer f'archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghyd â Schyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed yno. Mae'n gyfrifol am ei fodloni ei hun eu bod

yn rhoi darlun cywir a theg ac yn gyfrifol hefyd am y cyfryw reolaeth fewnol ag y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu oherwydd camgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol, onid ystyrir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw caffael sicrwydd rhesymol p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd neu beidio o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu oherwydd camgymeriad, a rhoi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd un yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu o gamgymeriad ac fe'u hystyrir o bwys os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad f'archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal a chadw ei gwefan a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.**

## Adroddiad

Gweler fy Adroddiad ar dudalennau 103 - 104 mewn perthynas â'm barnau amodol.

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
30 Hydref 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Grantiau i fusnesau (mewn perthynas â COVID-19)

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 y gallai busnesau cymwys ddisgwyl cael cymorth wrth ymateb i effeithiau uniongyrchol y pandemig COVID-19. Byddai busnesau oedd yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain yn derbyn grant o £10,000 a byddai rhai busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn derbyn grant o £25,000. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r cynlluniau; caiff taliadau i fusnesau eu gweinyddu gan awdurdodau lleol.

## Barn Amodol ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, fe wnaeth y cyhoeddiadau a'r camau a gymerwyd cyn 31 Mawrth 2020, i sicrhau bod arian parod yn cael ei dalu i fusnesau cyn gynted â phosibl, greu rhwymedigaeth ddeongliadol o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37, *Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol*, a dylai'r costau cysylltiedig fod wedi cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20. Yn ôl cofnodion Llywodraeth Cymru, pe bai costau o'r fath wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol, byddai'r gwariant a'r darpariaethau wedi cynyddu o £739 miliwn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r safbwynt yma ac mae wedi gwrthod cynnwys y gwariant hwn yn natganiadau ariannol 2019-20.

Amodol yw fy marn ar y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r camddatganiad sylweddol hwn.

## Barn Amodol ar reoleidd-dra

Awdurdodir gwariant net Llywodraeth Cymru gan y Senedd drwy gynigion cyllidebol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi ac yn cytuno ar gynigion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys Datganiad o Alldro Adnoddau gyda'i datganiadau ariannol sy'n nodi ei gwariant net gwirioneddol yn erbyn yr hyn a gymeradwywyd gan y Senedd drwy gynigion cyllidebol. Mae hwn yn ddatganiad hanfodol i adlewyrchu atebolrwydd Gweinidogion Cymru i'r Senedd.

Ar gyfer 2019-20, yn ogystal â'r prif gynnig cyllidebol, paratowyd dau gynnig cyllideb atodol yn ystod y flwyddyn. Paratowyd yr ail ym mis Chwefror 2020, oedd cyn diwedd y flwyddyn a chyn i Sefydliad Iechyd y Byd ddatgan bod COVID-19 yn bandemig. Ar adeg cyflwyno'r Ail Gynnig Cyllideb Atodol i'r Senedd, ni fyddai Llywodraeth Cymru wedi bod mewn sefyllfa i asesu effaith y pandemig COVID-19 na'r camau brys y byddai angen iddi eu cymryd i gefnogi'r economi.

Ar gyfer 2019-20, awdurdododd y Senedd derfyn gwariant net o £18.549 biliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn erbyn y terfyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd yn y Datganiad o Alldro Adnoddau ei bod wedi mynd i alldro gwirioneddol o £18.113 biliwn, gyda thanwariant net o £436 miliwn. Fodd bynnag, dylai'r gwariant o £739 miliwn, oedd yn codi o'r ymrwymiad grantiau busnes, fod wedi cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol ac yn y Datganiad o Alldro Adnoddau. Yn fy marn, dylai'r Datganiad hwn fod wedi dangos bod Llywodraeth Cymru wedi mynd tu hwnt i'r terfyn gwariant a gafodd ei awdurdodi gan y senedd ar gyfer 2019-20 o £303 miliwn ac felly'n afreolaidd. Rydw i o ganlyniad wedi amodi fy marn reoleidd-dra.

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

**Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal a chadw ei gwefan a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.**

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
30 Hydref 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Rhan 3

## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) o 1 Ebrill 2019 a Trafnidiaeth Cymru ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o 1 Ebrill 2018 fel cyrff sydd newydd gael eu cyfuno.

## Datganiad cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (41) | (57) | (43) | (57) |
| Incwm gweithredol arall | 2 | (1,096) | (1,478) | (650) | (1,005) |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **(1,137)** | **(1,535)** | **(693)** | **(1,062)** |
| Costau staff | 3 | 318 | 4,557 | 289 | 4,122 |
| Gwariant | 3 | 17,219 | 12,693 | 15,679 | 11,985 |
| Cost darpariaeth | 3 | 203 | 226 | 159 | 197 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **17,740** | **17,476** | **16,127** | **16,304** |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **16,603** | **15,941** | **15,434** | **15,242** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:** Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | (544) | (2,398) | (613) | (626) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | | (1) | (4) | 13 | 16 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **16,058** | **13,539** | **14,834** | **14,632** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 109 i 155 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad wedi'i Gyfuno o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 18,106 | 24,163 | 17,715 | 21,242 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 22 | 67 | 29 | 63 |
| Asedau ariannol | 6 | 5,129 | 4,239 | 4,530 | 3,817 |
| Symiau masnachol a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 22 | 135 | 27 | 117 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **23,279** | **28,604** | **22,301** | **25,239** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel 'mewn llaw i'w gwerthu' | | – | 3 | – | 3 |
| Asedau ariannol | 6 | 169 | 169 | 173 | 173 |
| Stocrestri | 7 | 191 | 275 | 187 | 261 |
| Symiau masnachol a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 344 | 505 | 256 | 409 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 107 | 839 | 107 | 698 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **811** | **1,791** | **723** | **1,544** |
| **Cyfanswm asedau** | | **24,090** | **30,395** | **23,024** | **26,783** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 10 | (1,277) | (2,131) | (980) | (1,787) |
| Darpariaethau | 11 | (277) | (318) | (295) | (347) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | – | (2) | – | (1) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,554)** | **(2,451)** | **(1,275)** | **(2,135)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **22,536** | **27,944** | **21,749** | **24,648** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 10 | (86) | (145) | (96) | (154) |
| Darpariaethau | 11 | (973) | (1,021) | (885) | (931) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | (65) | (107) | (65) | (101) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,124)** | **(1,273)** | **(1,046)** | **(1,186)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfanswm** | | **21,412** | **26,671** | **20,703** | **23,462** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 11,634 | 14,517 | 11,518 | 13,741 |
| Cronfa ailbrisiadau | | 9,778 | 12,154 | 9,185 | 9,721 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **21,412** | **26,671** | **20,703** | **23,462** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 109 i 155 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
28 Hydref 2020

# Datganiad wedi'i Gyfuno o Lifoedd Arian Parod
## Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredol:** | | | | | |
| Gwariant gweithredol net | | (16,603) | (15,941) | (15,434) | (15,242) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (106) | (137) | (117) | (151) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod[2] | | 698 | 536 | 464 | 854 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | 14 | 193 | 196 | 51 | 14 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (32) | (32) | 11 | 11 |
| Arall | | (1) | (3) | 6 | – |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(15,851)** | **(15,381)** | **(15,019)** | **(14,514)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | (201) | (688) | (274) | (676) |
| Prynu asedau nad ydynt yn ddiriaethol | | – | (19) | – | (10) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo offer a chyfarpar | | 4 | 10 | 3 | 5 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 2 | 2 | 6 | 6 |
| Prynu asedau datblygu | | (26) | (26) | (20) | (20) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (984) | (892) | (934) | (797) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 146 | 180 | 131 | 132 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,059)** | **(1,433)** | **(1,088)** | **(1,360)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru | | 16,901 | 16,901 | 16,108 | 16,108 |
| Ychwanegiadau Grant Gohiriedig yr UE | | – | 36 | – | – |
| Diddordeb Lleiafrifol | | – | – | – | 3 |
| Elfen gyfalaf PFI a Lesoedd Cyllid | | (10) | (7) | (10) | (10) |
| **Cyllido Net** | | **16,891** | **16,930** | **16,098** | **16,101** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(19)** | **116** | **(9)** | **227** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | 19 | 19 | (11) | (11) |
| Balansau arian parod Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | | – | 6 | – | 38 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | **9** | **–** | **141** | **(20)** | **254** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **107** | **698** | **127** | **444** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **107** | **839** | **107** | **698** |

[1] Mae balansau arian parod Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer AaGIC ac 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Trafnidiaeth Cymru.

[2] Yn cynnwys addasiad yn y Grŵp am grant cyfalaf dim arian parod o £469.8m dim ar gyfer caffael Llinellau Craidd y Cymoedd. Gweler Nodyn 4.1 am fwy o fanylion. Mae'r Nodiadau ar dudalennau 109 i 155 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

## Grŵp Llywodraeth Cymru

| | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **12,767** | **9,133** | **21,900** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | 15 | 37 | 52 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 16,108 | – | 16,108 |
| Gwariant net am y flwyddyn | (15,242) | – | (15,242) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 626 | 626 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 66 | (66) | – |
| Addasiadau eraill | 27 | (9) | 18 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **13,741** | **9,721** | **23,462** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | 4 | – | 4 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 16,901 | – | 16,901 |
| Gwariant net am y flwyddyn | (15,941) | – | (15,941) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 2,398 | 2,398 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | (35) | 35 | – |
| Addasiadau eraill | (153) | – | (153) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **14,517** | **12,154** | **26,671** |

## Craidd Llywodraeth Cymru

| | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **10,802** | **8,631** | **19,433** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 16,108 | – | 16,108 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (15,434) | – | (15,434) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | – | 613 | 613 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | 51 | (51) | – |
| Addasiadau eraill | (9) | (8) | (17) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **11,518** | **9,185** | **20,703** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – ariannu net | 16,901 | – | 16,901 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (16,603) | - | (16,603) |
| Enillion a cholledion ailbrisios | – | 544 | 544 |
| Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth gefn | (49) | 49 | – |
| Addasiadau eraill | (133) | – | (133) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **11,634** | **9,778** | **21,412** |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer AaGIC ac 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 109 i 155 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg wedi'i ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Cynhwysir y Crynodeb o Alldro sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i gost weithredol net, ac adnoddau i'r gofyniad am arian parod yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo buddsoddi, eiddo, offer a chyfarpar a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno'n cynnwys ymgymeriadau is-gorff fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y llywodraeth lle y'u dynodir i'w cyfuno trwy offeryn statudol, a lle maent yn uwch na throthwy de minimis i fod yn berthnasol. Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys ymgymeriadau is-gwmni yn uwch na throthwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno yn unig os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Caiff cymorthdaliadau eu cydgrynhoi o gyfrifon drafft lle nad oes cyfrifon terfynol ar gael.
Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn – gweler tudalen 15.

### 1.3 Pontio'r UE

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i ymadael â'r UE yn unol ag Erthygl 50. Ar 31 Ionawr 2020, daeth y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE yn gyfreithiol rwymol a gadawodd y DU yr UE. Bydd y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol yn cael ei phennu gan drafodaethau sy'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod pontio a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r prisiadau asedau yn y cyfrifon hyn sy'n defnyddio amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, megis prisiad Benthyciadau Myfyrwyr, yn tybio y bydd y broses drosglwyddo yn un drefnus.

## 2. Incwm Gweithredu

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 32 | 32 | 35 | 35 |
| Arall | 9 | 25 | 8 | 22 |
| | **41** | **57** | **43** | **57** |
| **Incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Incwm iechyd | 55 | 402 | 47 | 392 |
| Arall | 491 | 496 | 16 | 26 |
| | **546** | **898** | **63** | **418** |
| **Incwm gweithredu arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 224 | 254 | 258 | 258 |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin | 319 | 319 | 322 | 322 |
| Incwm arall yr UE | 7 | 7 | 7 | 7 |
| | **550** | **580** | **587** | **587** |
| | **1,137** | **1,535** | **693** | **1,062** |

## 3. Gwariant

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[1] | 16,386 | 7,676 | 14,946 | 7,572 |
| Nwyddau a gwasanaethau[1] | 281 | 4,126 | 332 | 3,787 |
| Rhentu o dan lesoedd gweithredu | 18 | 18 | 17 | 17 |
| Costau staff | 318 | 4,557 | 289 | 4,122 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 13 | 22 | 14 | 14 |
| Dileadau dan y polisi benthyciadau myfyrwyr | 30 | 30 | 21 | 21 |
| Enillion/(colledion) gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE[2] | 175 | 208 | 157 | 157 |
| Dibrisiant Asedau Sefydlog | 217 | 407 | 155 | 334 |
| Amorteiddio | 7 | 21 | 10 | 22 |
| Asedau sydd wedi'u rhoi gan y Llywodraeth | – | (7) | – | (7) |
| Amhariadau | 91 | 192 | 18 | 60 |
| (Elw)/Colled ar warediadau | 1 | (4) | 10 | 9 |
| Cyllid Pensiwn | (2) | 2 | (3) | (3) |
| Rhyddhau grant yr UE | (1) | (1) | – | – |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 3 | 3 | 2 | 2 |
| | **17,537** | **17,250** | **15,968** | **16,107** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 203 | 226 | 159 | 197 |
| | **17,740** | **17,476** | **16,127** | **16,304** |

[1] Mae gwariant ar Grantiau a Nwyddau a Gwasanaethau yn adlewyrchu dyraniad Alldro Adnoddau Cwmpasoedd.

[2] Caiff Benthyciadau Myfyrwyr a Chymorth i Brynu Asedau Ariannol Cymru eu mesur fel Gwerth Teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### Costau staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon ar dudalen 87.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol am osod barn am ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yw £359,000 (£368,703 2018-19) ac mae wedi'i gynnwys yn Nwyddau a Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £ | Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 £ |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG | 30,000 | 28,274 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 8,700 | 8,359 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 11,445 | 9,500 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 16,475 | 16,475 |
| Technoleg Gwybodaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 47,389 | – |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Asedau Rhwydwaith £m gweler Nodyn 4.1 | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Technoleg Gwybodaeth Gosodiadau a Ffitiadau £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 18,732 | 391 | 2,532 | 859 | 816 | 23,330 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | – | 27 | 76 | 211 | 27 | 341 |
| Ychwanegiadau | 66 | 1 | 42 | 110 | 472 | 691 |
| Gwarediadau | (66) | (1) | (3) | (58) | - | (128) |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | 1 | 1 |
| Amhariadau | – | 1 | (46) | (8) | (3) | (56) |
| Ailbrisiadau | 713 | 6 | 8 | – | – | 727 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | – | (1) | (1) | – | – | (2) |
| Ailddosbarthu | 2 | 3 | 120 | 16 | (166) | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **19,447** | **427** | **2,728** | **1,130** | **1,147** | **24,879** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 (wedi'i ailddatgan) | 2,474 | – | 135 | 577 | 2 | 3,188 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | – | – | 7 | 129 | – | 136 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 147 | – | 94 | 96 | – | 337 |
| Gwarediadau | (66) | – | (1) | (58) | – | (125) |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | – | – |
| Amhariadau | – | – | (3) | – | – | (3) |
| Ailbrisiadau | 105 | – | (1) | – | – | 104 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **2,660** | **–** | **231** | **744** | **2** | **3,637** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2019** | **16,787** | **427** | **2,497** | **386** | **1,145** | **21,242** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2018 (wedi'i ailddatgan) | 16,258 | 391 | 2,397 | 282 | 814 | 20,142 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019** | | | | | | |
| Ym mherchnogaeth | 16,325 | 424 | 2,318 | 384 | 1,145 | 20,596 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | – | – | 2 | 2 | – | 4 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 462 | 3 | 117 | – | – | 642 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **16,787** | **427** | **2,497** | **386** | **1,145** | **21,242** |

# 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

| | Asedau Rhwydwaith £m gweler Nodyn 4.1 | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Technoleg Gwybodaeth Gosodiadau a Ffitiadau £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 19,447 | 427 | 2,728 | 1,130 | 1,147 | 24,879 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | – | – | 1 | 2 | – | 3 |
| Ychwanegiadau | 612 | 6 | 35 | 105 | 400 | 1,158 |
| Gwarediadau | (96) | (2) | – | (65) | – | (163) |
| Trosglwyddiadau | (66) | – | – | – | (5) | (71) |
| Amhariadau | (10) | (1) | (93) | (5) | (44) | (153) |
| Ailbrisiadau | 2,444 | (2) | 1 | – | – | 2,443 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | – | (2) | (3) | (20) | – | (25) |
| Ailddosbarthu | 96 | 1 | 186 | 23 | (314) | (8) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **22,427** | **427** | **2,855** | **1,170** | **1,184** | **28,063** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 2,660 | – | 231 | 744 | 2 | 3,637 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | – | – | – | 1 | – | 1 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 202 | – | 97 | 108 | – | 407 |
| Gwarediadau | (96) | – | – | (64) | – | (160) |
| Trosglwyddiadau | (7) | – | – | – | – | (7) |
| Amhariadau | 10 | – | (7) | – | – | 3 |
| Ailbrisiadau | 73 | – | (29) | – | – | 44 |
| Ailddosbarthiadau | (11) | – | 7 | (21) | – | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,831** | **–** | **299** | **768** | **2** | **3,900** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2020** | **19,596** | **427** | **2,556** | **402** | **1,182** | **24,163** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2020** | | | | | | |
| Ym mherchnogaeth | 19,105 | 424 | 2,380 | 396 | 1,182 | 23,487 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | – | – | 7 | 5 | – | 12 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 491 | 3 | 169 | 1 | – | 664 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **19,596** | **427** | **2,556** | **402** | **1,182** | **24,163** |
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2020** | **17,237** | **51** | **129** | **42** | **647** | **18,106** |
| **BILl ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2020** | **2,359** | **376** | **2,427** | **360** | **535** | **6,057** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2019 | 16,787 | 46 | 121 | 48 | 713 | 17,715 |
| BILl ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2019 | – | 381 | 2,376 | 338 | 432 | 3,527 |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer AaGIG ac 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Trafnidiaeth Cymru.

## 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Cynhelir tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, gan gynnwys y rhai a gedwir ar brydlesau hir (99 mlynedd nodweddiadol neu fwy sy'n cyfateb i rydd-ddaliad) adeg prisio sy'n cael eu hasesu ar werth teg/gwerth y farchnad at ddefnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, caiff asedau arbenigol eu prisio drwy gyfeirio at ddull cost adnewyddu dibrisiedig. Mae asedau a ddelir i'w gwerthu ar werth y farchnad.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystâd Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (asedau ym mhortffolio safleoedd strategol fel arfer). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu prisio gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth. Fodd bynnag, pan gaffaelir asedau neu os cânt eu newid yn sylweddol, mae'n arferol comisiynu prisiad cyfredol.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliad craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 1 Tachwedd 2019, gyda meintiau bach yn cael eu harchwilio ar 31 Rhagfyr 2019, a chafodd y tystysgrifau prisio eu cwblhau ar 31 Mawrth 2020, yn bennaf gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Paratowyd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol yn bennaf ar 28 Chwefror 2020 gan Alder King. Caiff yr holl asedau eu prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adroddiadau ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad safonau byd-eang (Llyfr Coch) y DU.

Cafodd y prisiadau wedi'u diweddaru, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2020, eu hadolygu a chadarnhawyd bod y prisiadau a gynhaliwyd cyn diwedd y flwyddyn yn briodol i'w defnyddio yn y cyfrifon hyn.

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru'n cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan y Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2017. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM. Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio. Cymhwysir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

O ganlyniad i ganllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a gyhoeddwyd mewn perthynas ag effaith COVID-19, nododd y prisiwyr proffesiynol ansicrwydd o bwys yn eu hadroddiadau prisio ar gyfer diwedd 2019-20 yn achos rhai prisiadau ar gyfer Craidd Llywodraeth Cymru a Chyrff y GIG. Wedi'u cynnwys yn y nodyn ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyfunol mae asedau Tir ac Adeiladau sy'n werth cyfanswm o £234.4m yr oedd eu prisiad yn cynnwys datganiadau ansicrwydd o bwys.

Mae'r rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd yn cael eu prisio ar fodelau Cost Adnewyddu Dibrisiedig – System Prisio Asedau'r Awdurdodau Ffyrdd a model Network Rail yn y drefn honno (i gael rhagor o wybodaeth gweler Nodyn Polisi Cyfrifyddu A.1).

Mae'r ddau fodel yn defnyddio mynegeion allweddol yn y prisiadau sy'n sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd. Gall amrywiadau yn y mynegeion hynny yn y dyfodol effeithio ar brisio'r asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu effaith newid pwynt canran yn y mynegeion allweddol ar y prisiad Cost Disodli Dibrisiedig.

| | | |
|---|---|---|
| **Rhwydwaith Ffyrdd** | | |
| Mynegai Baxter | +/-1% | £156m |
| **Rhwydwaith Rheilffyrdd** | | |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH) | +/-1% | £7m |
| Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) | +/-1% | £16m |

## 4.1 Eiddo, Offer a Chyfarpar Asedau'r Rhwydwaith

| | Rhwydwaith Ffyrdd £m | Asedau'r Rhwydwaith Rheilffyrdd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 19,447 | – | 19,447 |
| Ychwanegiadau | 96 | 516 | 612 |
| Gwarediadau | (96) | – | (96) |
| Trosglwyddiadau | (71) | 5 | (66) |
| Amhariadau | (10) | – | (10) |
| Ailbrisiadau | 606 | 1,838 | 2,444 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | – | – | – |
| Ailddosbarthu | 96 | – | 96 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **20,068** | **2,359** | **22,427** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 2,660 | – | 2,660 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 202 | – | 202 |
| Gwarediadau | (96) | – | (96) |
| Trosglwyddiadau | (7) | – | (7) |
| Amhariadau | 10 | – | 10 |
| Ailbrisiadau | 73 | – | 73 |
| Ailddosbarthiadau | (11) | – | (11) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,831** | **–** | **2,831** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2020** | **17,237** | **2,359** | **19,596** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2019** | **16,787** | **–** | **16,787** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2020 | 17,237 | – | 17,237 |
| BILI ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2020 | – | 2,359 | 2,359 |

## 4.1 Eiddo, offer a chyfarpar Asedau'r Rhwydwaith (parhad)

### Caffael Llinellau Craidd y Cymoedd

Mae asedau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cynnwys caffael Ased Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ar 28 Mawrth 2020 gan Trafnidiaeth Cymru oddi wrth Network Rail. Roedd y caffaeliad hwn yn cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert (gan gynnwys pob gorsaf, trac a seilwaith rheilffyrdd cysylltiedig).

Y pris prynu ar gyfer y trafodiad hwn oedd £469.8m, sef y prisiad Sail Asedau Rheoleiddiedig gan Network Rail. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir a chostau eraill y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn arwain at ychwanegiad cyfalaf llawn o £520.9m.

Yn unol â'r FReM, mae'n ofynnol i'r ased gael ei gadw yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru adeg prisio. Cost Adnewyddu Dibrisiedig yw'r fethodoleg brisio fwyaf priodol i fod yn berthnasol i ased y CVL, sy'n arwain wrth ei gymhwyso at enillion ailbrisio o £1.8bn, a gymerir i'r gronfa ailbrisio wrth gefn, fel y dangosir yn y Datganiad Cyfunol o newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr.

Gweler Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu A.1 am ragor o wybodaeth am bolisïau cyfrifyddu perthnasol ar gyfer prisio a dibrisiant.

Ymgymerwyd â'r trafodiad prynu ar gyfer caffael yr ased hwn drwy fecanwaith dim arian parod i leihau trafodion arian parod diangen rhwng cyrff y Llywodraeth Ganolog. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant cyfalaf dim arian parod am £469.8m i Drafnidiaeth Cymru. Neilltuodd Trafnidiaeth Cymru yr hawliau i gyllid sy'n deillio o grant Llywodraeth Cymru i Network Rail fel setliad ar gyfer prynu CVL. Cafodd ased y CVL ei gaffael a'i waredu yn ôl egwyddor dim cynnydd/colled; yn unol â hynny cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth grant cyfalaf dim arian parod am £469.8m i Lywodraeth Cymru.

Adlewyrchir y trafodion dim arian parod yn natganiad Llif Arian y Grŵp drwy addasiadau i drafodion nad ydynt yn arian parod a phryniadau eiddo, peiriannau ac offer.

Mae'r grant cyfalaf gan yr Adran Drafnidiaeth i Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yng Nghraidd Llywodraeth Cymru 'Incwm gweithredu arall y tu allan i'r UE' – gweler Nodyn 2.

Mae'r grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i Drafnidiaeth i Gymru wedi'i gynnwys yn 'Grantiau' Craidd Llywodraeth Cymru – gweler Nodyn 3.

# 5. Asedau nad ydynt yn ddiriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 57 | 165 | 59 | 90 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | – | – | – | 65 |
| Ychwanegiadau | – | 19 | – | 10 |
| Gwarediadau | (1) | (8) | (2) | (4) |
| Ailddosbarthiadau | – | 5 | – | 4 |
| **Ar 31 Mawrth** | **56** | **181** | **57** | **165** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 28 | 102 | 18 | 39 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | – | – | – | 42 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 7 | 21 | 10 | 23 |
| Gwarediadau | (1) | (8) | – | (2) |
| Ailddosbarthiadau | – | (1) | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **34** | **114** | **28** | **102** |
| **Gwerth Net y Llyfr ar 31 Mawrth** | **22** | **67** | **29** | **63** |
| Gwerth Net y Llyfr ar 1 Ebrill | 29 | 63 | 41 | 51 |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer AaGIC ac 1 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Trafnidiaeth Cymru.

# 6. Asedau ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaeth'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **2,849** | **172** | **700** | **3,721** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | – | (172) | – | (172) |
| Ychwanegiadau | 596 | – | 181 | 777 |
| Gwarediadau | – | – | (41) | (41) |
| Ad-daliadau benthyciadau | (123) | – | (40) | (163) |
| Llog wedi'i gyfalafu | – | – | – | – |
| Addasiad gwerth teg | – | – | (14) | (14) |
| Enillion/(colledion) gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | (207) | – | 38 | (169) |
| Ailddosbarthu[1] | – | – | 51 | 51 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019**[1] | **3,115** | **–** | **875** | **3,990** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | – | – | – | – |
| Ychwanegiadau | 699 | – | 193 | 892 |
| Gwarediadau/Dileadau | – | – | – | – |
| Ad-dalu benthyciadau | (139) | – | (76) | (215) |
| Addasiad gwerth teg | – | – | (2) | (2) |
| Enillion/(colledion) gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | (150) | – | (58) | (208) |
| Dileadau polisi | (30) | – | – | (30) |
| Ailddosbarthu | – | – | (5) | (5) |
| Addasiadau | – | – | (14) | (14) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020**[1] | **3,495** | **–** | **913** | **4,408** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Craidd Llywodraeth Cymru yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **3,495** | **203** | **1,600** | **5,298** |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 3,115 | 189 | 1,399 | 4,703 |

[1] Yn y balans sy'n cael ei ddwyn ymlaen cynhwysir £169m (2019 - £173m) sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn.

[2] Benthyciadau Myfyrwyr wedi'u mesur fel gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir manylion mesur gwerth teg Benthyciadau Myfyrwyr a'r amlygiad i risg isod. Caiff asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru eu mesur fel gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Gwerth Wyneb

Mae'r tabl isod yn cysoni gwerth cario a gwerth wyneb benthyciadau myfyrwyr a roddwyd.

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **4,009** |
| Ychwanegiadau | 596 |
| Ad-daliadau | (123) |
| Llog | 129 |
| Dileadau polisi | (21) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **4,590** |
| Ychwanegiadau | 699 |
| Ad-daliadau | (139) |
| Llog | 209 |
| Dileadau polisi | (30) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **5,329** |
| | |
| **Addasiadau/amhariadau gwerth teg terfynol** | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **(1,834)** |
| Ar 31 Mawrth 2019 | (1,475) |
| | |
| **Gwerth cario:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **3,495** |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 3,115 |

Trafodir amlygiad y grŵp i risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu. Yr amlygiad mwyaf i risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Ymhlith y dileadau polisi mae symiau a ddilewyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â diddymu rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad ac ati.

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Caiff benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach eu tarddu a'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru.

### Benthyciadau i Fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth bennu gwerth teg benthyciadau myfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian gostyngol (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lif arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo gael ei dderbyn. O ganlyniad, cydnabyddir un symudiad gwerth teg bellach yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg mae Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau Lefel 3 o dan y Safonau Cyfrifyddu, a ddiffinnir fel: **Os nad yw un neu ragor o'r mewnbynnau sylweddol yn seiliedig ar ddata amlwg yn y farchnad, cynhwysir yr offeryn fel lefel 3**. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu y Llwybr Enillion Stochastic (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth benthyciadau newydd hefyd gan ddefnyddio model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae sawl model sydd wedi'u haddasau ar gyfer benthycwyr sy'n codi gwahanol fathau o fenthyciadau – benthyciadau cyn 2012 a benthyciadau ar ôl 2012 (benthyciadau i is-raddedigion, myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r modelau'n dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. O ystyried eu newydd-deb, ychydig o ddata ad-dalu hanesyddol sydd ar gael ar gyfer benthyciadau ar ôl 2012 gan fod y benthyciadau hyn yn gymwys i gael eu had-dalu am y tro cyntaf yn 2016-17. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu had-dalu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau a ddarperir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020.

### Y Pandemig COVID-19

Disgwylir i'r pandemig COVID-19 gael effaith sylweddol ar y system Addysg Uwch ac ar yr economi ehangach. Mae cryn ansicrwydd gan nad yw'n bosibl rhagweld yn gywir beth fydd effeithiau ehangach COVID-19 ar yr economi facro, nac am ba hyd y byddant yn para. Mae'r ansicrwydd macroeconomaidd hwn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y rhagolygon ynghylch ad-dalu benthyciadau myfyrwyr.

Ar 11 Mawrth 2020, ochr yn ochr â Chyllideb y DU, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) set fanwl o ragolygon ar gyfer dangosyddion economaidd a chyllid cyhoeddus yn y DU yn ei Rhagolygon Economaidd ac Ariannol a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn. Mae rhagolygon macroeconomaidd swyddogol yr OBR (ar ddangosyddion fel twf enillion a chwyddiant) yn fewnbynnau pwysig i'r model ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Yng nghanol y pandemig COVID-19 sy'n parhau, mae'n amlwg bod y rhagolygon

hyn wedi dyddio yn gyflym iawn. Ar 14 Ebrill 2020, cyhoeddodd yr OBR ei 'senario cyfeirio coronafeirws' cyntaf, asesiad cychwynnol o effaith bosibl COVID-19 ar yr economi a chyllid cyhoeddus. Roedd y datganiad yn cynnwys rhagolygon diweddaraf yr OBR ar gyfer dangosyddion economaidd allweddol dros y pum mlynedd nesaf (hyd at y flwyddyn ariannol 2024-25), gan ymgorffori'r data diweddaraf sydd ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sawl senario, lle mae'r dangosyddion economaidd allweddol a ddefnyddir yn y model StEP yn dilyn llwybrau amrywiol sy'n bosibl o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr y cyfrifon hyn gael darlun llawn o amrywioldeb gwerth net y llyfr, o ystyried bod effeithiau economaidd posibl y pandemig COVID-19 yn ansicr iawn, mae'r dadansoddiad sensitifrwydd (isod) yn adlewyrchu effaith newidiadau pwyntiau canran yn y newidynnau allweddol ar werth llyfr net, yn hytrach na senarios penodol a allai newid pan fydd gwybodaeth newydd am yr economi ar gael, a dyddio'n gyflym felly.

**Newidynnau Allweddol**

Mae'r **newidynnau** a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y model wedi'u nodi isod. Yn ogystal, mae sensitifrwydd gwerth llyfr net Benthyciadau Myfyrwyr, ar 31 Mawrth 2020, i bob newidyn wedi'i fesur:

**Cyfradd disgownt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IFRS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur PES, sef RPI plws 0.7%. Hwn yw cyfradd disgownt hirdymor Trysorlys Ei Mawrhydi sef cost cyfalaf hirdymor Llywodraeth Cymru. Anaml y mae hyn yn newid, gydag unrhyw gynnydd yn y Gyfradd Disgownt yn gostwng gwerth cario Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ar gyfer pob pwynt o 1% y mae Cyfradd Ddisgownt Trysorlys EM yn cynyddu, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau myfyrwyr yn cynyddu £32.7m; bydd gostyngiad o 1% yn arwain at ostyngiad o £32m.

**Chwyddiant RPI:** Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon OBR (a ddaeth i law Tachwedd 2019) tan 2024-25. Tybir y bydd RPI yn gostwng i 3% rhwng 2025-26 a 2039-40. Bydd RPI uwch yn cynyddu llog ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario. Ar gyfer pob pwynt o 1% o gynnydd a ragwelir yn y Mynegai Prisiau Manwerthu, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau myfyrwyr yn gostwng £24.6m; bydd gostyngiad o 1% yn arwain at gynnydd o £24.9m yng ngwerth net y llyfr.

**Enillion graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog byrdymor yn cydymffurfio â rhagolygon OBR tan 2025-26. Rhagdybir bod twf enillion yn y dyfodol yn 4.35% o 2031-32, ac y bydd newid llinol rhwng 2024-25 a 2030-31. Bydd cynnydd mewn enillion graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob cynnydd o 1% pwynt mewn enillion graddedigion, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau myfyrwyr yn cynyddu £29.7m; fodd bynnag, bydd gostyngiad o 1% pwynt yn arwain at ostyngiad o £29.1m yng ngwerth llyfr net benthyciadau myfyrwyr.

**Trothwy enillion graddedigion:** Ar 18 Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r trothwy ad-dalu ar gyfer pob benthyciad ar ôl 2012 yn cael ei gynyddu o £21,000yf i £25,000yf gydag effaith o 1 Ebrill 2018 gan gael effaith o 1 Ebrill 2018. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dosbarthiad Incwm Graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar yr Arolwg o'r Llafurlu, Panel Aelwydyd Prydain a data gweinyddol a dddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Nid yw hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dileu yn rhannol:** Polisi gan Lywodraeth Cymru yw dileu yn rhannol sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Nid yw hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Cyfraddau sylfaenol:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn unol â rhagolygon OBR tan 2068-69. Mae cap i'r gyfradd sylfaenol yn cael ei gymhwyso i'r gyfradd sylfaenol o 2018-19 ymlaen, gan leihau'r gyfradd sylfaenol i lefel y cap rhwng 2018-19 a 2022-23. Bydd cynnydd mewn Cyfraddau Sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario. Ar gyfer pob pwynt o 1% o gynnydd yn y gyfradd sail, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau myfyrwyr yn cynyddu £2.4m; bydd gostyngiad o bwynt 1% yn arwain at ostyngiad o £2.4m.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

Ceir data ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys hanesyddol, ar wefannau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk); y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk).

Ceir gwybodaeth ystadegol am Fenthyciadau Myfyrwyr ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (www.gov.uk/government/statistics/student-loans-in-wales-2019-to-2020-part-1).

## 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol, llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn.

Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu Cymru yn cael eu cadw ar Werth Teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chânt eu dileu o'r cyfrif craidd wrth i Fanc Datblygu Cymru gael ei gyfuno. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg trwy wariant net cynhwysfawr cyfunol arall yn y cyfrif Craidd.

Cyfrifir Gwerth Teg llyfr benthyciadau ecwiti a rennir Cymorth i Brynu Cymru drwy nodi'r llifau arian parod a ragwelir yn y dyfodol a diystyru'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o dybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer Mynegai Prisiau Tai yn y dyfodol, cyfradd ddisgowntio yn seiliedig ar fond tai tebyg a phroffil adbrynu benthyciadau. Nid oes data arsylwadwy ar gyfer y Mynegai Prisiau Tai (HPI) am gyfnod 25 mlynedd y model. Mae'r model yn defnyddio HPI Cymru fel y'i cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel mewnbwn allweddol, a defnyddiwyd data HPI a ddarparwyd drwy ddadansoddi'r farchnad i sefydlu'r gyfradd HPI gyfartalog hirdymor yng Nghymru. Addaswyd rhagolygon y HPI i gynnwys effaith ddisgwyliedig COVID-19 ar brisiau tai. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu Cymru yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

Yn gynwysedig yn 'Asedau Ariannol Eraill' uchod mae buddsoddiad o £61.3m ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL) drwy WGC Holdco Limited a benthyciad o £54.6m gan Lywodraeth Cymru i CIAL. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda CIAL i werthuso effaith y pandemig COVID-19 ar y diwydiant hedfan gan gynnwys CIAL i gytuno ar gamau ariannu yn y dyfodol mewn perthynas ag opsiynau adfer. Bydd dewisiadau a wneir yn seiliedig ar yr opsiynau hyn yn effeithio ar y fethodoleg a ddefnyddir i brisio buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes awyr. O ganlyniad, maer rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch prisio buddsoddiad a benthyciadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r asedau ariannol Grŵp eraill ac eithrio'r rhai â CIAL a nodir uchod yn cynnwys: buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill; benthyciadau Buddsoddi i Arbed gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill; ac asedau a ddelir gan Fanc Datblygu Cymru PLC ac asedau ariannol Grŵp eraill.

## 7. Stocrestri

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Asedau Datblygu | 166 | 166 | 165 | 164 |
| Cyffuriau | 22 | 51 | 19 | 45 |
| Deunydd telathrebu dros ben | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Halen ffyrdd | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Defnyddiau traul eraill | 1 | 56 | 1 | 50 |
| | **191** | **275** | **187** | **261** |

## 8. Symiau masnachol i'w derbyn, asedau ariannol ac asedau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach | 229 | 337 | 114 | 221 |
| Treth arall | 13 | 13 | 13 | 13 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 102 | 155 | 129 | 175 |
| | **344** | **505** | **256** | **409** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach | 11 | 118 | 13 | 99 |
| Rhagdaliadau | 11 | 17 | 14 | 18 |
| | **22** | **135** | **27** | **117** |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy trwy fasnach ac asedau cyfredol eraill** | **366** | **640** | **283** | **526** |

# 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gweddill ar 1 Ebrill** | **107** | **698** | **127** | **444** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | – | 6 | – | 38 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | – | 135 | (20) | 216 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **107** | **839** | **107** | **698** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 90 | 171 | 105 | 151 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 17 | 668 | 2 | 547 |
| | **107** | **839** | **107** | **698** |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 2019 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

# 10. Symiau masnachol a symiau taladwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m Wedi'i ailddosbarthu | Grŵp LIC £m Wedi'i ailddosbarthu |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 3 | 58 | 1 | 67 |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 771 | 1,518 | 619 | 1,017 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | 66 | 66 | 66 | 66 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 391 | 437 | 267 | 606 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 36 | 36 | 17 | 17 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid a chontractau PFI | 10 | 16 | 10 | 14 |
| | **1,277** | **2,131** | **980** | **1,787** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | – | 2 | – | 1 |
| ORhwymedigaethau o dan PFI | 85 | 137 | 93 | 150 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid | 1 | 6 | 3 | 3 |
| | **86** | **145** | **96** | **154** |
| **Cyfanswm symiau taladwy ar gyfer masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill** | **1,363** | **2,276** | **1,076** | **1,941** |

# 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gweddill ar 1 Ebrill** | **1,180** | **1,278** | **1,135** | **1,147** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno[1] | – | – | – | 11 |
| Darperir yn y flwyddyn | 376 | 413 | 162 | 214 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (175) | (205) | – | (4) |
| Trosglwyddo | (25) | (10) | – | 61 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (106) | (137) | (117) | (151) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,250** | **1,339** | **1,180** | **1,278** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 277 | 318 | 295 | 347 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 408 | 432 | 353 | 482 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 565 | 589 | 532 | 449 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,250** | **1,339** | **1,180** | **1,278** |

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Eraill £m | Cronfa Risg Cymru[2] £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 46 | 272 | 318 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 62 | 369 | 431 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 97 | 493 | 590 |
| | **205** | **1,134** | **1,339** |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 2019 Ebrill 2018 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Thrafnidiaeth Cymru.

[2] Cynhelir Cronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.velindre-tr.wales.nhs.uk/key-publications.

## 11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

**Darpariaethau Iechyd**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol.

Ar 30 Mawrth 2017 cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon drefniadau cymorth newydd i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C ac HIV wedi effeithio arnynt oherwydd eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Cafodd un gwasanaeth symlach i Gymru ei gyflwyno ar 1 Tachwedd 2017. Mae hawlwyr yn y cynlluniau newydd wedi cael eu symud i'r cynllun newydd. Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn disodli hen Gronfeydd Skipton a Caxton ac yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer taliadau ex gratia i'r rhai y mae hepatitis C ac HIV yn effeithio arnynt. Balans Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ar 31 Mawrth 2020 yw £84.2m (2018-19: £90.4m).

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2020 yw £1,134m (2018-19: £1,081m).

Mae sefydliadau GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeulustod clinigol, anaf personol a chostau amddiffyn sydd o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru sy'n cael dyraniad brigdoriad blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i Bwyllgor y Pwyllgor WRPS bob deufis.

Amcangyfrifir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas ag esgeulustod clinigol parhaus a hawliadau am anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau ynghylch y canlyniad tebygol, y rhwymedigaethau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol a rhai sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol a rhai sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a gofnodwyd a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol ac o gael cyngor gan gwnsleriaid. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a Chyfradd Disgownt Anafiadau Personol o minws 0.75%. Mae rhwymedigaethau ar gyfer achosion penodol a thebygol sy'n debygol o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno yn cael eu cadw fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achosir.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau gwerth uchel (>£1M) yn setlo gyda Gorchymyn Taliad Cyfnodol lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi mynegai'r hawlwyr â gwerth talu blynyddol cysylltiedig â nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Gostyngir disgwyliad oes nifer y blynyddoedd yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt nominal Trysorlys EM ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur y System Gwariant Cyhoeddus (PES) a ffactor chwyddiant.

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ww.velindre-tr.wales.nhs.uk/home.

**Darpariaethau Eraill**

Mae hyn yn cynnwys amrywiol rwymedigaethau posibl mewn perthynas â phensiynau a chyflogaeth mewn perthynas â gweithgarwch cyflenwi Llywodraeth Cymru.

## 11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol. Darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain yn bennaf, gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeulustod clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr | 1,099 | 1,121 | 936 | 995 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 94 | 103 | 108 | 108 |
| | **1,203** | **1,234** | **1,054** | **1,113** |

**(i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr**
Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2006 dalu rhwymedigaethau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli.

**(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill**
Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys Hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill a rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol. Ni chododd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar gyfer indemniadau neu warantau contractiol yn 2019-20.

**(iii) Rhwymedigaethau digwyddiadol nad ydynt wedi'u meintioli**

**Pontio'r UE**
Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i ymadael â'r UE yn unol ag Erthygl 50. Ar 31 Ionawr 2020, daeth y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE yn gyfreithiol rwymol a gadawodd y DU yr UE. Bydd y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol yn cael ei phennu gan drafodaethau sy'n digwydd yn ystod cyfnod pontio sy'n dod i ben 31 Rhagfyr 2020. Mae unrhyw newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth, rheoleiddio a threfniadau ariannu'n ddarostyngedig i ganlyniad y negodiadau.

**Trefniadau Talu Cynllun y GIG 2019-20**
Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 a drafodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle mae rheolau treth pensiynau yn effeithio ar staff clinigol sydd am weithio oriau ychwanegol. Caiff y cynllun hwn ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i Gyflogwyr y GIG.

Mae gan staff clinigol tan 31 Gorffennaf 2021 i ddewis y cynllun hwn a'r gallu i wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2024. Ar ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod staff clinigol y GIG yn manteisio ar y cynllun yn 2019-20 ac nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i alluogi asesiad rhesymol o'r defnydd yn y dyfodol, felly datgelir bodolaeth rhwymedigaeth amodol heb ei mesur.

### 12.1 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol

Cyflwynir rhwymedigaethau amodol yma lle bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn anhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf yr IAS 37 ar gyfer datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warant neu indemniadau, ond lle nad oes unrhyw arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r amlygiad, ni ellir dileu'r risg yn gyfan gwbl. Os ystyrir bod rhwymedigaethau amodol priodol y graddir bod y tebygolrwydd o grisialu ar eu gyfer yn fwy nag o bell yn cael eu datgelu yn y Datganiadau Ariannol.

Yn 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru ar sicrwyddau, gwarantau, indemniadau a cholledion posibl – rhai'n fesuradwy (a ddatgelir) a rhai'n anfesuradwy – o dan y cytundeb grant â'i darparwr gwasanaethau trên (Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) a'r cytundeb indemniad ('held harmless agreement') â'r Adran Drafnidiaeth.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol y gellir eu meintioli:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên os bydd yr archeb am gerbydau y mae'r darparu gwasanaethau trên wedi'i osod yn gorfod cael ei ganslo, a hynny trwy benderfyniad Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir mai'r rhwymedigaeth uchaf ar gyfer Llywodraeth Cymru o dan yr indemniad hwn yw £68m.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol na ellir eu meintioli:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail os bydd unrhyw anfanteision o ran costau neu unrhyw risgiau ariannol newydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i ddatganoli pwerau masnachfreinio'r rheilffyrdd a'r bwriad i drosglwyddo asedau craidd llinellau'r Cymoedd o Network Rail i Trafnidiaeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên am amser cyfyngedig yn unig yn erbyn unrhyw dariffau ychwanegol o ganlyniad i Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên yn erbyn effaith unrhyw penderfyniad a wneir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o ganlyniad i'r adolygiad y mae'n ei gynnal ar hyn o bryd mewn perthynas â statws Cynlluniau pensiwn Cwmnïau Gweithredu Trenau (TOC).

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trenau yn erbyn newidiadau sydd wedi deillio o'r Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â gweithwyr Network Rail sy'n ymuno â Thrafnidiaeth Cymru ac sy'n aros yng Nghynllun Pensiwn y Rheilffyrdd os caiff unrhyw ddiffygion eu creu ar gyfer adran newydd y cynllun.

**Gwarantau:**

Mewn amgylchiadau arbennig, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi neu mewn perthynas â gwaith seilwaith cyhoeddus. Nid yw'r un o'r gwarantau hyn yn sylweddol.

**Indemniadau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio cyrff Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r rhwymedigaethau'n cwmpasu 11 sefydliad am £437 miliwn ac mae'r cyfnod rhwymedigaeth yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y potensial i'r rhwymedigaeth aeddfedu'n rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth  2020 oedd £29.5 miliwn.

**Llythyrau o gefnogaeth:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol at Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i gwmpasu rhwymedigaethau'r dyfodol o £0.457m. O gofio lefel sylweddol cronfeydd wrth gefn yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, bernir bod ei bod yn dra annhebygol y bydd y rhwymedigaeth hon yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Trafnidiaeth Cymru (TfW) i dalu am rwymedigaethau presennol a rhwymedigaethau'r dyfodol a ysgwyddir yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi i Drafnidiaeth Cymru.

## 13. Rhwymedigaethau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 54 | 98 | 54 | 91 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[1] | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Benthyciadau banc DBW | – | – | – | – |
| **Cyfanswm** | **65** | **109** | **65** | **102** |

[1] Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Yna cawsant eu trosglwyddo i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd DBRW ym 1998. Ers i WDA gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu prifswm a llog.

## 14. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn rhestri (ac eithrio materion datblygu) | (2) | (13) | 5 | (1) |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau i'w derbyn:** | | | | |
| cyfredol | (88) | (96) | (72) | (76) |
| heb fod yn gyfredol | 5 | (18) | 3 | 30 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| cyfredol | 297 | 344 | 45 | – |
| heb fod yn gyfredol | (10) | (9) | (10) | (13) |
| Symudiad mewn asedau datblygu | – | – | (7) | (7) |
| Elfen gyfalaf lesoedd cyllid/PFI | 10 | 7 | 10 | 10 |
| Addasiad arall | – | – | 66 | 60 |
| Llai symudiad mewn symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a balansau costau anweithredol eraill | (19) | (19) | 11 | 11 |
| | **193** | **196** | **51** | **14** |

# 15. Cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

## 15.1 Ymrwymiadau cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio sydd heb eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 113 | 373 | 215 | 480 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | 37 | 40 | 94 | 94 |
| | **150** | **413** | **309** | **574** |

## 15.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd

### 15.2.1 Ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredol

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau o dan lesoedd gweithredol yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Adeiladau** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 35 | 6 | 35 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 21 | 81 | 22 | 79 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 43 | 117 | 46 | 113 |
| | **70** | **233** | **74** | **227** |
| **Arall** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | – | 1 | – | 1 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 2 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 2 |
| | – | **1** | – | **5** |
| **Cyfanswm** | **70** | **234** | **74** | **232** |

### 15.2.2 Ymrwymiadau o dan lesoedd cyllid

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau o dan lesoedd cyllid yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2020 | | Ar 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Arall** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 1 | 4 | 1 | 3 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 1 | 4 | 2 | 2 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | – |
| | **2** | **8** | **3** | **5** |
| Llai'r elfen llog | – | – | (1) | (1) |
| | **2** | **8** | **2** | **4** |

## 15.3 Ymrwymiadau o dan gontractau PFI

Mae gan y byrddau iechyd lleol ddeg contract PFI y mae wyth ohonynt at y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Bwrdd Iechyd Lleol.

### 15.3.1 Ddim ar y fantolen

**Contract PFI Bute Avenue**

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r contractwr preifat sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae partner y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000-01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru.
Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £9,273,758 (2018-19: £9,479,137 (wedi'i ailddatgan)); 8,637,765); ac mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2020 £m | Ar 31 Mawrth 2019 £m (wedi'i ailddatgan) |
|---|---|---|
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 9 | 10 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 40 | 41 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 11 | 22 |
| | **60** | **73** |

### 15.3.2 Ar y fantolen

#### Contract PFI A55

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd cyllid wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiwn gwasanaeth eraill oedd £9,952,132 (2018-19: £10,288,537). Rhoddir cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar<br>31 Mawrth 2020<br>£m | Ar<br>31 Mawrth 2019<br>£m |
|---|---|---|
| **Isafswm Taliadau Lesoedd** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 48 | 60 |
| | **108** | **120** |
| Llai'r elfen llog | (14) | (17) |
| | **94** | **103** |

| | Ar<br>31 Mawrth 2020<br>£m | Ar<br>31 Mawrth 2019<br>£m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 8 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 33 | 32 |
| Hwyrach na phum mlynedd | (1) | 6 |
| | **38** | **46** |

## 15.4 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud contractau na ellir eu dileu (nad ydynt yn lesoedd neu'n gontractau PFI) ar gyfer gwasanaethau. Mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo, fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2020 £m | | Ar 31 Mawrth 2019 £m | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 615 | 615 | 446 | 446 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 1,162 | 1,162 | 1,088 | 1,088 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 2,512 | 2,512 | 2,689 | 2,689 |
| | **4,289** | **4,289** | **4,223** | **4,223** |

Mae ymrwymiadau ariannol eraill sy'n daladwy o fewn blwyddyn yn cynnwys £231m fel ffrwd incwm ymrwymedig, drwy'r Cytundeb Grant gyda'i darparwr gwasanaethau trên a rheolwr seilwaith (Gwasanaethau Trên Trafnidiaeth Cymru). Mae'r ymrwymiadau sy'n daladwy o fewn 2 i 5 mlynedd yn cynnwys £830m a thu hwnt i 5 mlynedd ar £2bn.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer nifer o endidau yn flynyddol. Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo yn rhan olaf y flwyddyn yn dod ben 31 Mawrth 2020 er mwyn rhoi sicrwydd i'r corff sy'n eu cael. Gan eu bod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021 ac yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 nid ydynt wedi'u datgelu o fewn yr ymrwymiadau uchod.

## 16. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r awdurdodau lleol, cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau gyda chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na staff partïon wedi cynnal unrhyw drafodiadau sylweddol â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Lesley Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig) a Ken Skates (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) ill dau yn Is-lywyddion Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a gafodd £29,181 o arian grant yn 2019-20.

Mae Dafydd Elis-Thomas (y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth) yn aelod anrhydeddus am oes o Fywyd Gwyllt Gogledd Cymru a gafodd £466,186 yn 2019-20.

Mae gŵr Kirsty Williams (y Gweinidog Addysg) yn bartner mewn busnes ffermio a gafodd £62,292 yn 2019-20 o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

Mae gwraig Vaughan Gething (y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn bartner yn y cwmni cyfreithiol Cyfreithwyr Thompsons y talwyd £2,400 iddynt yn 2019-20 am wasanaethau cyfreithiol a gaffaelwyd. Ni fyddai'r Gweinidog wedi ymwneud o gwbl â'r broses gaffael a'r penderfyniad ar benodi'r cwmni cyfreithiol.

Mae Jeremy Miles (Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd) a Rebecca Evans yn aelodau o Undeb Credyd Celtic, a gafodd gyllid grant o £105,160 yn 2019-20.

Roedd gwraig Lee Waters (Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn Gyfarwyddwr anweithredol Llamau Cyf a gafodd £657,843 yn 2019-20.

Mae gŵr Gillian Baranski (aelod o'r Bwrdd tan 5 Gorffennaf 2019) yn bartner yng nghwmni Cyfreithiol Geldards LLP a benodwyd yn ddarparwr ar Fframwaith Gwasanaethau Cyfreithiol gan Gyfreithwyr gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Talwyd £687,967 i'r cwmni yn 2019-20 am y Gwasanaethau Cyfreithiol hyn.

Mae Partner Tracey Burke yn aelod lleyg o Gyngor Prifysgol Reading a dderbyniodd, gan gynnwys cyllid grant, £930 yn 2019-20.

Mae Ellen Donovan (cyfarwyddwr anweithredol) wedi parhau â'i rôl fel cyfarwyddwr anweithredol Cymwysterau Cymru, rôl y bu'n ei dal ers mis Rhagfyr 2015, cyn ymuno â Bwrdd Llywodraeth Cymru. Derbyniodd Cymwysterau Cymru gyllid o £8,355,247 gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20.

Mae Gareth Lynn (cyfarwyddwr anweithredol) yn Gadeirydd Annibynnol Ymddiriedolwyr Cynllun Buddion Ymddeol (pensiwn) Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Gwneir y penodiad gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a thelir tâl cydnabyddiaeth amdano. Cafodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau £28,746 yn 2019-20. Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Spindogs Limited a gafodd £14,615 yn 2019-20 ar gyfer y gwasanaethau a gaffaelwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae trafodiadau partïon cysylltiedig y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ac is-gwmnïau eraill yn cael eu datgelu yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 16.1 Canlyniadau cwmnïau cyfunol o dan berchnogaeth lwyr

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Development Bank of Wales PLC[1] | (16) | 126 | 3 | 156 |
| Regeneration Investment Fund for Wales LLP | (3) | 42 | 3 | 39 |
| WGC Holdco Limited | – | 61 | – | 61 |
| Careers Choices Dewis Gyrfa Limited | (3) | (32) | (2) | (31) |
| Trafnidiaeth Cymru | – | 1 | – | 1 |

[1] Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r ffigurau a ddatgelwyd.

## 16.2 Mân is-gyrff a buddiannau eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- International Convention Centre Wales Limited – Mae Llywodraeth Cymru'n berchen ar 50% o gyfalaf cyfrannau International Convention Centre Wales Limited, gyda'r 50% arall yn cael ei ddal gan y Celtic Manor Resort Limited.
- Airbus Group Endeavr Wales (gynt EADS Foundation Wales) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Llywodraeth Cymru – Adrannau Anweinidogol – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Design Commission for Wales Limited (Design Commission for Wales/Comisiwn Dylunio Cymru)
- Meat Promotion Wales Limited/Hybu Cig Cymru Cyf
- Sector Development Wales Partnership Limited
- Life Sciences Hub Wales Limited (Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru)
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cyfyngedig (Innovation Point Limited gynt)
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- International Business Wales Limited

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru - ddim yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Welsh Development Management Limited

Student Loans Company Limited

Mae Llywodraeth Cymru'n dal un gyfran gyda gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% i Lywodraeth Cymru yn y cwmni.

Elusennau'r GIG

Mae elusennau'r GIG yng Nghymru'n Is-gwmnïau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac maent yn amherthnasol i'w cyfuno.

Mae Cyfrifon Statudol endidau a nodir yn 16.1 a 16.2 i'w gweld naill ai ar eu gwefannau eu hunain neu yn Nhŷ'r Cwmnïau www.gov.uk/government/organisations/companies-house.

## 17. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Ym mis Tachwedd 2019, cafodd math newydd goronafeirws (COVID-19) ei ganfod ac fe ledaenodd yn gyflym, gan arwain Sefydliad Iechyd y Byd i ddatgan pandemig ar 11 Mawrth 2020.

Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar Lywodraeth Cymru a'i gweithrediadau, fel y disgrifir yn yr Adroddiad blynyddol; dechreuodd yr effaith hon yn fuan cyn 31 Mawrth a bydd yn parhau yn 2020-21.

Oherwydd amseriad y pandemig, mae effaith COVID-19 yn y datganiadau ariannol hyn wedi bod yn gyfyngedig. Mae'r mwyafrif helaeth o gostau cysylltiedigâ â COVID-19 Llywodraeth Cymru wedi digwydd ers mis Ebrill 2020 ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn datganiadau ariannol 2020-21 y flwyddyn nesaf.

Achosodd y pandemig aflonyddwch economaidd sylweddol ychydig cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r tarfu parhaus a achoswyd gan y pandemig wedi creu ansicrwydd economaidd sylweddol, a disgwylir i'r ansicrwydd hwn barhau drwy gydol 2020.

Bydd yr angen i ymateb ac adfer o'r pandemig gyda'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach drwy gydol 2020-21 a thu hwnt.

Wrth i Gymru a'r DU ddod allan o'r cyfyngiadau a dechrau adfer yn 2020-21 a thu hwnt, bydd effaith lawn mentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi cymunedau a busnesau Cymru, ac effaith economaidd COVID-19 yn dod yn gliriach. Gall effeithiau godi yn y dyfodol yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar brisio asedau, benthyciadau a buddsoddiadau.

Ers i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 gael ei chymeradwyo ar 3 Mawrth, cynyddodd y gyllideb fwy na 10%. Er mwyn cefnogi economi Cymru a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gallu delio â'r pandemig coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n gyflym i ddyrannu'r cyllid hwn, i ailgyfeirio'r cyllidebau presennol ac i adlinio'r cyllid Ewropeaidd. Yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 dyrannodd Llywodraeth Cymru dros £2.4bn i amrywiaeth o ymyriadau i ymateb i argyfwng COVID-19 a'i liniaru. Mae manylion y Gyllideb Atodol Gyntaf i'w gweld yn www.llyw.cymru/cyllideb-atodol-gyntaf-2020-202.

## 18. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 28 Hydref 2020.

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, offer a chyfarpar

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Mae eiddo ar brydles, lle'r oedd y les wreiddiol am lai na chan mlynedd, yn cael ei drin fel cost refeniw. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na chan mlynedd, yn cael eu dal ar werth y farchnad agored at eu defnydd presennol, gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu yn flynyddol. Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu bob blwyddyn, gyda mynegeion priodol mewn blynyddoedd ers hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio Mynegai Misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

### Asedau'r Rhwydwaith

**Y Rhwydwaith Ffyrdd**

Mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i brisio yn ôl ei gost adnewyddu wedi'i dibrisio yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau'r farchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol. Y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw Systemau Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS), a redir gan ymgynghorwyr allanol W.S. Atkins. Mae syrfewyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad llawn o'r rhwydwaith ar adegau heb fod yn fwy na phum mlynedd. Cynhaliwyd y prisiad hwn ddiwethaf yn 2019-20. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant y ffordd; strwythurau (fel pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (fel arwyddion negeseuon amrywiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond mae strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, yn cael eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Mae cyfathrebu'n cael ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgatagoreiddio o Asedau o dan Adeiladwaith pan fydd y manylion Strwythurol wedi'u darparu gan yr Awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr awdurdod lleol neu oddi yno fel 'creu statws cefnffordd' neu 'tynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr awdurdodau lleol neu iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau eraill o'r Llywodraeth neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu trwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

- Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter
- Cyfathrebu – Mynegai Baxter
- Tir – Cynhyrchir mynegeion tir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddodi ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Y Rhwydwaith Rheilffyrdd**

Caffaelodd Trafnidiaeth Cymru, is-gwmni cyfunol gan Lywodraeth Cymru, Linell Graidd y Cymoedd (CVL) gan Network Rail ar 28 Mawrth 2020 ar gost o £469.8m. Mae'r CGL yn cynnwys seilwaith rheilffyrdd, gorsafoedd, pontydd ac asedau eraill a oedd yn ffurfio Ased Rhwydweithio gyda'i gilydd yn unol â FReM Trysorlys Ei Mawrhydi.

O dan FReM, mae Asedau Wedi'u Rhwydweithio yn cael eu prisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig (DRC), gan eu bod yn asedau arbenigol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae'r dull prisio hwn yn seiliedig ar addasiad FReM o IAS 16 (Eiddo, Peiriannau ac Offer). Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol.

Cyfrifir y DRC drwy bennu cost adnewyddu gros ar gyfer y Rhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti'r Rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am dybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel Rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; a
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn creu prisiad terfynol y DRC, caiff y gwerth amnewid gros ei addasu i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o weddill bywydau defnyddiol yr asedau, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r Rhwydwaith. Rhaid cynnal prisiad llawn o leiaf bob pum mlynedd, gyda mynegeion mewnbwn yn cael eu cymhwyso i restr brisiau safonol o gydrannau'r Rhwydwaith mewn cyfnodau interim. Mae angen barnu i bennu natur ased cyfatebol modern a chyflwr presennol yr asedau.

Cafodd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith CVL ei gynnal ar 31 Mawrth 2019 gan Network Rail a Turner a Townsend (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan Network Rail. Diweddarwyd prisiad y DRC gan Network Rail hyd at ddyddiad caffael ased y CVL, gan ddefnyddio ffactorau mynegeio chwyddiant a gymhwyswyd ar 31 Mawrth 2020, gan ddarparu'r prisiad ar ddyddiad y fantolen. Mae model prisio a thybiaethau Network Rail wedi cael eu herio a'u dilysu gan Trafnidiaeth Cymru fel rhan o'r broses trosglwyddo asedau.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

- Tir – Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH)
- Adeiladau – Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)

Cydnabyddir bod y rhwydwaith rheilffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Mae prisiad Asedau Cyfwerth Modern yn defnyddio 'cydrannau' ailadroddadwy sydd wedi'u hagregu i ffurfio'r rhwydwaith. Dyma'r cydrannau hyn:

- Gwrthgloddiau
- Strwythurau
- Trydaneiddio, cyfarpar a signalau
- Eiddo gweithredol
- Trac
- Telathrebu

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddu ased CVL fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, ac ar yr adeg honno trosglwyddir yr ased i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn y DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Yn ei ddatganiadau ariannol ei hun, mae Trafnidiaeth Cymru yn prisio Ased y Rhwydwaith Rheilffyrdd ar gost llai dibrisiant cronedig. Mae'r gwerth hwn yn wahanol iawn i Gost Amnewid Ddibrisiedig (DRC) Ased y Rhwydwaith Rheilffyrdd sydd wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn paratoi ei ddatganiadau ariannol o dan IFRS gydag eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu nodi ar gost llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig.

### Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau

Mae technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau (sy'n cynnwys cerbydau, offer a chyfarpar), ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am grocbris y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

### Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy neu ni ellid eu sicrhau ond am gost ormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

## A.2 Dibrisiant

### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o ddirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn ar asedau nad ydynt yn gyfredol uchod); a

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd trwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd trwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Dangosir oes cydrannau ffyrdd yn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | hyd at 20 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 to 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 2 i 15 flynyddoedd |

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio

## Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer amrywiaeth o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn.

Mae'r tabl isod yn rhoi'r cyfartaleddau wedi'u pwysoli, yn seiliedig ar ddyfarniadau o'r bywydau sy'n weddill ar gyfer categoreiddio manwl o'r cydrannau sylfaenol:

| | Bywyd Economaidd Defnyddiol | Bywyd Economaidd Defnyddiol sy'n Weddill |
|---|---|---|
| Gwrthgloddiau | 20-100 mlynedd | hyd at 100 mlynedd |
| Strwythurau | hyd at 100 mlynedd | hyd at 73 mlynedd |
| Trydaneiddio, cyfarpar a signalau | 50-55 mlynedd | hyd at 25 mlynedd |
| Eiddo gweithredol | 32-65 mlynedd | hyd at 30 mlynedd |
| Trac | 37-50 mlynedd | hyd at 22 mlynedd |
| Telathrebu | hyd at 52 mlynedd | hyd at 13 mlynedd |

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael, mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu disodli'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu byw bywydau hir iawn, fodd bynnag, ar gyfer y prisiad hwn, mae bywydau wedi'u capio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

## Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau lesddaliadol: | Gweddill oes |
| Anheddau: | Gweddill oes |
| Adeiladau rhydd-ddaliad: | hyd at 85 mlynedd |
| Technoleg Gwybodaeth: | 3 i 10 mlynedd |
| Asedau meddalwedd nad ydynt yn ddiriaethol: | 2 i 10 mlynedd |
| Gosodiadau a ffitiadau: | 3 i 20 mlynedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau o dan adeiladwaith yn cael eu dibrisio.

Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn cael eu tynnu.

## A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n cael ei dynnu, ac eithrio lle mae'n cyfeirio at brosiect pendant a lle gellir barnu bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

## A.4 Asedau ariannol

### Benthyciadau a Chyllid ad-daladwy

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp (e.e. Banc Datblygu Cymru), cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi.  Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9.

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru yn fenthyciadau Ecwiti a Rennir ac fe'u delir yn ôl Gwerth Teg trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol ag IFRS 9.

### Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

Delir Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ar gost hanesyddol llai amhariadau yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9.

### Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau yn endidau grŵp is-gwmnïau ar gost yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru yn unol â IAS 27. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Cyfrifir am fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IFRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio a delir buddsoddiadau ecwiti yn ôl gwerth teg trwy Elw a Cholled. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau Asedau ariannol yn eu Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

### Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Yn achos ad-daliadau a wneir trwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir trwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEM i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl Gwerth Teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6. Nodir datgeliadau sy'n ymwneud â risg, sy'n ofynnol o dan IFRS 7, ym Mholisi Cyfrifyddu A.15.

### Asedau anghyfredol

Dynodir asedau nad ydynt yn gyfredol fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer trwy ei werthu yn hytrach na defnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Mae'r asedau anghyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu'n cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg llai costau i werthu.

## A.5 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'u hangen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddiddymu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi sylweddol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael eu hysgrifennu yn ôl i Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr lle ceir tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestri eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwahaniaeth o sylwedd rhwng y cost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.6 Incwm Gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru IFRS 15 Revenue from Contracts with Customers o 1 Ebrill 2018. Mae IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas y safon hon, yn unol â hi.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.7 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.8 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion trwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd trwy gronfeydd wrth gefn yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai cyn staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Yr Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaeth Lles Nyrsys.

Mae cyflogeion Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

## A.9 Costau ymadael cynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i rhwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn y Bank of England i gredydu Pledlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion BILl ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.10 Lesoedd gweithredol

Codir gwariant ar lesoedd gweithredol heb eu cyfalafu, gan gynnwys tir ac adeiladau, ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

## A.11 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

## A.12 Y Fenter Cyllid Preifat/Trafodiadau'r Sector Cyhoeddus neu Breifat

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi penderfynu y bydd rhaid i gyrff y Llywodraeth gyfrif am gynlluniau PFI seilwaith lle mae corff y Llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae ased PFI yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbynnir;

b) Taliad am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid; a

c) Taliad am ddisodli cydrannau'r ased yn ystod y contract 'amnewid cylch oes'. Cofnodir gwerth teg y gwasanaethau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Cydnabyddir yr asedau PFI fel eiddo, offer a chyfarpar, pan ddechreuir eu defnyddio. Mae'r asedau'n cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.Cydnabyddir y rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd â'r ased PFI. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les cyllid yn unol ag IAS 17. Cyfrifir cost ariannu blynyddol trwy gymhwyso'r cyfradd llog ymhlyg yn y les i rwymedigaeth y les weithredol am y cyfnod ac mae'n cael ei chodi ar Incwm. Mae elfen y taliad unedol blynyddol sy'n cael ei ddyrannu fel rhentiad les cyllid yn cael ei chymhwyso i dalu'r cost ariannu blynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y les dros dymor y contract.

## A.13 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.14 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Provisions, Contingent Liabilities and Contingent Assets, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (hy rhwymedigaeth bresennol neu'n deillio o ddigwyddiadau blaenorol), mae all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol ac mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio amser darpariaethau disgownt Trysorlys Ei Mawrhydi.

## A.15 Offerynnau Ariannol

IFRS 7: yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau dod i gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff y sector cyhoeddus.

### Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach trwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru'n amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith yn y prisiad blynyddol.

### Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n ymestyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn ymestyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd ar gynnydd mewn diddymiadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

### Risg Arian Tramor

Mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cyllid a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, gan alluogi lefelau gwariant wedi'u targedu i gael eu bodloni. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon i gyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

### Risg y Gyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun yn destun y gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei ffactora i mewn i'r gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir. Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

### Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth Senedd y DU trwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

## A.16 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau diwygiedig a newydd wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn, gan eu bod yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn y dyfodol.

Y safonau a allai effeithio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol os cânt eu mabwysiadu yw:

**IFRS 16 Leases** – effeithiol 1 Ionawr 2019.

Mae IFRS 16 Leases yn disodli IAS 17 Leases ac yn darparu un model cyfrifyddu prydlesai sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau hawl i ddefnydd ar gyfer prydlesi gyda thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth sylfaenol yr ased o werth isel.

Oherwydd effaith COVID-19 cytunodd Trysorlys EM â'r FraB i ohirio gweithredu IFRS 16 mewn llywodraeth ganolog tan 1 Ebrill 2021. Mae hyn yn cynrychioli gohirio blwyddyn o'r dyddiad effeithiol cychwynnol, 1 Ebrill 2020.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i IFRS 16 gael effaith sylweddol ar y cyfrifon cyfunol pan gaiff ei fabwysiadu.

**IFRS 17 Insurance Contracts** – effeithiol 1 Ebrill 2023

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 17 (Insurance Contracts) sy'n disodli IFRS 4 (Insurance Contracts). Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach o ran cydnabod, dosbarthu a mesur asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Disgwylir iddo fod yn effeithiol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023, yn dilyn penderfyniadau'r IASB i ohirio'r dyddiad effeithiol.

Nid oes canllawiau wedi'u rhoi eto i adrannau'r llywodraeth ar ddehongli'r safon hon.